**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Ymchwiliad i Fabwysiadu
Tachwedd 2012

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8153
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorPPL@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Ymchwiliad i Fabwysiadu
Tachwedd 2012

## Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gan roi iddo'r cylch gwaith o archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cwmpasu: addysg, iechyd a lles plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys gofal cymdeithasol ar eu cyfer.

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Christine Chapman (Cadeirydd)**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Angela Burns**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro



**Jocelyn Davies**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Suzy Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



**Rebecca Evans**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Lynne Neagle**
Llafur Cymru
Tor-faen



**Jenny Rathbone**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Aled Roberts**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru



**Simon Thomas**
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Keith Davies**
Llafur Cymru
Llanelli

# Cynnwys


**Crynodeb o Argymhellion a Chamau Gweithredu Manwl ar gyfer Llywodraeth Cymru .......... 5**

**1. Rhagymadrodd .......... 12**

**2. Dull cynnal yr ymchwiliad .......... 16**

**3. Y Cyd-destun .......... 17**

Ystadegau a thueddiadau .......... 17

Deddfwriaeth mabwysiadu .......... 18

Asiantaethau Mabwysiadu yng Nghymru .......... 18

**4. Darpariaeth anghyson ar draws Cymru .......... 20**

**5. Sicrhau sefydlogrwydd i blant a lleihau oedi .......... 22**

Opsiynau er mwyn sefydlogrwydd .......... 22

Pwysigrwydd cynllunio sefydlogrwydd i blant .......... 22

Rôl cynllunio deuol i blant: cynllunio dau drywydd a chynllunio cyfamserol .......... 28

Materion ariannol sy'n effeithio ar gynlluniau sefydlogrwydd i blant. .......... 31

Ffioedd rhyngasiantaethol .......... 31

Strwythurau cyllideb .......... 32

Enillion cymdeithasol .......... 33

Targedau .......... 36

**6. Recriwtio, asesu a pharatoi rheini i fabwysiadu .......... 38**

Ymgyrchoedd hysbysebu .......... 39

Ymateb cychwynnol i ymholiadau am fabwysiadu .......... 41

Asesu a chymeradwyo rhieni sy'n mabwysiadu .......... 44

Amser .......... 44

Asesu .......... 45

Hyfforddi a Pharatoi .......... 47

Cynnwys .......... 47

Amseru .......... 48

Profiadau mabwysiadwyr o gefndiroedd amrywiol ........................... 49
Rôl y panel mabwysiadu ................................................................ 50
**7. Y broses baru a'r trosglwyddo ............................................................ 51**
Paru ................................................................................................ 51
Paru plant anodd eu lleoli ........................................................... 53
Grwpiau o frodyr a chwiorydd ...................................................... 53
Asesu a sgrinio cyn mabwysiadu ..................................................... 56
Cymorth paratoi i blant ..................................................................... 58
Rôl gofalwyr maeth ........................................................................ 59
**8. Hawliau plant yn y broses fabwysiadu ........................................... 61**
Gwrando ar blant a phobl ifanc yn ystod y broses fabwysiadu ........ 62
Hawl plant i wybodaeth: darparu gwybodaeth am brofiadau bywyd ac ansawdd y wybodaeth ......................................................................... 64
Hawl i gysylltu â theuluoedd biolegol yn cynnwys rhieni biolegol a brodyr a chwiorydd ......................................................................... 66
**9. Cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd: cymorth ar ôl mabwysiadu .................................................................................................. 69**
Cyllid ar gyfer cymorth mabwysiadu ................................................. 71
Ymestyn dyletswyddau i blant a fabwysiadir ...................................... 72
Hawl i gael anghenion wedi'u diwallu yn ogystal â hawl i asesiad 72
Hawliau tebyg i blant sy'n derbyn gofal ......................................... 73
Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gwasanaethau therapiwtig ............................................................... 74
Materion ymlyniad ........................................................................ 75
Problemau'n manteisio ar CAMHS ................................................. 76
Gwasanaethau arbenigol ................................................................ 79
Yr un flaenoriaeth â phlant sy'n derbyn gofal ................................ 80
Addysg ............................................................................................. 82
Cymorth a bod yn ymwybodol o fabwysiadu .................................. 84
Pynciau ysgol ................................................................................ 86
Anghenion dysgu ychwanegol ........................................................ 87

Derbyn i ysgolion ........................................................................ 88
Cydgysylltwyr addysg plant sy'n derbyn gofal .............................. 90
Cymorth penodol i rieni ar ôl mabwysiadu ....................................... 91
Rhaglenni cymorth rhianta ............................................................ 92
Cymorth gan gymheiriaid .............................................................. 93
Tarfu ar drefniant mabwysiadu a chwalfa ......................................... 94
Cyfyngiadau'r data presennol am darfu ar drefniadau mabwysiadu ........................................................................................................ 95
Cymorth Ariannol ............................................................................ 98
**10. Materion y gweithlu ...................................................................... 101**
Capasiti gwaith cymdeithasol ......................................................... 101
Gwaith uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd .......................... 103
Parhad o ran gweithwyr cymdeithasol yn y broses fabwysiadu ...... 104
Arbenigedd a phrofiad mabwysiadu o fewn gwasanaethau cymdeithasol generig ................................................................... 106
Gweithwyr arbenigol ..................................................................... 108
Cysylltiadau rhwng timau mabwysiadu a thimau gofal plant ......... 109
Y goblygiadau i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol arfaethedig ........................................................................................................ 109
Hyfforddiant cychwynnol a datblygiad proffesiynol parhaus .......... 110
**11. Cynigion am Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol .............. 112**
Cefnogaeth drwyddi draw i'r cysyniad o Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ................................................................................. 112
Cylch gwaith a swyddogaethau Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ................................................................................. 114
Rhannu cyfrifoldebau ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol .... 115
Atebolrwydd o fewn y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a chyflenwi gweithredol ...................................................................... 118
Rôl y sector gwirfoddol ..................................................................... 119
Goblygiadau daearyddol ................................................................... 121
**12. Data mabwysiadu cyfyngedig ........................................................ 123**

**Atodiad A: Crynodeb a dadansoddiad o dystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan deuluoedd sy'n mabwysiadu wedi ei baratoi gan Dr Sally Holland** ........ **125**

**Atodiad B: Cylch Gorchwyl** ........ **144**

**Atodiad C: Rhestr o'r tystion a roddodd dystiolaeth lafar** ........ **145**

## Crynodeb o Argymhellion a Chamau Gweithredu Manwl ar gyfer Llywodraeth Cymru

**Argymhelliad 1.** Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Dylid cryfhau rôl cyflenwi gwasanaeth uniongyrchol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn sylweddol o'r hyn sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn nogfen ymgynghorol *Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)*. Dylai fod gan y Gwasanaeth rôl gyflenwi ganolog a dylai gyflogi staff i weithio ar amrywiaeth o drefniadau mabwysiadu. Ni ddylai fod 'yn eiddo i'r awdurdodau lleol' fel y nodir yn y cynigion presennol. Dylai'r rôl arweiniol o fewn y Gwasanaeth fod yn uwch rôl annibynnol, yn adrodd i fwrdd amlasiantaethol, ac yn atebol yn y pen draw i'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru. (Tudalen 14)

**Argymhelliad 2.** Cynllunio sefydlogrwydd i blant Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda CLlLC i sefydlu partneriaeth sector gwirfoddol beilot mewn un awdurdod lleol yng Nghymru (ar batrwm y barnteriaeth rhwng Coram a Chyngor Harrow) lle mae mudiad gwirfoddol yn gweithio ochr yn ochr ag awdurdod lleol ac yn ymwneud yn gynnar â'r gwaith cynllunio gofal gyda'r nod o wella'r penderfyniadau rheoli gofal a wneir. (Tudalen 27)

**Argymhelliad 3.** Ymholiadau cychwynnol am fabwysiadu Dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol fod yn bwynt cyswllt cyntaf i ymholiadau am fabwysiadu yn cynnwys bod â chyfrifoldeb am ddarparu (neu gomisiynu) llinell gymorth ar y ffôn a gwefan gyda'r nod o ddenu darpar fabwysiadwyr. (Tudalen 43)

**Argymhelliad 4.** Asesu Dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol fod yn gyfrifol am asesu darpar fabwysiadwyr, gan gyflawni hyn drwy staff rhanbarthol sy'n cael eu cyflogi gan y Gwasanaeth. (Tudalen 47)

**Argymhelliad 5.** Hyfforddi a pharatoi mabwysiadwyr Y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ddylai fod yn gyfrifol am hyfforddi a pharatoi mabwysiadwyr, a dylai'r gwaith hwn gael ei wneud gan staff rhanbarthol sy'n cael eu cyflogi gan y Gwasanaeth. Mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys rhieni sydd wedi mabwysiadu, dylai'r Gwasanaeth adolygu'r trefniadau presennol ar draws Cymru i ddatblhygu rhaglen gynhwysfawr sy'n adeiladu ar arferion da cyfredol. (Tudalen 48)

**Argymhelliad 6.** Paru Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Cofrestr Fabwysiadu Genedlaethol i Gymru a dylai pob darpar fabwysiadwr a phlentyn sydd â chynllun mabwysiadu gael eu rhoi ar y gofrestr ar unwaith fel eu bod ar gael i'w paru. (Tudalen 55)

**Argymhelliad 7.** Cyfranogiad plant a phobl ifanc Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu trefn er mwyn i bobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu gymryd rhan yn y broses barhaus o ddatblygu a chyflenwi'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. (Tudalen 62)

**Argymhelliad 8.** Gwaith profiadau bywyd Dylai gwaith safonol yn cofnodi profiadau bywyd gael ei gynnig i bob plentyn sy'n cael ei fabwysiadu. Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol, fel mater o frys, adolygu faint o fylchau sydd yn y ddarpariaeth a sefydlu strategaeth i sicrhau bod pob plentyn yn gallu manteisio ar wybodaeth safonol. (Tudalen 66)

**Argymhelliad 9.** Cymorth ôl-fabwysiadu Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Llywodraeth y DU, ymchwilio i ddichonoldeb pennu bod yr awdurdod sy'n lleoli yn parhau'n gyfrifol am ddarparu cymorth ôl-fabwysiadu nes bydd y plentyn yn cael ei ben-blwydd yn 18 oed. (Tudalen 72)

**Argymhelliad 10.** Hawl i wasanaethau cymorth mabwysiadu Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r rheoliadau cyfredol i greu hawl statudol i wasanaethau cymorth mabwysiadu, nad yw wedi'i chyfyngu i hawl i asesiad o'r angen. (Tudalen 74)

**Argymhelliad 11.** CAMHS a gwasanaeth therapiwtig Dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, weithio gyda Chonffederasiwn GIG Cymru yng nghyswllt y ddarpariaeth i blant a fabwysiadir i gynnal archwiliad o'r ddarpariaeth bresennol a nodi bylchau, gan ystyried y materion a amlygwyd yn ein tystiolaeth gyda sylw penodol i fynediad at wasanaethau therapiwtig arbenigol. Dylai wedyn nodi cynllun sy'n amlinellu'r camau penodol a gaiff eu cymryd i ymdrin â'r diffygion cyfredol yn y ddarpariaeth i blant a fabwysiadir. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru hefyd orfodi awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i gydweithio. Dylid ceisio tystiolaeth bellach gan bob parti sydd â buddiant yn cynnwys teuluoedd sy'n mabwysiadu. Dylai'r cynllun amlinellu a gaiff gwasanaethau therapiwtig eu darparu drwy ddatblygu gwasanaeth arbenigol newydd neu dylai ei gwneud yn glir sut y mae modd eu darparu mewn ffordd amserol o fewn CAMHS.

Bydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn ailedrych yn benodol ar y cynnydd a wnaethpwyd yn rhoi'r argymhelliad hwn ar waith ymhen 12 mis. Rydym yn ymrwymo i gynnal unrhyw graffu pellach a ystyrir yn angenrheidiol gennym i adolygu cynnydd a sicrhau'r newidiadau sy'n ofynnol er darparu'r gwasanaethau pwysig hyn. (Tudalen 82)

**Argymhelliad 12.** Cod Derbyn i Ysgolion Dylid rhoi'r un flaenoriaeth i blant wedi'u mabwysiadu ag i blant sy'n derbyn gofal yn y Cod Derbyn i Ysgolion. (Tudalen 91)

**Argymhelliad 13.** Cylch Gwaith Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal Dylai Llywodraeth Cymru ehangu cylch gwaith Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal i gynnwys plant wedi'u mabwysiadu. (Tudalen 91)

**Argymhelliad 14.** Cymorth rhianta Dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, ar y cyd â darparwyr allweddol, fod yn gyfrifol am ddatblygu ystod eang o raglenni cymorth rhianta sydd: yn diwallu anghenion amrywiol teuluoedd ar draws y sbectrwm; yn canolbwyntio ar fodelau seiliedig ar dystiolaeth; ac yn hyrwyddo cyfleoedd i fabwysiadwyr gael rhan yn dylunio a chyflwyno cynnwys. (Tudalen 94)

**Argymhelliad 15.** Materion gweithlu Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chyngor Gofal Cymru a CLlLC i adolygu'r 'strategaeth gweithlu' gwaith cymdeithasol mewn perthynas â mabwysiadu, yn benodol gan nodi bylchau yn yr wybodaeth am ddatblygiad plant a theori ymlyniad a mynd i'r afael â'r bylchau hynny. Dylai'r adolygiad edrych ar anghenion staff yn y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac, yr un mor bwysig, ar anghenion gweithwyr cymdeithasol mewn awdurdodau lleol sy'n gwneud gwaith asesu sefydlogrwydd a chynllunio gyda phlant. Dylai fod gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol rôl arweiniol yn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus y gweithlu o safbwynt materion mabwysiadu. (Tudalen 110)

**Argymhelliad 16.** Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Dylai Gweithgor Arbenigol Llywodraeth Cymru edrych yn fanwl ar y model ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar sail argymhellion y Pwyllgor. Dylai'r Dirprwy Weinidog ddychwelyd a briffio'r Pwyllgor ynglŷn â manylion y model, unwaith y bydd y newidiadau i'w chynigion wedi cael eu datblygu ymhellach. (Tudalen 118)

Camau Gweithredu Manwl (i Lywodraeth Cymru ymateb iddynt)

*Cynllunio sefydlogrwydd i blant*

- dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fod â systemau cadarn ar waith i gynllunio sefydlogrwydd a'r rheiny'n gorfodi uwch reolwyr ac aelodau'r awdurdod lleol i graffu ar gynnydd a'i fonitro yn erbyn cynlluniau unigol.
- tra bydd y dangosydd perfformiad cyfredol ynglŷn â chynllunio sefydlogrwydd yn parhau mewn grym, dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu esboniad yn amlinellu'r rhesymau am unrhyw amrywiadau yn nharged y dangosydd perfformiad pan gaiff y dangosyddion eu cyhoeddi.

***Cynllunio cyfamserol***

- dylai Llywodraeth Cymru sefydlu adolygiad am gyfnod cyfyngedig, yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid allweddol, i nodi'r rhwystrau rhag cynllunio cyfamserol ar hyn o bryd ac yn cyflwyno strategaeth i'w datrys. Dylai'r adolygiad hefyd nodi unrhyw faterion cyfreithiol y mae angen eu hegluro.

***Materion ariannol***

- dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda CLlLC i gynorthwyo awdurdodau lleol i adolygu strwythur eu cyllidebau mabwysiadu a maethu a chanfod unrhyw effaith bosibl a gaiff y rhain o ran sicrhau sefydlogrwydd amserol i blant.
- dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda CLlLC, gomisiynu adolygiad o gostau llawn darparu gwasanaethau mabwysiadu mewn awdurdodau lleol gyda golwg ar nodi cyllidebau y byddai modd, yn y tymor canolig, eu defnyddio i ariannu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn gynaliadwy.
- dylai Llywodraeth Cymru alluogi awdurdodau lleol i gyflwyno tâl am fabwysiadu gan lysriant.

***Ymgyrchoedd hysbysebu***

- dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu ymgyrch hysbysebu genedlaethol. Dylai hynny gynnwys strategaethau penodol i dargedu mabwysiadwyr ar gyfer 'plant anodd eu lleoli'.
- dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ddatblygu (ar y cyd â mabwysiadwyr profiadol) ystod o ddeunyddiau addas

wedi'u hanelu at ddarpar fabwysiadwyr, i gefnogi ymgyrch hysbysebu genedlaethol.

***'Plant anodd eu lleoli'***

- dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol weithio gyda rhanddeiliaid allweddol gyda golwg ar gynyddu'r gronfa o ddarpar fabwysiadwyr i 'blant anodd eu lleoli', gan ystyried sut y gellid gwella'r recriwtio ac edrych hefyd ar faterion yn ymwneud â chymorth ymarferol ychwanegol y gellid ei ddarparu.

***Cymorth paratoi i blant***

- dylai gofalwyr maeth gael hyfforddiant gorfodol ar 'gynorthwyo plant i symud ymlaen i gael eu mabwysiadu'. Dylai unrhyw anghenion penodol gan ofalwyr maeth am gymorth gael eu nodi pan wneir y penderfyniad i leoli'r plentyn gyda nhw ar leoliad mabwysiadol. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda CLlLC i sicrhau bod hyn yn digwydd.

***Gwrando ar 'ddymuniadau a theimladau' plant a phobl ifanc***

- dylai cylch gwaith y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol gynnwys hyrwyddo'r wybodaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc a datblygu deunyddiau hygyrch i gau unrhyw fylchau o ran yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd. Dylai fod gan y Gwasanaeth rôl hefyd yn hyrwyddo hyfforddiant ac ymarfer da o ran gwrando ar ddymuniadau a theimladau plant yn ystod y broses fabwysiadu.

***Cyswllt***

- lle penderfynwyd bod cyswllt â'i deulu biolegol er budd pennaf y plentyn, dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi ffyrdd o wella'r cymorth ymarferol er mwyn cynnal trefniadau o'r fath a'u monitro'n well.

***Addysg***

- dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y newidiadau sydd yn yr arfaeth i'r fframwaith asesu a chynllunio darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig gynnwys cyfeiriad penodol at anghenion posibl plant wedi'u mabwysiadu.
- dylai hyfforddiant am anhwylderau ymlyniad ac effeithiau trawma cynnar ar blant yn y system ysgolion gael ei ymgorffori yng nghymwysterau hyfforddiant cychwynnol athrawon, yn

ogystal â bod yn rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus athrawon, cwnselwyr ysgol a staff arall mewn ysgolion.

- dylai'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru o fis Medi 2012, gynnwys, ym mlwyddyn academaidd 2013/14, ffocws ar faterion ymlyniad fel rhan o'r addysgu craidd ynghylch anghenion dysgu ychwanegol.
- dylai Llywodraeth Cymru weithio ar y cyd â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru i ddatblygu deunyddiau ysgrifenedig i rieni sy'n mabwysiadu eu rhoi i staff ysgol yng Nghymru, yn tynnu sylw at anghenion neilltuol plant wedi'u mabwysiadu.

***Tarfu ar drefniant mabwysiadu***

- dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Asiantaethau Mabwysiadu yng Nghymru i adolygu'r ffordd y caiff data ei gofnodi ar hyn o bryd a dylai sefydlu mecanwaith tracio a chofnodi newydd ar gyfer y cyfraddau tarfu a theuluoedd yn chwalu yng nghyswllt plant a leolir i'w mabwysiadu o'r system gofal.

***Cymorth Rhianta***

- dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol gynorthwyo asiantaethau mabwysiadu a mudiadau gwirfoddol i ddatblygu grwpiau lleol cymorth gan gymheiriaid a datblygu grwpiau cenedlaethol lle nodwyd bod angen, er enghraifft i fabwysiadwyr sengl.

***Cymorth Ariannol***

- dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i'r Gweinidogion perthnasol ar lefel y DU, yn galw am adolygiad o'r systemau treth a budd-dal i sicrhau bod teuluoedd sy'n mabwysiadu yn cael cymorth ac anogaeth ac yn benodol fod cydraddoldeb rhwng tâl mamolaeth a thâl mabwysiadu.
- dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ynghylch safoni lwfansau mabwysiadu ariannol.

***Materion gweithlu***

- dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Gofal Cymru weithio gyda phrifysgolion sy'n darparu rhaglenni gwaith cymdeithasol cymhwyso ac ôl-gymhwyso i nodi ac, os oes raid, i fynd i'r afael â bylchau ym maes mabwysiadu yn cynnwys datblygiad plant a

theori ymlyniad, y gyfraith, polisi ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth.

***Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol***

- dylai Llywodraeth Cymru edrych yn fanwl ar fodel rheoli ac atebolrwydd i Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, wedi'i seilio ar y fframwaith a argymhellwyd gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc (fel yr amlinellwyd ym mharagraff 357 o'r adroddiad hwn), a'i symud ymlaen.
- dylai barn rhieni sy'n mabwysiadu ddylanwadu ar ddatblygiad y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod systemau ystyrlon wedi cael eu sefydlu er mwyn i fabwysiadwyr gymryd rhan yn y gwaith parhaus o ddatblygu a chyflenwi Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.
- dylai Llywodraeth Cymru ystyried y ffordd orau o symud gwaith ynglŷn â mabwysiadu gan lysrieni ymlaen, yng nghyd-destun creu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

***Casglu data a monitro***

- dylai fod gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol rôl benodol yn casglu, monitro a chyhoeddi ystod lawn o ddata mabwysiadu (yn cynnwys data ansoddol lle mae'n berthnasol) er mwyn dylanwadu ar gyflenwi gwasanaethau a nodi tueddiadau gan ganolbwyntio ar wella'r canlyniadau i blant.

# 1. Rhagymadrodd

1. Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn well, lle bynnag y mae hynny'n bosibl, i blant gael eu magu yn eu teulu biolegol. Lle nad yw hyn yn bosibl, rydym yn ystyried mabwysiadu yn drefniant amgen gwerthfawr sy'n gallu cynnig amgylchedd teulu parhaol i rai o'r plant mwyaf bregus yng Nghymru. Mae rhieni sy'n mabwysiadu yn ymgymryd â rôl hollbwysig yn darparu sefydlogrwydd ac yn lleihau effeithiau'r niwed y mae rhai plant a fabwysiadir eisoes wedi'i brofi. Mae llawer o'r ystod eang o ystyriaethau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu yn gymhleth. Mae'r adroddiad hwn felly yn ceisio nodi rhai o'r ystyriaethau pwysicaf yr ydym wedi clywed amdanynt yn ystod yr ymchwiliad. Rydym hefyd wedi amlygu meysydd pwysig eraill y mae angen craffu ymhellach arnynt.

2. Cawsom dystiolaeth yn tanlinellu cryfderau'r gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru yn ogystal â rhai diffygion pwysig mewn agweddau ohonynt. Un elfen hynod bwysig yw'r dystiolaeth glir fod y gwasanaethau'n cael eu darparu'n anghyson iawn ar draws Cymru. Dywedwyd wrthym am ymateb cychwynnol gwael gan rai asiantaethau mabwysiadu i ymholiadau cychwynnol ynglŷn â mabwysiadu a bod rhai darpar fabwysiadwyr yn digalonni rhag dyfalbarhau. Mae llawer o deuluoedd sy'n mabwysiadu wedi cael eu gadael heb y cymorth y mae ei angen arnynt, yn union ar ôl i'w plentyn gael ei leoli gyda nhw ac yn y tymor hwy. Rhaid i hyn newid.

3. Bydd angen i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol newid y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu yn sylweddol iawn. Mae'r Pwyllgor yn unfrydol ei farn y dylai rôl gyflenwi'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol gael ei chryfhau'n sylweddol o'r hyn sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn nogfen ymgynghorol *Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)*. Dylai fod gan Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol rôl ganolog i gyflenwi ystod o wasanaethau mabwysiadu yn cynnwys recriwtio ac asesu darpar fabwysiadwyr. Dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol gyflogi pobl ar lefel ganolog a rhanbarthol. Dylai fod ganddo rôl yn hwyluso'r gwaith o baru mabwysiadwyr a phlant ar lefel genedlaethol, yn cynnwys cynnal Cofrestr Fabwysiadu Genedlaethol i Gymru. Dylai'r cyfrifoldeb am achosion a'r rôl benderfynu mewn perthynas â phlant aros gyda'r awdurdodau lleol, ond dylid cynnal peilot i edrych yn fanwl ar fanteision posibl partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a'r sector

gwirfoddol o ran penderfyniadau rheoli gofal. Ni ddylai Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol fod 'yn eiddo i'r awdurdodau lleol' fel sydd wedi'i nodi yng nghynigion y Dirprwy Weinidog Plant ar hyn o bryd.

4. Datblygu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yw'r newid mwyaf canolog a phwysig, ond nid dyna'r unig newid sy'n ofynnol. Mae'r dystiolaeth amrywiol a glywyd yn awgrymu bod angen atebion ar amryw o lefelau gwahanol. Er enghraifft, cododd y bobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu y gwnaethom gwrdd â nhw rai materion pwysig yn ymwneud â'u profiad o addysg. Bydd gwrando ar eu pryderon, a gweithredu lle mae hynny'n bosibl, yn ffactor allweddol er penderfynu a fydd newidiadau i'r gwasanaethau mabwysiadu yn y dyfodol yn gwneud gwahaniaeth mewn gwirionedd i fywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Rydym hefyd wedi gwneud argymhellion ynglŷn â datblygu'r gweithlu gweithwyr cymdeithasol, y bydd eu rôl y tu allan i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, yn arbennig o ran datblygu'r sgiliau sy'n ofynnol i gynnal asesiadau a chynllunio sefydlogrwydd, yn cynnwys yr asesiadau cyn-mabwysiadu hollbwysig.

5. Mae angen cymorth ar rieni sy'n mabwysiadu i ddeall y sialensiau posibl y gallai eu plentyn eu hwynebu a sicrwydd y bydd unrhyw help y gallai fod ei angen arnynt yn y dyfodol yn cael ei ddarparu'n gyflym, heb ddadlau. Mae angen i asiantaethau perthnasol fel y gwasanaethau cymdeithasol, addysg a'r gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) gydnabod y bydd gan y mwyafrif o blant sy'n cael eu lleoli i'w mabwysiadu sialensiau sylweddol i'w goresgyn a bod angen adlewyrchu hyn yn y cymorth sydd ar gael i rieni sy'n mabwysiadu[1]. Rhoddodd rhai rhieni sydd wedi mabwysiadu enghreifftiau inni o gymorth rhagorol a ddarparwyd gan weithwyr cymdeithasol ac unigolion allweddol eraill. Mae angen inni sicrhau bod cymorth o'r fath yn cael ei ddarparu'n gyson ac i bob teulu.

6. Er bod oedi yn y llysoedd y tu hwnt i gylch gwaith ein hymchwiliad a'i fod wedi cael ei gofnodi'n helaeth fel arall, mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn ynglŷn â'r niwed y mae oedi yn y gyfundrefn cyfiawnder teulu yn ei achosi i blant. Clywsom dystiolaeth bwysig arall sydd y tu hwnt i gylch gorchwyl yr ymchwiliad hwn, megis cymorth i deuluoedd biolegol. Lle mae hynny'n briodol rydym wedi trosglwyddo'r wybodaeth hon i bartïon perthnasol.

---

[1] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth ysgrifenedig cyn yr ymgynghoriad gan Adoption UK

7. Y neges bennaf gan rieni sy'n mabwysiadu yw bod y profiad gweddnewidiol o fabwysiadu eu plant yn llawer cryfach na'r sialensiau niferus y byddant efallai wedi'u hwynebu ar hyd eu siwrnai fabwysiadu. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i hyn gael ei bwysleisio a'i adlewyrchu yng nghasgliadau'r ymchwiliad hwn.

> "Wrth gwrs, fe yw'r bachgen bach gorau yn y byd!"
>
> "Mae wedi bod yn wych!"
>
> "Mae gan fy ngŵr a minnau fachgen bach arbennig. Mae ganddo beth ymddygiad heriol ond rydym wedi dod drwyddi ac rydym yn ei garu'n fawr iawn ac yn teimlo ein bod wedi'n bendithio".

8. Rydym yn fawr iawn ein dyled i'r rhieni sydd wedi mabwysiadu a'r bobl ifanc sydd wedi rhoi o'u hamser i'n helpu gyda'r ymchwiliad pwysig hwn. Rhoddodd eu parodrwydd i rannu'u profiadau'n agored olwg unigryw i'r Pwyllgor ar fabwysiadu yng Nghymru. Rydym wedi cyhoeddi adroddiad penodol o'r dystiolaeth a ddaeth i law ochr yn ochr â'r adroddiad llawn hwn. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i Dr Sally Holland[2] sydd wedi ein harwain a'n cynorthwyo'n fedrus wrth inni gasglu barn rhai o'r rhai y mae mabwysiadu wedi effeithio arnynt.

9. Ar ddiwedd ein hymchwiliad, mae angen inni fod yn sicr y bydd y newidiadau sy'n cael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru yn gwireddu'r canlyniadau angenrheidiol i blant a fabwysiadir a'u teuluoedd. **Oni wneir newidiadau sylweddol i gynigion presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, caiff cyfle o bwys ei golli i wneud gwelliannau y mae mawr eu hangen sy'n effeithio ar fywydau rhai o'r plant mwyaf bregus yng Nghymru.**

**Argymhelliad 1: Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol**
**Dylid cryfhau rôl cyflenwi gwasanaeth uniongyrchol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn sylweddol o'r hyn sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn nogfen ymgynghorol *Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)*. Dylai fod gan y Gwasanaeth rôl gyflenwi ganolog a dylai gyflogi staff i weithio ar amrywiaeth o drefniadau mabwysiadu. Ni ddylai fod 'yn eiddo i'r awdurdodau lleol' fel y nodir yn y cynigion presennol. Dylai'r rôl arweiniol o fewn y Gwasanaeth fod yn uwch rôl annibynnol, yn adrodd i fwrdd**

[2] Darllenydd mewn Gwaith Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd

**amlasiantaethol, ac yn atebol yn y pen draw i'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru.**

## 2. Dull cynnal yr ymchwiliad

10. Ar 9 Rhagfyr 2011, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc gais am dystiolaeth ar sail cylch gorchwyl yr ymchwiliad i fabwysiadu (gweler Atodiad B). Cafodd y Pwyllgor 37 ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad, 23 ohonynt gan deuluoedd mabwysiadol. Roedd tri o'r rhain yn ddienw, wedi'u hanfon ymlaen gan asiantaethau mabwysiadu. Cafwyd hefyd setiau o ymatebion wedi'u coladu (ond yn cynnwys dyfyniadau uniongyrchol hir) gan asiantaethau mabwysiadu: Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent, Consortiwm Gogledd Cymru. Coladodd CLlLC ymatebion gan nifer o asiantaethau mabwysiadu, ac roedd peth o'r dystiolaeth honno'n cynnwys dyfyniadau uniongyrchol gan fabwysiadwyr y gofynnwyd amdanynt yn benodol ar gyfer yr ymchwiliad. Cynhaliodd un grŵp cymorth mabwysiadu gyfarfod arbennig i drafod yr ymchwiliad a chyflwynodd sylwadau ysgrifenedig oddi wrth y grŵp.

11. Yn ychwanegol at yr ymatebion ysgrifenedig, rhoddodd aelodau o 37 teulu mabwysiadol (yn cynnwys saith person ifanc mewn sesiwn grŵp) dystiolaeth lafar mewn cyfarfodydd preifat, anffurfiol gydag is-grwpiau o'r Pwyllgor. Cyflwynodd rhai, ond nid pob un, o'r rhain dystiolaeth ysgrifenedig hefyd. Yr amcangyfrif yw ein bod wedi cael tystiolaeth uniongyrchol neu dystiolaeth wedi'i choladu ymlaen llaw oddi wrth o leiaf 60 o deuluoedd mabwysiadol unigol.

12. Cynhaliwyd chwe sesiwn tystiolaeth preifat gyda theuluoedd rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf yng Nghaerdydd, Arberth a Wrecsam. Ar yr achlysuron hyn, cyfarfu is-grwpiau o'r Pwyllgor â rhieni a oedd wedi mabwysiadu, a hynny weithiau ynghyd â'u plant. Roedd un sesiwn yng Nghaerdydd gyda grŵp o saith person ifanc a oedd wedi'u mabwysiadu.

13. Cynhaliodd y Pwyllgor hefyd bum sesiwn tystiolaeth ffurfiol, ac mae rhestr o'r tystion a roddodd dystiolaeth yn y sesiynau hyn i'w gweld yn Atodiad C.

## 3. Y Cyd-destun

**Ystadegau a thueddiadau**

14. Mae'r ystadegau mabwysiadu diweddaraf (a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2012) yn dangos bod 5,726 o blant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2012, cynnydd o 310 (6 y cant) dros y flwyddyn flaenorol. Mae'r nifer o blant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol Cymru wedi cynyddu 24 y cant dros y pum mlynedd diwethaf. Mabwysiadwyd 246 o blant o ofal rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012. Cafodd naw o bob deg plentyn (89 y cant) eu mabwysiadu gan eraill ac nid gan eu gofalwr maeth blaenorol yn 2011-12. O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, cafwyd gostyngiad bach o 6 (2 y cant) yn y nifer o blant a fabwysiadwyd. Caiff gwybodaeth ar lefel awdurdodau lleol ei thalgrynnu i'r 5 plentyn agosaf, i sicrhau nad oes modd adnabod achosion unigol. Oherwydd y niferoedd isel o blant fesul awdurdod mae hyn yn ei gwneud yn anodd nodi a dadansoddi gwybodaeth ar lefel awdurdodau lleol.

15. Cyfeiriodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (CLlLC/ADSS) a Chymdeithas Mabwysiadu a Maethu (BAAF) Cymru at y cynnydd yn y boblogaeth plant sy'n derbyn gofal dros y pum mlynedd diwethaf a'r cynnydd yn sgil hynny yn y galwadau ar wasanaethau mabwysiadu. Dywedodd Adoption UK Cymru wrthym fod cymhlethdod anghenion y plant hyn sydd wedi dod drwy'r system gofal gyhoeddus i gael eu mabwysiadu yn cynyddu oherwydd trawma sylweddol a theuluoedd yn chwalu[3].

16. Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos, am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2012, fod 140 o blant yn destun Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, o'i gymharu ag 85 yn 2011 a 60 yn 2010. Mae rhagor o wybodaeth am yr ystod o opsiynau gwahanol er mwyn sicrhau sefydlogrwydd i blant wedi'i nodi ym mhennod 5 o'r adroddiad hwn.

17. Caiff gwybodaeth am oed plant sy'n derbyn gofal ar yr adeg y cânt eu mabwysiadu ei chyhoeddi mewn misoedd. Mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos bod oed cyfartalog plant a oedd gynt yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gostwng er

[3] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth ysgrifenedig cyn yr ymgynghoriad gan Adoption UK (Atodiad B)

2003, adeg eu mabwysiadu, o fwy na blwyddyn, o 61 mis i 44 mis, er i'r rhan fwyaf o'r newid hwn ddigwydd rhwng 2003 a 2007.

18. Caiff gwybodaeth ei chyhoeddi, hefyd, am blant sy'n derbyn gofal a fabwysiadir yn ôl yr amser cyfartalog mewn diwrnodau rhwng gwahanol gamau'r broses fabwysiadu. Mae'r ffigurau diweddaraf ar lefel Cymru'n dangos: derbyn i ofal hyd at benderfyniad budd pennaf (371 diwrnod); penderfyniad budd pennaf hyd at baru'r plentyn a mabwysiadwyr (157 diwrnod); paru'r plentyn a mabwysiadwyr hyd at lleolwyd i'w fabwysiadu (22 diwrnod); a lleolwyd i'w fabwysiadu hyd at fabwysiadu (278 diwrnod). Drwyddi draw, mae'r amser a gymerir o'r adeg y caiff plentyn ei dderbyn i ofal hyd at fabwysiadu wedi gostwng mwy na blwyddyn er 2003 a 4 mis er 2007.

19. Cyhoeddir ystadegau hefyd ynglŷn â phroffil y rhai sy'n mabwysiadu ac maent yn dangos bod y mwyafrif o fabwysiadwyr yng Nghymru, bron i naw allan o ddeg, yn gyplau gwryw / benyw gwyn. Ychydig iawn o ddata sy'n cael ei goladu am y cyfraddau tarfu ar drefniant mabwysiadu a chwalfa a chyfyngedig yw'r wybodaeth bendant am yr achosion. Cyfeirir at hyn yn fanylach ym mharagraff (275) o'r adroddiad hwn. Mae pennod 12 o'r adroddiad hwn yn amlinellu'r dystiolaeth a glywsom am y materion sy'n deillio o gyfyngiadau'r data mabwysiadu sydd ar gael yng Nghymru.

## Deddfwriaeth mabwysiadu

20. Ar hyn o bryd, ar wahân i rai reoliadau ar gyfer Cymru yn unig (sy'n delio'n bennaf â materion gweinyddol), mae'r gyfraith ar fabwysiadu yr un fath yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae mabwysiadu'n faes sydd wedi'i ddatganoli o dan Atodlen 7, Rhan 1 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ac mae'n bosibl y ceir gwahaniaethau yn y ddeddfwriaeth ym maes mabwysiadu rhwng Cymru a Lloegr yn y dyfodol.

## Asiantaethau Mabwysiadu yng Nghymru

21. Mae 15 o asiantaethau mabwysiadu gwahanol yng Nghymru. Mae deuddeg awdurdod lleol wedi ffurfio tri gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol[4] ac mae dwy asiantaeth fabwysiadu wirfoddol hefyd wedi'u

[4] Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru'n cynnwys Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam; mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gorllewin Cymru'n cynnwys Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin; mae Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru'n cynnwys Blaenau Gwent, Torfaen a Sir Fynwy.

lleoli yng Nghymru[5]. Mae pob asiantaeth fabwysiadu yn rheoli ei phroses fabwysiadu ei hun yn unol â'r rheoliadau mabwysiadu. Mae rhai awdurdodau lleol ac asiantaethau gwirfoddol yn y Gogledd a'r De wedi ffurfio consortia mabwysiadu i rannu gwybodaeth am blant a darpar fabwysiadwyr i helpu i baru plant a mabwysiadwyr yn briodol yn y rhanbarth. Nod consortiwm yw hwyluso'r ffordd i leoli plant i'w mabwysiadu yn ardal y consortiwm, gan roi mwy o ddewis o fabwysiadwyr a chwtogi'r amser y mae plant yn disgwyl i gael eu paru[6].

[5] Cymdeithas Plant Dewi Sant a Gwasanaeth Mabwysiadu a Maethu Barnardo's Cymru
[6] Mae Consortiwm Asiantaethau Mabwysiadu De Cymru yn cynnwys CBS Pen-y-bont ar Ogwr, CBS Caerffili, CBS Caerdydd, CBS Merthyr Tudful, CBS Castell-nedd Port Talbot, CBS Casnewydd, CBS Rhondda Cynon Taf, CBS Abertawe, CBS Bro Morgannwg, Gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu Barnardo's Cymru a Chymdeithas Plant Dewi Sant; Mae The Consortiwm Asiantaethau Mabwysiadu Gogledd Cymru yn cynnwys: CBS Ynys Môn, CBS Gwynedd, CBS Conwy, CBS Sir Ddinbych, CBS Sir y Fflint, CBS Wrecsam, Gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu Barnardo's Cymru, Cymdeithas Plant Dewi Sant ac Adoption Matters North West.

# 4. Darpariaeth anghyson ar draws Cymru

22. Un o'r casgliadau amlwg o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, gan sefydliadau a mabwysiadwyr fel ei gilydd, yw bod gwasanaethau mabwysiadu wedi cael eu darparu'n anghyson iawn ar draws Cymru. Mae consenswS cyffredinol bod amrywiadau sylweddol yn y ddarpariaeth yn cynnwys llawer o agweddau recriwtio, asesu a'r holl faterion sy'n rhan o ddarparu cymorth ar ôl mabwysiadu. Mae ceisio mynd i'r afael ag anghysonderau o'r fath yn cael ei nodi fel un o'r ffactorau sbarduno allweddol wrth wraidd cynigion Llywodraeth Cymru am Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

23. O'r dystiolaeth a ddarparwyd gan fabwysiadwyr, un o'r themâu cryfaf oedd yr anghysondeb rhwng ymateb gwahanol awdurdodau lleol, gyda'r ymateb cychwynnol, yr asesu, yr hyfforddi, y paru a'r cymorth ar ôl mabwysiadu yn amrywio o ragorol i wael iawn. Rydym yn cydnabod bod rhai o'r materion y clywsom amdanynt yn rhai hanesyddol efallai. Roedd sawl mabwysiadwr wedi mabwysiadu fwy nag unwaith drwy wahanol asiantaethau a cafwyd tystiolaeth ganddynt fod gwahaniaeth o ran y lefelau cymorth, cyflymder ac effeithlonrwydd y prosesau a'r cymorth ar ôl mabwysiadu rhwng asiantaethau. Er i'r ddwy asiantaeth o'r sector gwirfoddol gael eu trafod yn gadarnhaol iawn o ran pob agwedd o'u gwasanaeth, mae'n bwysig nodi i sawl awdurdod lleol gael ei enwi fel rhai sy'n darparu gwasanaethau rhagorol, parod i ymateb, sensitif sydd cystal â'r ddarpariaeth yn y sector gwirfoddol.

24. Yn ei thystiolaeth, cyfeiriodd BAAF Cymru at amrywiadau yn narpariaeth yr awdurdodau lleol gan ddweud:

> "It is a varying picture. We have pockets where we know that there is some very good practice and pockets where local authorities struggle for a myriad of reasons in respect of their organisations." [7]

25. Dywedodd CLILC/ADSS wrthym:

> "We would accept that provision is uneven across Wales, and there is probably a lot that we can do as local authorities to improve that. Probably one of the reasons for why there is

---

[7] Cofnod y Trafodion [para 154], 9 Mai 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

> uneven provision is historical, in terms of where demand has been and where resources have been allocated."[8]

Yn ei thystiolaeth lafar, cydnabu Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol ('y Dirprwy Weinidog') fod angen newid a dywedodd:

> "There are variations between local authorities on many aspects of their responsibilities [....]. That is why the risk would be to not take any action and to try to preserve the status quo."[9]

26. Mae'r Pwyllgor yn croesawu uchelgais Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r amrywiadau hyn drwy'r cynigion i sefydlu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Fodd bynnag, rydym yn glir nad yw'r cynigion presennol yn ddigon pellgyrhaeddol i gyflawni'r newid mawr sy'n ofynnol. Manylir ymhellach yn yr adroddiad hwn ar y dystiolaeth a glywyd ynglŷn â diffyg cysondeb yn y gwasanaethau a'n hargymhellion yn y cyswllt hwn.

---

[8] Cofnod y Trafodion [para 156], 21 Mehefin 2012 (pm), y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[9] Cofnod y Trafodion [para 13], 19 Goprffennaf 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# 5. Sicrhau sefydlogrwydd i blant a lleihau oedi

## Opsiynau er mwyn sefydlogrwydd

27. Mae mabwysiadu yn un ffordd o sicrhau sefydlogrwydd i blant. Mae'r Pwyllgor yn derbyn y dystiolaeth yr ydym wedi'i chlywed am bwysigrwydd ystyried mabwysiadu yng nghyd-destun opsiynau sefydlog eraill i blant megis gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig; maethu tymor hir; gofal gan berthynas; a gorchmynion preswylio. Dywedodd Voices From Care wrthym y byddent yn hoffi gweld yr un gwerth yn cael ei roi ar bob opsiwn sy'n darparu sefydlogrwydd[10], a phwysleisiodd Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) Cymru, NSPCC Cymru a BAAF Cymru hefyd bwysigrwydd gwerthfawrogi'r ystod o opsiynau sy'n gallu darparu lleoliad sefydlog i blentyn. Tynnodd y Rhwydwaith Maethu sylw at y risg ynghlwm wrth ganolbwyntio ar fabwysiadu fel yr unig ffordd o sicrhau sefydlogrwydd i blant ac argymhellai hyn:

> "A care planning framework for all looked after children is introduced which places the need for permanency at its heart and which explicitly states that there is no hierarchy of legal status and that in each case what is right for the child or young person must determine the decision."[11]

28. Mae'r Pwyllgor yn derbyn y dystiolaeth fod nifer o opsiynau sy'n gallu darparu canlyniadau o safon i blant unigol. Credwn ei bod yn bosibl gwella mabwysiadu'n sylweddol i'r plant hynny y mae er eu budd pennaf, gan gynyddu ar yr un pryd y nifer o blant y darperir sicrwydd iddynt drwy opsiynau sefydlog eraill sy'n fwyaf addas i'w hanghenion unigol.

## Pwysigrwydd cynllunio sefydlogrwydd i blant

29. Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth am bwysigrwydd trefn gadarn i gynllunio sefydlogrwydd fel nad yw plant yn 'drifftio' yn y system gofal. Mae cynllunio ar gyfer sefydlogrwydd yn golygu nifer o opsiynau, yn cynnwys mabwysiadu. Dywedodd Adoption UK Cymru wrthym fod llawer o blant yn cael eu gadael i ddrifftio'n rhy hir ar adeg

---

[10] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu,* Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Voices From Care, Ymateb i'r Ymgynghoriad AD20
[11] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu,* Tystiolaeth Ysgrifenedig gan y Rhwydwaith Maethu, Ymateb i'r Ymgynghoriad AD21

dyngedfennol yn eu datblygiad a'u bod yn cael ei niweidio'n gynyddol po hwyaf y maent yn disgwyl yn y system gofal.[12]

30. Gan amlygu amlygu ymhellach y goblygiadau posibl i blant pan fyddant yn treulio cyfnodau hir yn y system gofal, dywedodd Dr Julie Selwyn, Cyfarwyddwr Canolfan Hadley dros Astudiaethau Mabwysiadu a Gofal Maeth (Prifysgol Bryste), wrthym:

> "Social workers have been too focused on finding a placement for a child rather than thinking about finding a permanent family and permanent relationships for children. We know that delay increases the likelihood of moves for children in the care system. Children are moving around foster-care placements; it is not as though they are staying with one family. Those moves, by themselves, can trigger mental health problems in children. [...] Delay increases mental health problems, makes children stressed and makes the chances of adoption much lower. For every year of delay, the chance of being adopted reduces by about 20 per cent."[13]

31. Dywedodd Dr Alan Rushton, Athro gwadd, Sefydliad Seiciatreg King's College Llundain, wrthym:

> "The core element is uncertainty: living for a long period of time in uncertain circumstances—whether you are going to stay or remain—and finally being transferred to a new environment, with a new school in a new neighbourhood with new siblings, which is a huge challenge. The less that is delayed, the better."[14]

32. Roedd y cyfnod hir yr oedd eu plant wedi'i dreulio mewn gofal maeth cyn dod i fyw gyda nhw yn destun loes i lawer o'r teuluoedd mabwysiadu a roddodd dystiolaeth inni. Mae'n ymddangos bod hyn yn arbennig o wir lle'r oedd yn debygol cyn geni plentyn y byddai'n cael ei fabwysiadu a bod y rhieni a oedd wedi mabwysiadu brawd neu chwaer hŷn yn barod i gael eu hystyried fel mabwysiadwyr posibl i'r babi newydd-anedig. Teimlai sawl rhiant y gallai penderfyniadau ynglŷn â mabwysiadu fod wedi cael eu gwneud yn gynt a bod gormod o

[12] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu,* Tystiolaeth ysgrifenedig cyn yr ymgynghoriad gan Adoption UK (Atodiad A)
[13] Cofnod y Trafodion [para 284], 13 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[14] Cofnod y Trafodion [para 285], 13 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

gyfleoedd yn cael eu rhoi i rieni genedigol ar draul angen y plentyn am leoliad parhaol.

33. Er bod yr ystyriaethau a'r trafod ynglŷn ag ymyrryd cynnar mewn teuluoedd biolegol o ddiddordeb cynhenid i'r Pwyllgor, mae'r ddadl gymhleth hon y tu hwnt i gylch gorchwyl yr ymchwiliad penodol hwn. Teimlai sawl teulu y dylent fod wedi cael cyfle i ofalu ar unwaith am frodyr neu chwiorydd iau a dynnwyd oddi wrth y rhieni ar yr enedigaeth, yn hytrach na bod y plant hynny'n treulio sawl mis gyda gofalwyr maeth cyn y lleoliad mabwysiadu.

> "I had six months of knowing that 'my' child, as I felt towards her, knowing that the plan was for her to come to us, was being cared for by someone else."

34. Mae mater penodol oedi yn y llysoedd y tu hwnt i gylch gwaith ymchwiliad y Pwyllgor a chafodd ei ystyried yn fanwl gan yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan sawl tyst sy'n adleisio canfyddiadau'r Adolygiad hwnnw fod oedi y gellid ei osgoi yn y system gofal a'r gwasanaethau mabwysiadu a bod hynny'n rhan o gyfrifoldeb awdurdodau lleol. [15]

35. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cwblhau datganiadau blynyddol i ddangos sut y maent yn perfformio mewn meysydd allweddol o'r gwasanaethau plant. Un dangosydd yw'r ganran o blant sydd â chynllun sefydlogrwydd ar adeg eu hail adolygiad plant sy'n derbyn gofal, y mae'n ofynnol yn ôl y rheoliadau iddo gael ei gynnal ddim hwy na phedwar mis ar ôl i blentyn ddechrau cael gofal. Er nad yw'r dangosydd hwn yn ymwneud yn benodol â mabwysiadu, mae iddo'r potensial i nodi'r awdurdodau lleol nad ydynt yn cyrraedd y targed cynllunio sefydlogrwydd o 100 y cant. Os na chytunwyd ar gynllun sefydlogrwydd yn yr ail adolygiad, mae'r Pwyllgor yn poeni bod potensial i achos y plentyn ddrifftio. Mae'r ffigurau am y cyfartaledd tair blynedd rhwng 2008 a 2011 yn dangos bod 13 o awdurdodau lleol yng Nghymru nad oeddent yn cyflawni'r gofyniad i fod â chynllun sefydlogrwydd ar yr adeg ofynnol[16].

36. Dywedodd CLlLC/ADSS wrthym eu bod yn ymwybodol iawn na ddylai awdurdodau lleol ganiatáu i achosion ddrifftio. Fodd bynnag,

---

[15] Cyfrifiadau gan Wasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
[16] Mewn un awdurdod lleol roedd mwy na 40 y cant o'r plant heb gynllun sefydlogrwydd ar yr adeg ofynnol.

roeddent yn amau gwerth y dangosyddion perfformiad cyfredol sy'n ymdrin â chynllunio sefydlogrwydd gan ddweud:

> "I cannot sit here and say that there are no children drifting in the system. I am simply saying that I do not think that you can measure the drift by that particular performance indicator. There is much more complexity behind that and there are much more rigorous questions that we could ask than simply looking at that performance indicator."[17]

37. Dywedasant wrthym hefyd eu bod yn negodi newid o ran sut y caiff perfformiad awdurdodau lleol ei fesur a'u bod yn gweithio i ddatblygu data sy'n dangos y canlynol:

> "… what the outcome was for the child, and the targets that people were working towards that supported improvement, rather than very arbitrary timelines."[18]

38. Aethant ymlaen i ddweud wrthym am y sialensiau sy'n wynebu gweithwyr cymdeithasol o ran gwneud penderfyniadau 'amserol' ynglŷn â'r opsiynau sefydlogrwydd gorau i blant, yn cynnwys bodloni eu hunain fod pob posibilrwydd gyda'r teulu wedi cael ei ddiystyru, gan ddweud:

> "[…] what is 'timely' when you have a child who will be taken away from their family and placed with a forever family? It is the most important decision that you make, is it not?"[19]

39. Un o flaenoriaethau penodol Llywodraeth Cymru i'r gwasanaethau plant yw 'gweithredu ynghynt i sicrhau sefydlogrwydd neu ddod o hyd i deuluoedd eraill ar gyfer y plant hynny na fyddai o les iddynt fynd yn ôl adref'[20]. Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

> "There has been an improvement. The majority of local authorities do now comply with this by the second review. In

---

[17] Cofnod y Trafodion [para 179], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[18] Cofnod y Trafodion [para 182], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[19] Cofnod y Trafodion [para 197], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[20] Llywodraeth Cymru: Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu 2011

some authorities, that figure is up to about 80%, but that is not good enough."[21]

40. Dywedodd Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru (SEWAS) wrthym

> "The longer children wait for a prospective parent, the more complex the move is likely to be. This makes robust permanency planning in agencies critical to the success of adoptive placements. [.... ] For those that do there needs to be robust permanency planning. This should not simply identify the preferred permanence option for the child but detail how that will be achieved and within what timescale. The Agency then need to have a process to ensure this is revisited. While it is looked at as part of a child's LAC review there is a danger that it is overshadowed by day to day arrangements rather than a focus on the child's need for a lifelong family."[22]

41. Canfu'r adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Swyddfa Safonau mewn Addysg (OFSTED) yn Lloegr[23] mai achos gofal oedd y rheswm mwyaf cyffredin am oedi o fewn mabwysiadu, ond canfu hefyd fod awdurdodau lleol sydd â systemau trylwyr ar waith i olrhain hynt achosion yn fwy tebygol o leihau'r risg o oedi cronnus sylweddol. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Julie Selwyn am systemau rheoli yn ymwneud â chynllunio sefydlogrwydd, fel y rhai a sefydlwyd fel rhan o'r bartneriaeth rhwng Bwrdeistref Harrow yn Llundain a Theulu Coram yn 2006 [24].

> "[…] if plans were not being pushed for particular children, action would be taken. Individual social workers would be called to account. […] Also through that system, children were reunited with their birth parents in a more timely manner. So, the drift for all children was reduced."[25]

---

[21] Cofnod y Trafodion [para 19], 19 Gorffennaf 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[22] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu,* Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru, Ymateb i'r Ymgynghoriad AD19
[23] OFSTED, Right on time: exploring delays in adoption**, 2** Ebrill 2012
[24] Selwyn, Dr J, *Evaluation of a new model of providing adoption services: the LB Harrow and Coram partnership*, 2009
[25] Cofnod y Trafodion [para 391], 13 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

42. Soniodd Cymdeithas Plant Dewi Sant hefyd am y bartneriaeth hynod lwyddiannus[26] rhwng Coram a Bwrdeistref Harrow yn Llundain.

43. Dywedodd y Rhwydwaith Maethu wrthym:

> "There are many examples in Wales where permanency planning works well and we need to ensure this is the case for all children in Wales." [27]

44. Mae'r Pwyllgor yn credu, lle mae ansicrwydd a all plant aros gyda'u teulu biolegol ai peidio, y dylai popeth gael ei wneud yn gyflym i sicrhau bod plant yn cael teulu diogel, sefydlog a chariadus i'w cynnal drwy eu plentyndod. Dylai hyn wrth gwrs gynnwys edrych yn fanwl ar yr opsiwn o aros gyda'r teulu biolegol ac asesu ai hynny fyddai er budd pennaf y plentyn.

45. O ystyried y dystiolaeth helaeth yr ydym wedi'i chlywed am ddatblygiad yr ymennydd yn nwy flynedd gyntaf bywyd plentyn a'r problemau sy'n codi pan nad yw plant yn datblygu ymlyniadau priodol yn ystod y cyfnod hwn, credwn ei bod yn dyngedfennol cynllunio sefydlogrwydd mewn modd amserol. Rydym yn derbyn tystiolaeth CLlLC/ADSS nad yw'r dangosyddion perfformiad cyfredol o reidrwydd yn adlewyrchu'r canlyniadau i blant ac y gallai cynlluniau newid ar ôl y cyfnod o bedwar mis. Teimlwn serch hynny fod y dangosydd cyfredol yn dangos pwysigrwydd cynllunio sefydlogrwydd mewn modd amserol ac y dylai fod gofyniad ar bob awdurdod lleol i gyrraedd y targed hwn nes bydd modd sefydlu mesurau perfformiad amgen.

**Argymhelliad 2: Cynllunio sefydlogrwydd i blant**
**Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda CLlLC i sefydlu partneriaeth sector gwirfoddol beilot mewn un awdurdod lleol yng Nghymru (ar batrwm y barnteriaeth rhwng Coram a Chyngor Harrow) lle mae mudiad gwirfoddol yn gweithio ochr yn ochr ag awdurdod lleol ac yn ymwneud yn gynnar â'r gwaith cynllunio gofal gyda'r nod o wella'r penderfyniadau rheoli gofal a wneir.**

---

[26] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Paper CYP(4)-15-12(td1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gymdeithas Plant Dewi Sant, 23 Mai 2012
[27] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru, Ymateb i'r Ymgynghoriad AD21

**Gweithredu Manwl: Cynllunio sefydlogrwydd i blant**

- **dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fod â systemau cadarn ar waith i gynllunio sefydlogrwydd a'r rheiny'n gorfodi uwch reolwyr ac aelodau'r awdurdod lleol i graffu ar gynnydd a'i fonitro yn erbyn cynlluniau unigol.**
- **tra bydd y dangosydd perfformiad cyfredol ynglŷn â chynllunio sefydlogrwydd yn parhau mewn grym, dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu esboniad yn amlinellu'r rhesymau am unrhyw amrywiadau yn nharged y dangosydd perfformiad pan gaiff y dangosyddion eu cyhoeddi.**

## Rôl cynllunio deuol i blant: cynllunio dau drywydd a chynllunio cyfamserol

46. Mae cynllunio dau drywydd yn digwydd pan fydd cynlluniau i ddychwelyd at deulu biolegol y plentyn yn cael eu hystyried ochr yn ochr â chynlluniau i'w leoli y tu allan i'r teulu, yn cynnwys mabwysiadu. Mantais hyn yw ei fod yn rhoi'r awdurdod lleol mewn sefyllfa i weithredu cynlluniau tymor hir ar unwaith pan fydd y llys yn gwneud ei benderfyniad terfynol. Mae cynllunio cyfamserol yn fath mwy arbenigol o gynllunio dau drywydd pan gaiff plentyn ifanc ei leoli gyda theulu maeth sydd wedi cael hyfforddiant arbennig ac a gymeradwywyd fel mabwysiadwyr. Fe'i cyflwynwyd mewn nifer fach o asiantaethau yn Lloegr yn y 1990au canol. Os penderfyna'r llys mai lleoliad mabwysiadu yw'r canlyniad gorau gall y plentyn aros gyda'i ofalwyr maeth pan gymeradwyir mabwysiadu yn hytrach na gorfod symud eto. Fodd bynnag, rhaid i'r gofalwyr maeth fod yn barod hefyd i dderbyn y posibilrwydd y bydd y plentyn yn dychwelyd adref at ei rieni biolegol os bydd y llys yn penderfynu mai dyna'r opsiwn gorau.

47. O'r rhieni a roddodd dystiolaeth, dywedodd sawl mabwysiadwr am yr ail a'r drydedd waith wrthym y byddent wedi ystyried trefniadau cynllunio cyfamserol ar gyfer brodyr a chwiorydd iau newydd-anedig.

48. Darparodd llawer o asiantaethau dystiolaeth yn cefnogi'r dulliau hyn. Mae Adoption UK Cymru, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a BASW Cymru, i gyd yn nodi manteision eu defnyddio. Dywedant eu bod yn golygu llai o symud i blant mewn gofal a'u bod yn gallu bod yn llesol o ran ymlyniad a datblygiad emosiynol

iach. Darparodd Barnardo's Cymru fodel cynllunio cyfamserol posibl i'r Pwyllgor y mae'n awgrymu y gellid ei ddatblygu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yng Nghymru a dywedodd hefyd wrthym:

> "Concurrent planning means that children get a stable loving home as early as possible and that the risks of disruption are taken by adults rather than children." [28]

49. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ganfod pam na fanteisiwyd ar gynllunio cyfamserol yng Nghymru, yn enwedig gan ei fod yn gallu golygu bod y plentyn yn mynd drwy lai o newidiadau. Dywedodd Dr Julie Selwyn wrthym:

> "Cost is one of the key areas. The other is having the right kind of concurrent planning placement available when the social worker needs it." [29]

50. Yn ei dystiolaeth lafar dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wrthym am yr her o recriwtio rheini mabwysiadu sy'n barod i ystyried lleoli plant o dan drefniadau cyfamserol:

> "I think that we have to accept that the majority of adopters who come forward are childless couples who want a child of their own, and do not want to consider fostering or the chance that this child will return home to its parents. So, you would have to be very specific and have good staffing levels to support them." [30]

51. Cyfeiriodd hefyd at rai cymhlethdodau posibl:

> "We just wonder whether the parents are initially approved only as foster carers and then as adopters or whether they are just approved as adopters. The legislation does not allow for those two approvals to happen in one place. At the moment, under the legislation, those have to happen in two different places. I think that that can delay the process quite considerably." [31]

52. Dywedodd Barnardo's Cymru wrth y Pwyllgor fod angen:

---

[28] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Paper CYP(4)-15-12(td2b), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol gan Barnardo's Cymru, 23 Mai 2012
[29] Cofnod y Trafodion [para 388], 13 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[30] Cofnod y Trafodion [para 56], 21 Mehefin 2012 (pm), y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[31] Cofnod y Trafodion [para 124], 21 Mehefin 2012 (pm), y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

> "[…] strong leadership and commitment in local authority senior management to promoting the use of Concurrent Planning and a greater understanding of the process within social work teams, local authority legal departments, judiciary and the courts."[32]

53. Yn ei thystiolaeth lafar inni am gynllunio cyfamserol, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

> "I have reservations…What it would actually mean is that we would have to seek to recruit adopters who were prepared to become foster carers as well. I think that some people might feel that that was not for them because it would mean going through the assessment process to become foster carers at the same time as the process for adoption. The process for becoming foster carers would require them to accept contact with birth families and the possibility of the child going back to the birth family."[33]

54. Er bod y Pwyllgor yn deall y gallai fod cymhlethdodau wrth symud agweddau o'r dulliau cynllunio deuol hyn ymlaen, rydym o'r farn fod y budd posibl i blant yn sylweddol. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol mai i garfan gymharol fach o blant y mae cynllunio cyfamserol yn debygol o fod yn addas ac mae'n cydnabod yr her o ddenu mabwysiadwyr sy'n barod i ofalu am blentyn a allai gael ei ddychwelyd i'w deulu biolegol.

55. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn glir hefyd y dylai unrhyw ymgyrch o blaid lleoliadau cynllunio cyfamserol fod yn ymwybodol fod risg na fyddai rhieni na fyddent yn dewis cynnig lleoliad o'r fath yn cael eu recriwtio. Credwn y dylai cynllunio cyfamserol gael ei ystyried yn fwy rhagweithiol i rai plant ac y dylai gael ei ystyried fel opsiwn posibl ym mhob cynllun sefydlogrwydd. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arweiniad a chymorth i awdurdodau lleol i symud hyn ymlaen.

**Gweithredu Manwl: Cynllunio cyfamserol**

- **dylai Llywodraeth Cymru sefydlu adolygiad am gyfnod cyfyngedig, yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid allweddol, i nodi'r rhwystrau rhag cynllunio cyfamserol ar hyn o bryd ac**

[32] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Paper CYP(4)-15-12(td2), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol gan Barnardo's Cymru, 23 Mai 2012
[33] Cofnod y Trafodion [para 28], 19 Gorffennaf 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**yn cyflwyno strategaeth i'w datrys. Dylai'r adolygiad hefyd nodi unrhyw faterion cyfreithiol y mae angen eu hegluro.**

**Materion ariannol sy'n effeithio ar gynlluniau sefydlogrwydd i blant.**

***Ffioedd rhyngasiantaethol***

56. Lle mae awdurdodau lleol yn lleoli plant i'w mabwysiadu gyda mabwysiadwyr a gymeradwywyd gan asiantaeth wirfoddol neu awdurdod lleol arall (nad ydynt yn rhan o wasanaeth mabwysiadu rhanbarthol gyda nhw), caiff ffi ryngasiantaethol ei chodi.

57. Tynnodd sawl asiantaeth megis Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Sir Penfro a Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (NWAS) sylw at fater ffioedd rhyngasiantaethol. Tynnodd y ddwy asiantaeth fabwysiadu wirfoddol yng Nghymru hefyd sylw at y mater.

58. Awgrymodd Barnardo's Cymru fod yna argraff bod mabwysiadwyr o asiantaethau gwirfoddol yn ddrud gan fod ffi ryngasiantaethol uchel yn cael ei chodi. Yn y cyfamser mae llawer o fabwysiadwyr o asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol yn disgwyl am leoliad.[34]

59. Ynghyd â Chymdeithas Plant Dewi Sant a BAAF Cymru, cyfeiriodd Barnardo's Cymru at waith am gost mabwysiadu a'r ffi ryngasiantaethol a gyd-ysgrifennwyd gan Dr Julie Selwyn[35] sy'n cymharu gwir gost ariannol mabwysiadu yn erbyn gadael plentyn mewn gofal maeth am gyfnod amhenodol. Canfu'r adroddiad hwn fod awdurdodau lleol yn tanamcangyfrif eu costau eu hunain wrth ganfod lleoliad mewnol.

60. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, yn sôn am y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol arfaethedig, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

> "The National Model will need to examine the pooling of budgets across Wales, to eliminate the competitive market between local authorities when dealing with adoption placements. This should in turn significantly reduce delays in

[34] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Paper CYP(4)-15-12(td2b), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol gan Barnardo's Cymru, 23 Mai 2012

[35] Selwyn,J; Sempik,J; Thurston, P a Wijedasa, W, (2009) Adoption and the inter-agency fee, yr Adran Addysg 2009

the process for both the children and prospective adopter. The legal framework for pooled budgets is well established and we have made considerable investment in building an understanding of how this approach can be managed in reality." [36]

### *Strwythurau cyllideb*

61. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth anghyson ynglŷn â chyllidebau awdurdodau lleol ac a yw eu strwythur yn dylanwadu ar y penderfyniadau ynglŷn ag opsiynau i ddarparu sefydlogrwydd i blant. Dywedodd Adoption UK Cymru wrthym:

> "Local authority funding does not prioritise promoting and supporting adoptive placements, as against other, less beneficial placements." [37]

62. Ac o ran cyllid ar gyfer cymorth ar ôl mabwysiadu:

> "Adoption team managers throw up their hands at the idea of spending £10,000 on a parent mentoring programme, for example. That may well keep a family together and make all the difference for those children, but their total adoption support budget is £10,000 and there is no way that they are going to spend it all on one family." [38]

63. Dywedodd Cymdeithas Plant Dewi Sant wrthym:

> "[…] some agencies will actually park children for three years. In a sense, it is about the structure of budgets. […] The adoption budget is a small one, whereas the fostering budget is a huge one. The budgets dictate the service that the child receives, rather than meet the child's needs." [39]

Argymellasant:

---

[36] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-24-12(td2b), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Gorffennaf 2012

[37] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Paper CYP(4)-13-12(td1d), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012

[38] Cofnod y Trafodion [para 234], 9 Mai 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

[39] Cofnod y Trafodion [para 122], 23 Mai 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

"It is imperative that we change rigid structures to one that is cost effective and delivers a future for children requiring adoption."[40]

64. Dywedodd Dr Julie Selwyn wrth y Pwyllgor:

"As far as I know, a consultation paper is due in September in England, which will look at how placements are commissioned and at the role of the voluntary sector. Budgets in England are used in similar sorts of ways. In England, children have been left in foster care for a further year, rather than being placed for adoption, because the budget for that year had been spent. Adoptive parents have been lost as a result."[41]

65. Fodd bynnag, awgrymai tystiolaeth arall nad oedd strwythurau cyllideb yn effeithio ar gynllunio sefydlogrwydd. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Cyngor Sir Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wrthym nad oedd strwythur cyllidebau'r awdurdod lleol yn eu profiad nhw yn effeithio ar ba mor gyflym y caiff plant eu symud i leoliadau mabwysiadu. Pan holwyd nhw ynglŷn â hyn, dywedodd CLlLC/ADSS wrthym eu bod yn synnu at unrhyw awgrym y byddai cyllidebau awdurdodau lleol yn atal unrhyw blentyn rhag cael ei leoli i'w fabwysiadu.

"Certainly for us, I have to say that there is no way that a child would not be adopted if there was a need for that child to be adopted. It is a children's services budget, not a fostering budget or an adoption budget. If I overspend on my children's services budget because I need to, I will. If I need to go to my members and say, 'Look, we've got these five children who we want to place, but we haven't got the resources in-house or within the consortium at the minute so we have to go outside and purchase them', I know that they would support me to enable that to happen, despite going over budget."[42]

### *Enillion cymdeithasol*

66. Amlygai peth o'r dystiolaeth yr enillion cymdeithasol a geir drwy fuddsoddi mewn gwasanaethau a systemau sy'n galluogi plant i gael

---

[40] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Paper CYP(4)-15-12(td1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gymdeithas Plant Dewi Sant, 23 Mai 2012
[41] Cofnod y Trafodion [para 287], 13 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[42] Cofnod y Trafodion [para 204], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

eu mabwysiadu'n gynnar. Er enghraifft dywedodd Adoption UK Cymru wrthym:

> "The long term costs of failing to address early trauma far outweigh the costs of providing high quality, professional and effective support to children and families." [43]

67. Tynnodd BAAF Cymru sylw at y gost emosiynol ac ariannol enfawr o gadw plentyn mewn gofal heb unrhyw ymdeimlad o berthyn i 'deulu am byth'. [44]

68. Dywedodd Barnardo's Cymru wrthym:

> "[…] attention should be given to the potential cost benefit of increasing adoptions. Early adoption is a cost effective option compared to frequent and unstable placements and demand on other services during a lifetime in care." [45]

69. Mae Cymdeithas Plant Dewi Sant yn awgrymu y dylai'r Comisiwn Archwilio gynnal astudiaeth i gostau ariannol darparu gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru. [46]

70. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at adroddiad 'Social Return on Investment'[47], a dywedodd ei fod yn dod i'r casgliad y gallai fod enillion cymdeithasol o fwy nag £1 miliwn y lleoliad am bob plentyn a fabwysiadir yn llwyddiannus o ofal, lle mae'r plentyn drwy fabwysiadu yn cael y cymorth sy'n ofynnol i ddatrys problemau o'i orffennol. Awgrymodd Angela Burns AC wrth y Dirprwy Weinidog fod awdurdodau lleol yn tueddu i ganolbwyntio llawer mwy ar y tymor byr—mae eu bryd ar faint o arian sydd ganddynt yn eu cyllideb eleni. [48]

71. Yng nghyd-destun y sialensiau ariannol ar hyn o bryd, bydd awdurdodau lleol yn ceisio gwneud yn fawr o'r adnoddau sydd ar gael

---

[43] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td1a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012
[44] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td2a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan BAAF Cymru, 9 Mai 2012
[45] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-15-12(pb), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol gan Barnardo's Cymru, 23 Mai 2012
[46] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-15-12(td1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gymdeithas Plant Dewi Sant, 23 Mai 2012
[47] Clifford, J. (2011). PACT Domestic Adoption and Fostering: SROI Evaluation. Reading. PACT. and London. Baker Tilly.
[48] Cofnod y Trafodion [para 86], 19 Gorffennaf 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

iddynt. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod mynd i'r afael â'r diffyg cysylltiad rhwng y ffordd y caiff gwasanaethau presennol awdurdodau lleol eu cyllido a'r buddsoddiad tymor hir sy'n ofynnol i sicrhau enillion cymdeithasol sylweddol yn rhwystr mawr, yn enwedig o ran sicrhau'r buddsoddiad y mae ei angen ar gyfer cymorth ar ôl mabwysiadu. Er i'r Dirprwy Weinidog ei gwneud yn glir na fydd unrhyw adnoddau ychwanegol (ar wahân i gostau cychwynnol posibl) ynghlwm wrth y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, mae'r Pwyllgor o'r farn fod y gwasanaeth yn gyfle o bwys i sefydlu trefn 'buddsoddi i gynilo' yn y tymor hwy, yn enwedig o ran cymorth arbenigol ar ôl mabwysiadu.

72. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol am strwythur cyllidebau awdurdodau lleol a chyllidebau mabwysiadu, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym ei bod yn ymwybodol o'r pryderon hyn ond nad oes gan bob awdurdod lleol gyllidebau ar wahân ar gyfer mabwysiadu a maethu.

> "Under the umbrella of a national adoption service we will examine the pooling of budgets across Wales, to eliminate the competitive market between local authorities when dealing with adoption placements. This should in turn significantly reduce delays in the process for both children and prospective adopter."[49]

Materion ariannol eraill

73. Clywsom dystiolaeth hefyd gan NWAS a SEWAS am yr adnoddau sy'n ofynnol i asesu mabwysiadu gan Gymar Rhiant.

74. Awgrymodd NWAS y dylai Llywodraeth Cymru roi'r grym i awdurdodau lleol i godi tâl am fabwysiadu gan Gymar Rhiant i atal y costau hyn rhag cael eu talu o'r gyllideb fabwysiadu graidd gan eu bod yn amharu ar y gweithgaredd craidd o asesu mabwysiadwyr cyffredinol ar gyfer plant yn y system gofal[50]. Mae dechrau codi tâl am fabwysiadu gan lysriant wedi cael ei argymell gan Weithgor Arbenigwyr Lloegr ar Fabwysiadu.

---

[49] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-25-12(td2), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, 26 Medi 2012

[50] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-19-12(td1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, 21 Mehefin 2012

**Gweithredu Manwl: Materion ariannol**

- **dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda CLlLC i gynorthwyo awdurdodau lleol i adolygu strwythur eu cyllidebau mabwysiadu a maethu a chanfod unrhyw effaith bosibl a gaiff y rhain o ran sicrhau sefydlogrwydd amserol i blant.**
- **dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda CLlLC, gomisiynu adolygiad o gostau llawn darparu gwasanaethau mabwysiadu mewn awdurdodau lleol gyda golwg ar nodi cyllidebau y byddai modd, yn y tymor canolig, eu defnyddio i ariannu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn gynaliadwy.**
- **dylai Llywodraeth Cymru alluogi awdurdodau lleol i gyflwyno tâl am fabwysiadu gan lysriant.**

**Targedau**

75. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ynglŷn â gosod targedau ar gyfer y camau yn y broses fabwysiadu y mae awdurdodau lleol yn gyfrifol amdanynt, gyda'r nod o gyflymu'r broses. Yn Lloegr, mae targedau wedi cael eu pennu yng nghyswllt arolygiadau OFSTED o wasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol a hefyd o fewn 'Cardiau Sgorio Mabwysiadu' yr Adran Addysg i awdurdodau lleol unigol

76. Manylir ymhellach ar y dystiolaeth a ddaeth i law am oedi mewn agweddau o wasanaethau mabwysiadu mewn man arall yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, o ran mater ehangach amserlenni, nododd sawl mabwysiadwr fod yr amserlenni'n teimlo'n ddigon priodol iddyn nhw, a phe bai'r asesu neu'r paru wedi cael eu cyflawni'n gyflymach na fyddai wedi bod yn ddigon trylwyr. Teimlai llawer y byddai lleihau'r broses asesu yn niweidiol i blant. Dywedodd rhiant wrthym:

> "I personally felt some alarm at hearing that the adoption process should be speeded up."

Dywedodd rhiant arall wrthym:

> "You can't rush the process."

77. Adleisiwyd hyn gan BAAF Cymru, CLlLC, Adoption UK a phanel mabwysiadu SEWAS. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrthym:

"We must ensure that in seeking to reduce delays in the adoption process we do not commit to a system based on performance measured against the length of the adoption process – to the detriment of thorough consideration of the best interests of the child in each individual child."[51]

78. Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

"I do not believe in adoption targets. I believe that time needs to be taken in the case of each individual child to ensure that what is being proposed is in the best interests of that individual child. That is not to say that we cannot have targets on performance and improvements."[52]

79. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r dystiolaeth a glywsom na fydd pennu targedau ynglŷn ag amserlenni yn gwarantu cynnydd ystyrlon i blant nac i ddarpar rieni mabwysiadu. Mae perygl eu bod yn cyfeirio sylw oddi wrth y gwir sialensiau y mae angen i ddarparwyr y gwasanaeth eu symud ymlaen. Rydym, fodd bynnag, o'r farn fod Llywodraeth Cymru'n defnyddio mesurau mwy cywrain i asesu safonau a chynnydd, yn cynnwys yr adborth gwerthfawr y gall y rhai y mae'r broses fabwysiadu yn effeithio'n uniongyrchol arnynt ei ddarparu.

---

[51] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-18-12(td1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gomisiynydd Plant Cymru, 21 Mehefin 2012
[52] Cofnod y Trafodion [para 15], 19 Gorffennaf 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# 6. Recriwtio, asesu a pharatoi rheini i fabwysiadu

80. Oherwydd y tystiolaeth yr ydym wedi'i chlywed am y difrod a achosir i blant gan oedi ac ansicrwydd, credwn fod mynd i'r afael â'r diffyg mabwysiadwyr ar hyn o bryd yn dyngedfennol er sicrhau sefydlogrwydd i'r plant hynny y nodwyd mai mabwysiadu yw'r opsiwn gorau ar eu cyfer. Dylid ystyried darpar fabwysiadwyr fel adnodd posibl gwerthfawr. Dylai'r systemau sydd ar waith geisio sicrhau bod cynifer â phosibl yn mynd ymlaen i fabwysiadu'n llwyddiannus.

81. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a glywsom yn awgrymu bod llawer o ddarpar fabwysiadwyr yn cael eu colli i'r system ac, o'r rheiny sy'n mynd ymlaen i fabwysiadu'n llwyddiannus, fod rhai'n gwneud hynny er gwaethaf y systemau sydd ar waith yn hytrach nag o'u herwydd. Clywsom rai enghreifftiau o wasanaethau recriwtio, asesu a pharatoi effeithlon gyda chymorth rhagorol yn cael ei ddarparu gan weithwyr cymdeithasol. Mae angen llawer mwy o gysondeb i gyrraedd y safon hon o wasanaeth ar draws Cymru gyfan.

82. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

> "There has been a reduction in the numbers of approved adopters in the last 18 months. Adoption Agencies and the Adoption Register have identified the urgent need to recruit, assess and approve potential adopters, a process which can take between 6-8 months to complete. The lack of potential adopters obviously has a huge impact on the availability of suitable matches to meet the varied needs of children waiting to be adopted. BAAF estimate that 1 in 4 children available for adoption will not be placed primarily due to the lack of an adoptive parent resource."[53]

83. Fodd bynnag, cyfeiriodd Adoption UK Cymru a Chymdeithas Plant Dewi Sant at gronfa fawr o ddarpar fabwysiadwyr na fanteisir arni[54] a

[53] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Paper CYP(4)-24-12(td1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Gorffennaf 2012

[54] Cofnod y Trafodion [para 11], 23 Mai 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

bod nifer sylweddol o deuluoedd yn cael eu colli oherwydd annigonolrwydd y system gyfredol.[55]

> "There is a risk that we feel overwhelmed by the challenge of finding 200 or 300 homes for children per year. There are 22 local authorities in Wales. For 200 children all that is required is that the national service recruit 10 families from each authority year after year. For 300 children we recruit 15 families from each authority. That is inherently achievable. The imperative is that we act with confidence, show leadership and finally secure justice for all children who wait."[56]

84. Tynnodd SEWAS, BASW Cymru a Barnardo's Cymru sylw at yr angen i dargedu recriwtio'n benodol i fynd i'r afael â'r diffyg mabwysiadwyr i blant hŷn, y rhai ag anghenion ychwanegol, grwpiau o frodyr a chwiorydd a phlant duon a phlant o grwpiau ethnig lleiafrifol.

**Ymgyrchoedd hysbysebu**

85. Nododd llawer o fabwysiadwyr eu bod yn teimlo bod eu plant wedi cyfoethogi eu bywydau a dywedodd rhai yr hoffent weld rhagor o storïau cadarnhaol yn cael eu portreadu yn y cyfryngau i annog rhagor o fabwysiadwyr i ddod ymlaen. Roedd y teuluoedd i gyd bron am bwysleisio bod y llawenydd o fagu eu plant yn fwy nag unrhyw anawsterau a wynebwyd ac roeddent am i Lywodraeth Cymru ddefnyddio mwy o storïau cadarnhaol i hyrwyddo mabwysiadu yng Nghymru. Dywedodd sawl tyst wrthym fod angen rhoi sylw ar y cyfryngau i agweddau cadarnhaol mabwysiadu a bod angen hyrwyddo'r gwelliannau y gall mabwysiadu eu gwneud i fywydau plant.

86. Cawsom dystiolaeth helaeth am yr angen am ymgyrch hysbysebu genedlaethol fwy cydlynol. Roedd y mabwysiadwyr y clywsom ganddynt am weld mwy o bortreadu cadarnhaol i ddangos fel y mae mabwysiadu wedi gwella'u bywydau. Soniwyd wrthym am y budd y gellid ei wireddu drwy fuddsoddi mewn ymgyrch recriwtio genedlaethol a fyddai'n cynnwys yr holl asiantaethau mabwysiadu. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai'r budd mwyaf yn deillio o ymgyrch recriwtio genedlaethol pe bai'n cael ei seilio ar wybodaeth leol a rhanbarthol.

---

[55] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Paper CYP(4)-15-12(td1b), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol gan Gymdeithas Plant Dewi Sant, 23 Mai 2012
[56] Ibid

87. Dywedodd Adoption UK Cymru:

> "[...] there needs to be a single national recruitment campaign for adoptive parents in Wales. This should direct interested parties to a single website and phone number where accurate basic information about adoption and the assessment process can be given and initial details taken from people who wish to proceed further. The current system of 24 separate recruitment campaigns running across Wales is clearly not a good use of resources."[57]

88. O ran anghysondebau yn yr ymateb, dywedodd BAAF Cymru wrthym:

> "A potential solution to this would be a national cohesive centrally funded recruitment strategy to provide consistency across Wales. This would require support from a National Adoption helpline which managed initial enquires and was serviced by an experienced workforce who could respond effectively, sensitively and efficiently to the scope and range of calls being made. A national enquiry service can also be used to collate data, analyse trends and plot variations in interest from different regions."[58]

89. Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod angen ymgyrch recriwtio genedlaethol a dylai datblygu'r ymgyrch fod yn un o dasgau cyntaf y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys rhieni sy'n mabwysiadu. Dylai'r ymgyrch harneisio profiadau cadarnhaol y rhai sydd wedi mabwysiadu a dylai fod ganddi strategaeth glir ar waith i ddenu mabwysiadwyr sy'n cyfateb i broffil plant sy'n disgwyl i gael eu mabwysiadu, yn arbennig y grwpiau hynny o blant sy'n fwy anodd eu lleoli.

90. Soniodd rhai rhieni wrthym am yr angen am wybodaeth gliriach ynglŷn â sut mae gwneud cais i fabwysiadu ac am 'fap ffordd' o gamau'r broses fabwysiadu. Roedd y farn hon yn cael ei rhannu gan Gomisiynydd Plant Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Dywedodd Dr Julie Selwyn wrthym:

---

[57] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td1a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012
[58] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td2a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan BAAF Cymru, 9 Mai 2012

> "I would like to see the national agency establish an approved set of literature that anybody who wants to be an adopter can read in advance. At the moment, people just go on Google, and there is a host of very unsuitable things out there on the internet. It would be nice to have a set of approved articles, books and DVDs, which adopters could read and watch, even before they went in for assessment. I think that that would be really helpful for adopters." [59]

**Ymateb cychwynnol i ymholiadau am fabwysiadu**

91. Dywedodd BAAF Cymru wrthym fod rhaid i strategaeth recriwtio wedi'i thargedu gael ei chefnogi gydag ymateb cynnar cadarn ac ymatebol i ymholiadau gan ddarpar fabwysiadwyr. [60]

92. Un o brif bryderon y Pwyllgor yw bod llawer o rieni sy'n mabwysiadu wedi dweud wrthym yn gyson iddynt gael ymateb gwael i'w hymholiadau cychwynnol ynglŷn â mabwysiadu. O ystyried y diffyg rhieni i fabwysiadu, rydym yn hynod bryderus bod hyn yn peri i bobl beidio â dyfalbarhau â'u diddordeb mewn mabwysiadu. Teimlai llawer o'r mabwysiadwyr y siaradom ni â nhw fod ymateb eu hawdurdod lleol i'w hymholiad cychwynnol wedi eu digalonni. Dywedwyd wrth sawl un y byddai rhaid iddynt ddisgwyl sawl mis am apwyntiad cychwynnol neu nad oeddent y math o fabwysiadwyr a oedd yn cael eu hystyried ar y pryd (oherwydd oedran neu fod mabwysiadu blaenorol yn golygu na allent fabwysiadu grwpiau o frodyr/chwiorydd). Roedd sawl mabwysiadwr wedi rhoi cynnig ar asiantaethau mabwysiadu cyfagos neu annibynnol ac wedi cael croeso llawer mwy calonogol ac ymweliad cychwynnol neu wahoddiad i nosweithiau gwybodaeth ar unwaith bron. Ar ben arall y raddfa siaradodd mabwysiadwyr am wasanaethau nad oeddent yn cyrraedd eu disgwyliadau, gydag oedi hir, yn enwedig o ran ymateb i ymholiadau cychwynnol. Oherwydd sialensiau amlwg cysylltu â phobl mewn sefyllfa o'r fath, ni chawsom dystiolaeth gan unrhyw un a fu â diddordeb mewn mabwysiadu ond na aeth â'r peth ymhellach oherwydd yr ymateb cychwynnol i'w ymholiad.

93. Dywedodd rhieni wrthym:

> "Two years after our assessment we received a call to say that it had been found in the bottom of a cupboard"

---

[59] Cofnod y Trafodion [para 396], 13 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[60] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td2a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan BAAF Cymru, 9 Mai 2012

> "Our applications forms got lost"
>
> "We felt that we were being told to join the end of the queue"

94. Roedd tystiolaeth gan Adoption UK Cymru yn adlewyrchu'r dystiolaeth a glywyd yn uniongyrchol gan lawer o rieni sy'n mabwysiadu, gan ddweud:

> "Many people interested in adoption do not make it through the "front doors" of the adoption agency, because they are turned away without a proper assessment of their potential as prospective adoptive parents, or they are not treated with the necessary welcome and support. Thus many children in care lose the potential to be adopted because prospective parents are lost to the system."[61]

95. Dywedodd BAAF Cymru wrthym fod yr ymateb i ymholiadau cychwynnol yn:

> "[. . ] varied and inconsistent, and we need to get to a stage where, if you are enquiring about adoption, it is not a postcode lottery, dependent on where you live."[62]

96. Yn eu tystiolaeth lafar, dywedodd CLlLC/ADSS wrthym:

> "[…] there is a varying response across Wales, and that is something that we recognise needs to improve greatly."[63]

97. Soniasant hefyd am y sialensiau y maent yn eu hwynebu o ran cyfleu gwybodaeth yn briodol i rai darpar fabwysiadwyr ynglŷn â realiti mabwysiadu gan ddweud:

> "To give an example, we get enquiries from people wanting to adopt new-born babies or a child under the age of six months who is female and blond, so the conversations may well be about the reality that it is rare for us to have children under the age of 12 months to be placed for adoption, so they may want to reflect upon what it is they want to achieve from the

---

[61] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Paper CYP(4)-13-12(td1d), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012

[62] Cofnod y Trafodion [para 154], 9 Mai 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

[63] Cofnod y Trafodion [para 158], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

adoption process. Sometimes people can feel put off by that and can go to other local authorities."[64]

98. Pan holwyd Cyngor Sir Caerdydd ynglŷn ag ymateb cychwynnol gwael, dywedodd:

"That is a position that we cannot defend today, and it is something that we are acknowledging and will be seeking to address."[65]

99. Argymhellodd Cymdeithas Plant Dewi Sant y dylai Llinell Gymorth Fabwysiadu Genedlaethol i Ymholiadau Mabwysiadu gael ei sefydlu. Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y dylid sefydlu cronfa ddata gyfun o ymholiadau a allai gyfeirio pobl ymlaen at asiantaethau lleol yn ôl yr angen.

100. Mae'r Pwyllgor o'r farn mai Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol fyddai yn y sefyllfa orau i ymdrin â'r pryderon a glywsom ynglŷn ag ymateb cychwynnol gwael. Dylai'r Gwasanaeth gynnig gwefan a gwasanaeth ffôn ar ffurf llinell gymorth genedlaethol. Dylid gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys rhieni sy'n mabwysiadu, i fanylu ar yr hyn y gellid ei ddarparu orau drwy linell gymorth genedlaethol o'r fath. Dylai fod yn ofynnol i bob asiantaeth fabwysiadu wneud darpar fabwysiadwyr yn ymwybodol o wasanaeth ffôn y llinell gymorth.

101. Er na ddylai unrhyw asiantaeth fabwysiadu gael ei hannog i beidio â denu darpar fabwysiadwyr yn uniongyrchol, cred y Pwyllgor fod ymateb cychwynnol gan un pwynt cyswllt yn debygol o ddarparu ymateb mwy safonol, arbenigol a chydlynol. Rydym yn cytuno na ddylid atal pobl rhag cysylltu yn y lle cyntaf â'u hawdurdod lleol neu asiantaeth fabwysiadu wirfoddol os mai dyna'u dymuniad penodol, ond mae angen wedyn iddynt gael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i gael eu hasesu a'u cymeradwyo.

**Argymhelliad 3: Ymholiadau cychwynnol am fabwysiadu**
**Dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol fod yn bwynt cyswllt cyntaf i ymholiadau am fabwysiadu yn cynnwys bod â chyfrifoldeb am ddarparu (neu gomisiynu) llinell gymorth ar y ffôn a gwefan gyda'r nod o ddenu darpar fabwysiadwyr.**

[64] Cofnod y Trafodion [para 158], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[65] Cofnod y Trafodion [para 104], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**Gweithredu Manwl: Ymgyrchoedd hysbysebu**

- **dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu ymgyrch hysbysebu genedlaethol. Dylai hynny gynnwys strategaethau penodol i dargedu mabwysiadwyr ar gyfer 'plant anodd eu lleoli'.**
- **dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ddatblygu (ar y cyd â mabwysiadwyr profiadol) ystod o ddeunyddiau addas wedi'u hanelu at ddarpar fabwysiadwyr, i gefnogi ymgyrch hysbysebu genedlaethol.**

## Asesu a chymeradwyo rhieni sy'n mabwysiadu

102. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn tystiolaeth am y broses o asesu a chymeradwyo darpar rieni. Roedd argraff mewn mannau bod oedi cyn i awdurdodau lleol gychwyn a chwblhau'r broses a rhai argraffiadau bod y broses yn gignoeth ac yn gofyn am ormod o fanylion.

### *Amser*

103. O ran yr amser a gymer i asesu a chymeradwyo mabwysiadwyr, roedd barn gref gan rai teuluoedd fod y broses yn symud ar gyflymder digon priodol, tra oedd llawer o deuluoedd eraill yn teimlo ei bod yn rhwystredig o araf. Weithiau roedd rhaid i'r rhai a oedd yn mabwysiadu am yr ail neu'r trydydd tro ailadrodd asesiadau hir, lle byddai adolygiadau byrrach, a mwy o ffocws iddynt, wedi bod yn ddigon efallai ac wedi arwain at leoli plant yn gyflymach. Roedd hyn yn achosi rhwystredigaeth arbennig wrth fabwysiadu brawd neu chwaer i'w plant presennol ac mai mabwysiadu oedd y bwriad cyn geni.

104. Dywedodd llawer y gellid cyflymu'r asesiadau a bod oedi cyn cychwyn asesiadau. Câi rhai asesiadau eu cynnal yn araf iawn. Yn aml roedd rhaid disgwyl yn hir am baneli cymeradwyo a pharu, a hynny'n destun rhwystredigaeth. Roedd rhai wedi disgwyl blynyddoedd o'u hymholiad cyntaf tan i'w plentyn ddod i fyw gyda nhw. I nifer fach o deuluoedd cafodd y broses ei chwblhau o fewn misoedd.

105. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig mae NWAS yn dweud ei bod yn anodd:

> "...identify which aspects of the assessment process could be eliminated without increasing an element of risk. The adoption

process has been adapted and improved over many years in line with recommendations from inquiries."[66]

106. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r farn hon yng nghyswllt mabwysiadwyr tro cyntaf.

107. Dywedodd Adoption UK Cymru wrthym:

> "Consideration should be given to separating out the training and preparation of adopters from their assessment. Currently prospective adopters may feel inhibited about asking questions about adopted children and their needs, and their ability to meet those needs as they are at the same time trying to convince social workers that they can do it successfully. The idea of an initial information gathering period which is adopter led and supported by social workers and others, with information and training sessions being offered by a range of organisations, followed by a more intensive assessment period led by social workers has much to recommend it."[67]

108. Credwn fod rhinweddau mewn edrych yn fanwl ar broses asesu dau gam. Nodwn fod ymgynghoriad ar y gweill yn Lloegr ar hyn o bryd ynglŷn â phroses fyrrach dau gam. Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn cynigion a wnaed gan weithgor Lloegr ar fabwysiadu: yn cynnwys cam cychwynnol ar gyfer gwiriadau rhagarweiniol ac e-ddysgu ynghyd ag ail gam i asesu addasrwydd a chysylltu. Nodwn hefyd i grŵp Lloegr argymell gweithdrefnau trywydd cyflym i'r rhai sy'n mabwysiadu am yr eildro ac wrth droi gofalwyr maeth tymor hir yn fabwysiadwyr ac mae'n ymgynghori ynglŷn â'r gweithdrefnau hyn hefyd.

### *Asesu*

109. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig dywedodd BAAF Cymru wrthym:

> "The primary objective and outcome of preparation and assessment is to identify and predict the capacity of adults to become effective adoptive parents to the specific child or children placed. Identifying and predicting parenting is extremely challenging - most people only know what parenting

---

[66] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, Ymateb i'r Ymgynghoriad AD04
[67] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td1b), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012

is like when they actually experience it. In adoption there are specific issues about approving adopters that depends on the accurate prediction of what is a future event. The preparation, assessment and approval process are often generic when the child's needs and circumstances are very specific."[68]

110. Roedd y rhan fwyaf o sylwadau gan fabwysiadwyr am y berthynas unigol â'r gweithiwr cymdeithasol, cyflymder y broses a'r mathau o feysydd a gwmpaswyd. Dywedodd llawer o fabwysiadwyr fod yr asesu'n hynod bersonol a heriol ond fod hyn yn angenrheidiol oherwydd anghenion y plant sy'n disgwyl i gael eu mabwysiadu.

"We did find the assessment process hard and long at the time but now after the fact we understand the need."

111. Roedd llawer o unigolion wedi datblygu perthynas dda â gweithwyr cymdeithasol ac roedd cadw'r un staff am gyfnod o gymorth arbennig.

"Our social worker has supported us through each step and has explained clearly and honestly what each step will entail and mean to the whole process."

Roedd nifer fach o rieni sy'n mabwysiadu yn teimlo bod rhai cwestiynau'n amherthnasol neu'n ansensitif ac yn llawer rhy gignoeth. Teimlai un teulu iddynt gael eu 'croesholi' am eu ffydd Gristnogol, mewn ffordd na fyddai efallai wedi digwydd i bobl o grefyddau eraill neu anffyddwyr, er gwaethaf eu parodrwydd i ganiatáu i unrhyw blentyn a gâi ei fabwysiadu ddilyn ei ffydd ei hun neu ddim ffydd o gwbl. Teimlai teulu arall fod yr ymarferiadau a'r traethodau y gofynnwyd iddynt eu hysgrifennu yn gwneud iddynt deimlo fel 'plant ysgol'.

"The bureaucracy for all of the different forums can lead to social workers' attention being diverted from the central core of their work which is the child's best interests."

112. Crybwyllodd sawl mabwysiadwr y teimlad o fod yn ddi-rym yn y broses. Teimlent fod angen iddynt fod yn oddefol iawn ac yn hynod ufudd er mwyn cael eu hargymell i fabwysiadu a chael eu paru â phlant.

---

[68] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td2a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan BAAF UK Cymru, 9 Mai 2012

113. Awgryma CLlLC/ADSS y gallai'r asesu gael ei wneud ar lefel ranbarthol o fewn y model arfaethedig ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Awgryma Cymdeithas Plant Dewi Sant y gallai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol arfaethedig wneud y gwaith o gymeradwyo mabwysiadwyr ei hun.

114. Gofynnodd Julie Morgan AC i'r Dirprwy Weinidog a fyddai gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol unrhyw gyfleusterau i wneud asesiadau ynteu a fyddai'r awdurdodau lleol yn dal yn gyfrifol am y swyddogaeth hon. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

> "This is a developing process. We are developing these frameworks and we are considering this at the moment. I would value the view of the committee on that process and the way in which you see that aspect developing." [69]

**Argymhelliad 4: Asesu**
**Dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol fod yn gyfrifol am asesu darpar fabwysiadwyr, gan gyflawni hyn drwy staff rhanbarthol sy'n cael eu cyflogi gan y Gwasanaeth.**

### Hyfforddi a Pharatoi

115. Mae'r Pwyllgor wedi cymryd tystiolaeth sy'n tanlinellu pwysigrwydd hyfforddi a pharatoi mabwysiadwyr yn amserol ac yn briodol.

#### *Cynnwys*

116. Yn y dystiolaeth a gafwyd gan rieni sy'n mabwysiadu, tystia llawer i brofiad cadarnhaol y sesiynau gwybodaeth a hyfforddiant grŵp, yn enwedig pan gaent eu harwain gan fabwysiadwyr. Yn wir, roedd hyfforddiant, cymorth a chyngor gan fabwysiadwyr eraill yn un o'r themâu cryfaf yn y dystiolaeth. Cyfeiriwyd at nifer fach o sesiynau hyfforddiant paratoi gorfodol, hynod ddiflas, 'marwolaeth drwy PowerPoint'.

---

[69] Cofnod y Trafodion [para 63], 19 Gorffennaf 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

### *Amseru*

117. Dywedodd rhai mabwysiadwyr wrthym iddynt ddisgwyl misoedd am hyfforddiant gan fod yr awdurdod lleol yn cynnal y sesiynau ar sail gylchol. Dywedodd BAAF Cymru wrthym:

> "Lack of resourcing or insufficient numbers to make training cost effective for the agency can result in preparation classes only being offered sporadically throughout the year. This has been recognised as a potential contributor to delays in the assessment and approval process and some Adoption agencies have now entered into joint partnership arrangements to offer more preparation classes throughout the year (examples of this working in practice can be found in Caerphilly, RCT, Newport and Bridgend)." [70]

118. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Dinas Casnewydd ill dau wrthym eu bod yn cydweithio ag awdurdodau lleol eraill yn eu hardaloedd, gan ddweud bod yr amser aros i ymgeiswyr wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad.

119. O ran amseriad hyfforddiant i fabwysiadwyr, awgrymodd Dr Alan Rushton fod mewnbwn yn fwy perthnasol o bosibl ar ôl i'r plentyn gael ei leoli:

> "The preparation of adopters can often be lengthy and not always be relevant for a particular family. Scarce resources are better deployed when the child has been placed and where the parent/ child interactions can be observed and assessed." [71]

120. Mae'r Pwyllgor yn gweld datblygu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol fel cyfle i sicrhau bod yr hyfforddiant i fabwysiadwyr a'r gwaith o'u paratoi yn digwydd yr un mor brydlon ac effeithiol ym mhobman.

**Argymhelliad 5: Hyfforddi a pharatoi mabwysiadwyr**
**Y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ddylai fod yn gyfrifol am hyfforddi a pharatoi mabwysiadwyr, a dylai'r gwaith hwn gael ei wneud gan staff rhanbarthol sy'n cael eu cyflogi gan y**

---

[70] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td2a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan BAAF UK Cymru, 9 Mai 2012

[71] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-17-12(td3), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Dr Alan Rushton, 13 Mehefin 2012

**Gwasanaeth. Mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys rhieni sydd wedi mabwysiadu, dylai'r Gwasanaeth adolygu'r trefniadau presennol ar draws Cymru i ddatblhygu rhaglen gynhwysfawr sy'n adeiladu ar arferion da cyfredol.**

**Profiadau mabwysiadwyr o gefndiroedd amrywiol**

121. Mae'r teuluoedd a ddarparodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn byw mewn amrywiaeth eang o amgylchiadau teuluol. Mae'r ymchwiliad wedi clywed gan fabwysiadwyr sengl, mabwysiadwyr plant hŷn, mabwysiadwyr trawshiliol, mabwysiadwyr Cymraeg eu hiaith a chyplau o'r un rhyw. Mae'r profiadau amrywiol hyn yn ychwanegu at y dystiolaeth a ddarparwyd gan y teuluoedd hynny sy'n cynrychioli'r mwyafrif o fabwysiadwyr yng Nghymru a'r mwyafrif o'n cyfranogwyr: cyplau heterorywiol, gwyn Cymreig neu Brydeinig sy'n mabwysiadu plant cyn-ysgol o gefndiroedd ethnig gwyn.

122. Dywedodd Cymdeithas Plant Dewi Sant wrthym:

> "Aside from the childless population, there are reconstituted families, families with older children, same-sex couples and single carers, who form a huge pool of potential adopters, and we need to welcome and bring them into the system. It will help recruitment if we treat these families with the dignity and respect that they deserve rather than putting obstacles in their way." [72]

123. Teimlai mabwysiadwr 'sengl' fod y system yn gogwyddo tua at fabwysiadwyr sy'n gyplau o ran yr asesiadau, cymorth ariannol, hyfforddiant a grwpiau cymorth mabwysiadu. Crybwyllodd dau fabwysiadwr sengl y straen ariannol sylweddol y buont dani a theimlent y dylai fod gwell darpariaeth o ran lwfansau mabwysiadau tymor hir i'r rhai y mae angen iddynt gwtogi eu horiau gwaith am eu bod yn mabwysiadu. Ceir rhagor o fanylion am y mater hwn yn ddiweddarach yn yr adroddiad. Teimlai unigolyn sengl arall iddi hi gael ei thrin yn dda fel mabwysiadwr sengl.

124. Awgrymwyd hyn gan Adoption UK Cymru:

> "Single adopters, gay adopters, those on low incomes, disabled adopters, do not always get the service they deserve. In some cases, white adopters are turned away from agencies that

[72] Cofnod y Trafodion [para 11], 23 Mai 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

predominantly place BME children, whereas these adopters may be a valuable resource for children waiting elsewhere in the country."[73]

125. Dywedodd hefyd wrthym:

"We believe that the creation of a national service would make it easier to ensure that assessment of adopters is a more equitable experience focused only on the ability to be good parents to children who have experienced early trauma and neglect."[74]

**Rôl y panel mabwysiadu**

126. Cawsom beth tystiolaeth benodol iawn am rôl y panel mabwysiadu. Er enghraifft, dywedodd NWAS wrthym:

"If the number of children currently being placed for adoption continues to increase, it is likely that Adoption Panels will need to meet more frequently to combat the risk of delay."[75]

127. Dywedwyd hefyd wrthym gan Barnardo's Cymru a Chymdeithas Plant Dewi Sant nad strwythur a dull gweithredu'r paneli oedd y prif rwystrau yn y broses asesu. O ystyried bod rôl y panel mabwysiadu ar fin newid ac y gallai datblygu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol arfaethedig effeithio ymhellach hefyd ar hyn, mae'r Pwyllgor o'r farn bod hwn yn faes y gallai fod angen i eraill graffu ymhellach arno yn y dyfodol.

---

[73] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td1d), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012
[74] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td1b), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012
[75] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig cyn yr ymgynghoriad gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

## 7. Y broses baru a'r trosglwyddo

### Paru

128. Mae proses baru effeithiol yn hollbwysig i hybu'r potensial am ganlyniadau llwyddiannus i blant i'r eithaf. Ar hyn o bryd mae tri cham fel arfer i'r broses baru. Bydd yr awdurdod lleol yn ceisio canfod mabwysiadwyr addas yn yr ardal leol; wedyn bydd yn gofyn i'r consortia chwilio ar sail fwy rhanbarthol; ac yna bydd yn defnyddio adnoddau cenedlaethol megis Cofrestr Fabwysiadu Genedlaethol Cymru a Lloegr.

129. O'r rhieni a roddodd dystiolaeth, roedd eu profiadau o'r paru yn amrywiol iawn. Cafodd y rhan fwyaf eu paru o fewn wythnosau neu fisoedd iddynt gael eu cymeradwyo fel mabwysiadwyr. Teimlai nifer fach fod pwysau wedi cael eu rhoi arnynt i ystyried plant na fyddent efallai wedi'u hystyried cynt, ond i'r rhan fwyaf roedd y broses yn dderbyniol neu'n dda. Dywedodd sawl un fod cael gweithiwr cymdeithasol yr oedd ganddynt berthynas ragorol, llawn ymddiriedaeth, ag ef yn gwneud y profiad yn un cadarnhaol iawn. Er enghraifft, dywedodd un teulu wrthym:

> "Sometimes finding a match feels like a series of lucky coincidences or the result of good personal relationships between social workers."

Ond roedd profiad rhiant arall a oedd am fabwysiadu yn llai positif:

> "From our experience it seemed that the children and parents were far from being at the centre of the process. There was too much emphasis on the system, paperwork, box-ticking and little emphasis on the true needs of the child and parents."

130. Teimlai sawl un fod y paru'n cael ei wneud yn rhy lleol (i gadw mabwysiadwyr y mae'n costio llawer i'w hasesu ar gyfer plant lleol) ac y gellid cael gwell paru pe câi hynny'i wneud ar sail Cymru gyfan neu hyd yn oed y Deyrnas Unedig gyfan. Roedd paru lleol yn achosi problem o ran cyflymder, ond hefyd o ran amddiffyn eu plant rhag eu teuluoedd biolegol neu leoedd a allai ysgogi atgofion drwg. Cymysg oedd y profiadau o ddiwrnodau paru consortiwm. Roedd llawer yn teimlo bod y profiad o sefyll mewn ciw i edrych ar broffiliau o blant a chofrestru diddordeb braidd yn atgas, ond roedd o leiaf dri o'r

teuluoedd a roddodd dystiolaeth wedi cael eu paru'n llwyddiannus â phlant drwy'r broses hon.

131. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig inni, dywedodd Adoption UK Cymru wrthym:

> "Currently too many local adoption agencies regard the adopters they have trained and assessed as an asset which they understandably wish to keep for children from their own authority. Although the recent development of consortia of agencies was supposed to help this situation, there is still very much an attitude of holding onto adopters even when there may well be children waiting in the system who could be matched successfully. This adds to the delay for children and sometimes means that children are placed too close to their birth families or that the best possible match is not achieved."[76]

132. Awgrymai peth tystiolaeth y dylai darpar fabwysiadwyr gael eu rhoi ar gofrestr genedlaethol ar unwaith fel eu bod ar gael i gael eu cysylltu â phlentyn.

133. Yng nghyd-destun y diffyg cysylltiad rhwng y meini prawf paru sy'n cael eu ffafrio gan y darpar rieni ac angen yr asiantaeth fabwysiadu y maent wedi gwneud cais iddi ar y pryd, cawsom dystiolaeth o blaid cydweithio agosach rhwng consortia o safbwynt paru a thystiolaeth hefyd o blaid sefydlu cofrestr genedlaethol i Gymru gan Barnardo's, BAAF Cymru a Rhondda Cynon Taf. Argymhellodd Cymdeithas Plant Dewi Sant y dylid sefydlu cofrestr genedlaethol i Gymru i gynnwys pob plentyn â gorchymyn lleoli yr aseswyd mai mabwysiadu yw ei angen a phob darpar fabwysiadwr sy'n aros am leoliad. Awgrymai tystiolaeth y byddai cofrestr i Gymru'n benodol yn ehangu'r gronfa o ddarpar fabwysiadwyr sydd ar gael i'w paru â phlant sy'n disgwyl i gael eu mabwysiadu

> "An early flagging system would help direct the adoptive parent recruitment strategy of the 'national adoption body."[77]

---

[76] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig cyn yr ymgynghoriad gan Adoption UK Cymru
[77] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-15-12(td1a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gymdeithas Plant Dewi Sant, 23 Mai 2012

134. Yn ei thystiolaeth lafar, ymatebodd y Dirprwy Weinidog i gwestiwn pa un a fyddai'r awdurdodau lleol i gyd yn cael eu cyfarwyddo i gronni eu darpar fabwysiadwyr drwy gytuno mai dyna fyddai'r nod. [78]

### *Paru plant anodd eu lleoli*

135. Tynnodd sawl asiantaeth gyfieithu sylw at y sialensiau ychwanegol y maent yn eu hwynebu o ran dod o hyd i ddarpar fabwysiadwyr i grwpiau penodol o blant megis grwpiau o frodyr a chwiorydd; plant ag anghenion cymhleth; plant hŷn, a phlant duon a phlant o leiafrifoedd ethnig. Mae Barnardo's Cymru a Chymdeithas Plant Dewi Sant yn arbenigo mewn lleoli rhai o'r grwpiau anodd eu cyrraedd.

136. Cyfeiriodd BASW Cymru at yr angen i recriwtio mabwysiadwyr penodol i gymryd plant hŷn, grwpiau o frodyr a chwiorydd a phlant â phroblemau ac anableddau[79]. Dywedodd BAAF Cymru:

> "In addressing the current shortage of adopters, the challenge is to recruit a greater number of adopters generally and more adopters specifically skilled, able and interested in caring for children who wait the longest. For example large sibling groups, disabled children or those with medical uncertainty, older children and children from black and ethnic minority groups." [80]

137. Fel y dywedwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn awyddus i weld rhagor o ddatblygu ar strategaethau recriwtio arbenigol sy'n targedu mabwysiadwyr sy'n barod i fabwysiadu 'grwpiau mwy anodd eu lleoli' er mwyn lleihau'r oedi cyn paru'r plant hyn.

### *Grwpiau o frodyr a chwiorydd*

138. Dywedodd Dr Heather Ottaway, darlithydd mewn gwaith cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd, wrthym:

> "Most children requiring adoptive placements today will have siblings [approximately 80%]. However, many children grow up in their adoptive placements separated from some or all of

[78] Cofnod y Trafodion [para 61], 19 Gorffennaf 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[79] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-18-12(td2), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan BASW Cymru, 21 Mehefin 2012
[80] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td2a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan BAAF Cymru, 9 Mai 2012

their brothers and sisters [research studies indicate a figure between 50-75%]."[81]

139. O ran y sialensiau o ganfod mabwysiadwyr sy'n barod i ystyried mabwysiadu grŵp o dri neu fwy o frodyr a chwiorydd, awgrymodd y gallai codi proffil y berthynas rhwng brodyr a chwiorydd arwain at ddenu rhagor o ddarpar fabwysiadwyr i fabwysiadu grwpiau o'r fath, a hefyd ddatblygu barn gweithwyr proffesiynol am y berthynas rhwng brodyr a chwiorydd a'i harwyddocâd posibl[82]. Dywedodd NWAS wrthym y dylai cyllid ar wahân gael ei ddarparu i gefnogi mabwysiadwyr a wnaiff fabwysiadu unrhyw grŵp o frodyr a chwiorydd[83]. Dywedodd Dr Julie Selwyn wrthym fod angen ceisio cyrraedd darpar fabwysiadwyr nad ydynt yn y mowld traddodiadol. Soniodd hefyd wrthym am bwysigrwydd help ariannol ac ymarferol i gynorthwyo mabwysiadwyr sy'n fodlon ystyried mabwysiadu grŵp o frodyr a chwiorydd, gan ddweud:

> "Taking a large sibling group needs a very detailed and careful support plan, and should not underestimate the amount of practical support that people may need. We found that there was some reluctance, for example, to put in home helps or offer that kind of practical support right at the beginning of the placement, when adopters needed to focus on relationship building rather than washing and ironing [...]."[84]

140. Dywedodd Voices From Care wrthym:

> "Voices From Care would like to see every effort being made to place siblings together in adoptive families, although we recognise that this may mean searching for particular families and involve a significant amount of support going into those families. We would like to see all children being given equal value. Whilst we recognise that planning for siblings groups can be very complex, we feel that situations which value the future prospects for younger children over those of older siblings is not respectful of all children's rights or consistent

[81] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Dr Heather Ottaway, Ymateb i'r Ymgynghoriad AD14
[82] Ibid
[83] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-19-12(td1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, 21 Mehefin 2012
[84] Cofnod y Trafodion [para 305], 13 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

with the principle of non discrimination under Article 2 and of maximum survival and development under Article 6 of the UNCRC."[85]

141. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod yr Adran Addysg yn Lloegr wedi galw am dystiolaeth ynglŷn â lleoli plant mewn grwpiau o frodyr a chwiorydd i gael eu mabwysiadu, a hynny'n cynnwys ymgynghori ynghylch a ddylai'r gyfraith fod yn fwy penodol y dylai'r achos o blaid lleoli brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd gael ei ystyried ar sail haeddiant yr achos yn ymwneud â phob plentyn unigol.

142. Fel y dywedwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol arfaethedig ddatblygu ymgyrch hysbysebu genedlaethol sy'n cynnwys strategaethau penodol i dargedu mabwysiadwyr ar gyfer plant anodd eu lleoli, yn cynnwys grwpiau o frodyr a chwiorydd.

143. Mae'r Pwyllgor yn credu hefyd fod angen adolygu'r materion penodol yn ymwneud â chynyddu ymhellach y gronfa o fabwysiadwyr i 'blant anodd eu lleoli', er enghraifft o safbwynt cymorth ymarferol. Dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol arfaethedig weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i arwain yr adolygiad hwn.

**Argymhelliad 6: Paru**
**Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Cofrestr Fabwysiadu Genedlaethol i Gymru a dylai pob darpar fabwysiadwr a phlentyn sydd â chynllun mabwysiadu gael eu rhoi ar y gofrestr ar unwaith fel eu bod ar gael i'w paru.**

**Gweithredu Manwl**

- **dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol weithio gyda rhanddeiliaid allweddol gyda golwg ar gynyddu'r gronfa o ddarpar fabwysiadwyr i 'blant anodd eu lleoli', gan ystyried sut y gellid gwella'r recriwtio ac edrych hefyd ar faterion yn ymwneud â chymorth ymarferol ychwanegol y gellid ei ddarparu.**

[85] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Voices From Care, Ymateb i'r Ymgynghoriad AD20

**Asesu a sgrinio cyn mabwysiadu**

144. Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth ynglŷn â rôl dyngedfennol asesu a sgrinio plant cyn eu mabwysiadu fel sail i benderfyniadau i'w paru ac fel sail i gynlluniau cymorth mabwysiadu. Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chlywed ynglŷn â pherthnasedd asesiadau cyn mabwysiadu i gymorth ôl-fabwysiadu a CAMHS wedi'i nodi'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

145. Yng nghyd-destun paru, dywedodd nifer fach o deuluoedd, yn cynnwys y rhai sydd wedi wynebu anawsterau difrifol, wrthym eu bod yn teimlo nad oeddent wedi cael digon o wybodaeth am brofiadau cynnar eu plant ac anawsterau iechyd, dysgu neu ymddygiad posibl ar y cam paru. Roedd rhai adroddiadau'n hen ac roedd anghenion plant wedi newid cyn iddynt gael eu paru. Teimlai tri theulu fod brodyr a chwiorydd wedi cael eu lleoli gyda'i gilydd yn amhriodol.

146. Dywedodd peth tystiolaeth wrthym fel y mae'r canlyniadau mabwysiadu yn cael eu gwella drwy asesiad cywir o allu ac anghenion datblygiadol plentyn[86] ar y cychwyn. Dywedodd Dr Julie Selwyn wrthym fod llawer o asesiadau'n cynnwys tudalennau o ddisgrifiadau heb fawr o ddadansoddi'r hyn y mae hynny'n ei olygu i'r plentyn[87]. Dywedodd Dr Alan Rushton wrthym am bwysigrwydd dulliau sgrinio sydd wedi'u dyfeisio'n well i ymgymryd ag asesiadau cyn mabwysiadu mwy cynhwysfawr a mwy dibynadwy, a hynny ar sail reolaidd.

> "In adoption work, comprehensive and reliable assessments of children's current functioning are needed. [...] Standardised measures, observations, file searches and interviews should be used to create the most reliable history of the children's key pre-adoption experiences and their strengths and vulnerabilities." [88]

147. Dywedodd Dr Mike Davies, seicotherapydd ymgynghorol annibynnol, wrthym ei fod yn bryderus iawn ynglŷn â'r diffyg sgrinio digonol o botensial plentyn i wynebu problemau ymlyniad difrifol cyn penderfynu ar ei leoliad i'r dyfodol, yn enwedig felly gan mai profiad cyfyngedig sydd gan y rhan fwyaf o fabwysiadwyr o ofalu am blant, ac

---

[86] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td1d), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012
[87] Cofnod y Trafodion [para 291], 13 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[88] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-17-12(td3), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Dr Alan Rushton, 13 Mehefin 2012

yn arbennig am blant â phroblemau ymlyniad difrifol. Dywedodd Dr Davies wrthym hefyd y gallai gwell asesiadau cyn mabwysiadu adnabod nifer fach iawn o blant sydd ag anawsterau sylweddol, lle na fydd mabwysiadu yn lleoliad addas efallai, o leiaf yn y lle cyntaf. Nid oedd Cymdeithas Plant Dewi Sant yn cytuno â'r farn hon. [89]

148. Awgrymodd SEWAS nad yw'r Adroddiadau Asesu Plant i'w Mabwysiadu (CARA) yn ddogfen sydd o gymorth i weithwyr cymdeithasol o ran proffilio anghenion plentyn. Dywed:

> "[…] there is a risk they focus on the legal matters at the expense of those things that would be important to the child in the future." [90]

149. Mae'r Pwyllgor yn glir ei bod yn dyngedfennol bod asesiadau cyn mabwysiadu yn cael eu cyflawni gan staff profiadol sydd â'r sgiliau priodol. O fuddsoddi amser staff i lunio'r asesiad mwyaf cywir o allu ac anghenion datblygiadol y plentyn, mae potensial i ddarparu llwyfan ar gyfer lleoliad mwy sefydlog. Dylai arwain at rieni mabwysiadu sydd wedi cael mwy o wybodaeth, cymorth ôl-fabwysiadu sy'n cael ei dargedu a'i gynllunio'n well, a llai o risg y tarfir ar y trefniant mabwysiadu yn y dyfodol a hynny'n dyngedfennol yn golygu gwell profiad i blant.

*Darparu gwybodaeth i rieni sy'n mabwysiadu*

150. Mae'r dystiolaeth a glywsom gan rieni sy'n mabwysiadu ac eraill yn tanlinellu pwysigrwydd cefnogi rhieni i roi ystyr i oblygiadau tymor hir y wybodaeth sydd ar gael am blentyn ac i sicrhau eu bod yn deall y goblygiadau hynny'n glir. Er enghraifft, dylai gwybodaeth gael ei darparu iddynt mewn asesiadau cyn mabwysiadu, adroddiadau gan arbenigwyr ac adroddiadau sefydlogrwydd. Dywedodd Dr Alan Rushton wrthym fod angen gwneud llawer rhagor i gyfleu gwybodaeth am effeithiau tebygol camdriniaeth ddifrifol, ac i egluro pa sialensiau a allai ddeillio o hyn. [91]

151. Dywedodd BAAF Cymru wrthym:

---

[89] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-15-12(td1b), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol gan Gymdeithas Plant Dewi Sant, 23 Mai 2012
[90] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru, Ymateb i'r Ymgynghoriad AD19
[91] Cofnod y Trafodion [para 28], 13 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

"Being provided at the outset with full information about the child and his/her background – Disruption meetings have highlighted concerns about insufficient information being made available at time of placement. Such information could have assisted with understanding how to manage behaviour and proactively seek help before situations escalate to a crisis point." [92]

152. Clywsom hefyd am nifer fach o achosion lle'r oedd rhieni a oedd yn mabwysiadu yn teimlo bod gwybodaeth am blentyn wedi cael ei chadw oddi wrthynt. Mewn rhai achosion, teimlid bod hyn yn fwriadol, ond mewn eraill teimlid mai canlyniad diffyg trefn ar ran yr awdurodd lleoli ydoedd. Dywedodd BAAF Cymru wrthym nad oedd yn teimlo bod cadw gwybodaeth oddi wrth rieni yn rhywbeth cyffredin. [93]

153. Mae'r Pwyllgor yn derbyn y dystiolaeth a glywsom fod asesiadau cyn asesu a gyflawnir gan weithlu medrus a phrofiadol yn dyngedfennol fel gwell sail i'r broses baru ac o ran gosod y seiliau ar gyfer cynllun gwerth chweil i gynnal y trefniant mabwysiadu. Rydym yn cytuno hefyd fod y buddsoddiad amser i egluro canlyniadau posibl asesiad y plentyn o ran ei anghenion cymorth i'r dyfodol yn gallu lleihau'r risg y bydd rhieni sy'n mabwysiadu yn wynebu sialensiau annisgwyl yn y dyfodol.

154. Teimla'r Pwyllgor fod hwn yn fater allweddol y mae angen rhoi sylw iddo a'i fod yn un nad yw'n dod o fewn cylch gwaith y cynigion cyffredinol ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Mae ein hargymhellion penodol ni ynglŷn â datbygu'r gweithlu, sy'n cynnwys materion yn ymwneud ag asesu cyn mabwysiadu, yn cael eu nodi'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**Cymorth paratoi i blant**

155. Cawsom dystiolaeth am rôl allweddol cymorth paratoi er sicrhau trosglwyddo esmwyth a llwyddiannus i blant. Ymysg y ffactorau galluogi a nodwyd mae hyblygrwydd a'r gallu i ymaddasu yn ystod y cyfnod trosglwyddo; plant y gwnaed gwaith cofnodi profiadau bywyd ystyrlon gyda nhw; a gofalwyr maeth sydd â'r sgiliau i gefnogi'r trosglwyddo. Mae ein barn am bwysigrwydd gwaith cofnodi profiadau bywyd wedi'i nodi ym mharagraff 167 o'r adroddiad hwn.

---

[92] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td2a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan BAAF Cymru, 9 Mai 2012
[93] Cofnod y Trafodion [para 220], 9 Mai 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

*Rôl gofalwyr maeth*

156. O'r rheini mabwysiadu sydd wedi darparu tystiolaeth, dywedodd rhai nad oedd eu plant wedi cael digon o gymorth a pharatoi wrth adael gofawyr maeth a chael eu symud at deulu newydd.

> "He certainly grieved for his foster carers over a long period."

157. Dywedodd rhai fod gofalwyr maeth profiadol wedi darparu cymorth amhrisiadwy i'r plentyn a'r mabwysiadwyr. Roedd hyn yn aml yn dal i barhau.

> "Our children's foster parent really helped us to become competent parents. We were very nervous."

158. Ar y llaw arall, clywyd am ychydig o achosion lle'r oedd gofalwyr maeth wedi gwneud y symud yn anodd.

159. Dywedodd rhieni wrthym fod gofalwyr maeth yn chwarae rôl hollbwysig yn helpu plant i symud yn llwyddiannus at deuluoedd mabwysiadu, ond y gall y broses hon fod yn anodd iawn iddynt a bod angen cymorth arnynt wrth wneud hynny. Ategwyd y farn hon gan lawer o asiantaethau. Er enghraifft dywedodd NWAS wrthym y dylai gofalwyr maeth gael hyfforddiant gorfodol ar sut i symud plant ymlaen i gael eu mabwysiadu. [94]

160. Dywedodd SEWAS wrthym ei bod yn dda o beth cael gweithwyr cyswllt i helpu teuluoedd maeth i gefnogi trosglwyddiad y plentyn a, lle mae hynny'n briodol, i gefnogi'r mabwysiadwyr ar ddechrau'r lleoliad newydd:

> "Foster carers are key people in this process and need support and training to undertake the complex role of supporting a child to make an attachment then supporting them to transfer that to adopters, and continuing that link where appropriate." [95]

161. Dywedodd SEWAS wrthym hefyd am bwysigrwydd hyfforiddant i ofalwyr maeth:

---

[94] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-19-12(td1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, 21 Mehefin 2012

[95] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru, Ymateb i'r Ymgynghoriad AD19

> "[…] to enable them to recognise and deal with the feelings they will experience in letting go of a child in their care as well as the need to ensure positive endings."[96]

162. Adleisiwyd y farn hon gan BAAF Cymru:

> "This is critical that foster carers understand their roles and responsibilities in this process and are able to give permission to the child to move on to their new adoptive family."[97]

**Gweithredu Manwl: Cymorth paratoi i blant**

- **dylai gofalwyr maeth gael hyfforddiant gorfodol ar 'gynorthwyo plant i symud ymlaen i gael eu mabwysiadu'. Dylai unrhyw anghenion penodol gan ofalwyr maeth am gymorth gael eu nodi pan wneir y penderfyniad i leoli'r plentyn gyda nhw ar leoliad mabwysiadol. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda CLlLC i sicrhau bod hyn yn digwydd.**

[96] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru, Ymateb i'r Ymgynghoriad AD19
[97] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td2a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan BAAF Cymru, 9 Mai 2012

# 8. Hawliau plant yn y broses fabwysiadu

163. Yn sail i'r holl faterion y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn mae barn y Pwyllgor y dylai hawliau plant fod yn ganolog wrth ddarparu gwasanaethau mabwysiadu. Fodd bynnag, mae rhai agweddau o'r dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor ynglŷn â gwasanaethau mabwysiadu yn haeddu sylw penodol yng nghyd-destun hawliau plant.

164. Gwasanaeth i blant yw mabwysiadu. Er bod y Pwyllgor yn glir bod angen i wasanaethau mabwysiadu weithio tuag at greu teuluoedd cynaliadwy, rydym hefyd yn glir y dylid, ym mhob agwedd o'r broses fabwysiadu, rhoi'r prif sylw i fudd pennaf y plentyn yn hytrach na budd y teulu biolegol neu ddarpar fabwysiadwyr.

165. Daeth rhai o'r dyletswyddau sy'n deillio o *Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)*[98] i rym ym mis Mai 2012. Bydd y Mesur yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith o ddatblygu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn cael ei seilio'n gadarn iawn ar y Confensiwn.

166. Mae sawl erthygl yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n berthnasol i fabwysiadu yn cynnwys erthygl 21 sydd, o'i grynhoi, yn datgan mai'r hyn y dylid ei ystyried yn bennaf pan gaiff plant eu mabwysiadu yw'r hyn sydd orau iddyn nhw.

167. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrthym:

> "We need to look at the adoption system through a children's rights lens and use the UNCRC as a framework to underpin all decision-making processes in all areas where children and young people's best interests should be placed as the paramount consideration." [99]

168. Adleisiwyd y farn hon gan BASW Cymru, Barnardo's Cymru, Voices From Care ac NSPCC Cymru. Dywedodd BAAF Cymru wrthym:

> "It is also important to stress that adoption is a service for children. Whilst this may sound obvious, it can be tempting to

---

[98] Rhoddwyd cymeradwyaeth frenhinol ym mis Mai 2011

[99] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-18-12(td1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gomisiynydd Plant Cymru, 21 Mehefin 2012

regard the ‘customer’ in the adoption process as the prospective adopter. That is to misunderstand adoption in the most fundamental way. The placement of a child in a loving family is what drives the adoption system. It is our responsibility to ensure that the system that delivers this is effective and efficient with the resources it needs to secure that objective. Prospective adopters deserve nothing less than a first class service that is efficient, welcoming, fair and responsive but we must never lose our focus on the child.”[100]

169. Rhoddodd y bobl ifanc a oedd wedi’u mabwysiadu y cwrddon ni â nhw bwyslais ar eu hunaniaeth bersonol, yn cynnwys yr awydd i adnabod brodyr a chwiorydd, cael portread mwy cadarnhaol o deuluoedd biolegol, roeddent am i ysgolion a chyfoedion fod yn fwy sensitif, a rôl bwysig grwpiau cymorth mabwysiadu. Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi’r amser a roddodd y grŵp pobl ifanc a nododd fod pobl ifanc, fel y byddid yn disgwyl, yn rhoi pwyslais gwahanol iawn ar y materion a oedd yn bwysig iddyn nhw. Rhaid cael trefn ar waith i sicrhau bod profiadau a barn pobl ifanc yn dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu’r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Cyfeirir at y materion penodol a godwyd gan bobl ifanc drwy’r adroddiad hwn ar ei hyd.

**Argymhelliad 7: Cyfranogiad plant a phobl ifanc**
**Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu trefn er mwyn i bobl ifanc sydd wedi’u mabwysiadu gymryd rhan yn y broses barhaus o ddatblygu a chyflenwi’r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.**

## Gwrando ar blant a phobl ifanc yn ystod y broses fabwysiadu

170. Mae’r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth gan amryw o asiantaethau yn mynegi pryderon ynglŷn â diffyg llais ystyrlon i blant a phobl ifanc yn yr agweddau o’r broses fabwysiadu y mae awdurdodau lleol yn gyfrifol amdanynt[101]. Ochr yn ochr â hyn, dywedwyd wrthym fod diffyg gwybodaeth briodol i oedran ar gyfer plant sy’n rhan o’r broses fabwysiadu.

---

[100] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td2a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan BAAF Cymru, 9 Mai 2012
[101] Mae materion yn ymwneud â chyfranogiad plant yn y gyfundrefn cyfiawnder teulu y tu hwnt i gylch gwaith yr ymchwiliad hwn; roeddent yn rhan o gylch gwaith yr Adolygiad Cyfiawnder Teulu.

171. Dywedodd BAAF Cymru wrthym fod angen gwelliannau i sicrhau bod y gweithlu'n cael ei hyfforddi i wrando ar ddymuniadau a theimladau plant. Dywedodd wrthym:

> "At times it is a difficult equation for practitioners to balance the 'wishes and feelings' of the child and the paramouncy of the child's welfare. This often involves a judgement of the 'situation of least detriment' rather than a clearly defined decision. It is also of concern to practitioners, panels and others that at times there is an apparent lack of direct work with the child in order to inform and elicit those wishes and feelings." [102]

172. Cyfeiriodd Comisiynydd Plant Cymru at arolygiadau o wasanaethau mabwysiadu a gynhelir gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) [103]. Dywedodd wrthym, er bod yr adroddiadau'n nodi rhai meysydd o ymarfer da o ran rhoi llais i blant a phobl ifanc a'u cynnwys gydol y broses fabwysiadu, fod yr adroddiadau ym marn y Comisiynydd Plant yn awgrymu bod diffygion sylweddol o hyd ymysg llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru[104]. Â ymlaen i ddweud bod AGGCC hefyd yn tynnu sylw'n rheolaidd at y diffyg llais i blant a phobl ifanc mewn cyfarfodydd cynllunio sefydlogrwydd[105], a dywedodd:

> "I urge the Committee to seek assurances that improvements are made locally to ensure that the rights of children and young people to having their voice heard and engagement in decision-making processes are in place. Part of this learning process could include developing and promoting feedback from children and young people about their experiences of going through the adoption process." [106]

---

[102] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td2a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan BAAF Cymru, 9 Mai 2012

[103] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-18-12(td1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gomisiynydd Plant Cymru, 21 Mehefin 2012

[104] Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, mae swyddfa'r Comisiynydd wedi egluro iddi geisio caniatâd gan Brif Arolygydd AGGCC i gyfeirio at eu harolygiadau mabwysiadu fel y'u dyfynnwyd yn ei dystiolaeth ysgrifenedig o gofio bod adroddiadau AGGCC yn datgan na cheir eu hatgynhyrchu yn rhannol nac mewn unrhyw ffurf dalfyredig ac mai dim ond gyda chaniatâd ysgrifenedig Gweinidogion Cymru y ceir dyfynnu ohonynt.

[105] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-18-12(td1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gomisiynydd Plant Cymru, 21 Mehefin 2012

[106] Ibid

173. Dywedodd wrthym hefyd fod rhaid i blant a phobl ifanc allu cael gafael ar wybodaeth briodol i'w hoedran i'w helpu i ddeall y broses fabwysiadu a'r hyn y gallant ei ddisgwyl a dywed:

> "This is a matter of particular concern and I would encourage the Committee to seek assurances that the recommendations I note above are taken forward and that where good practice exists locally, that this is shared and built upon."[107]

**Gweithredu Manwl: Gwrando ar 'ddymuniadau a theimladau' plant a phobl ifanc**

- **dylai cylch gwaith y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol gynnwys hyrwyddo'r wybodaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc a datblygu deunyddiau hygyrch i gau unrhyw fylchau o ran yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd. Dylai fod gan y Gwasanaeth rôl hefyd yn hyrwyddo hyfforddiant ac ymarfer da o ran gwrando ar ddymuniadau a theimladau plant yn ystod y broses fabwysiadu.**

### Hawl plant i wybodaeth: darparu gwybodaeth am brofiadau bywyd ac ansawdd y wybodaeth

174. Clywsom dystiolaeth gan rieni a sefydliadau fod cofnodi profiadau bywyd yn rhywbeth a wneir yn anghyson iawn ar draws Cymru. Mae'r Pwyllgor yn hynod bryderus o glywed tystiolaeth o'r fath, o ystyried gwerth y gwaith hwn i les plant a phobl ifanc yn y tymor hwy.

175. Dywedodd un teulu a oedd wedi mabwysiadu iddynt wynebu llawer o anawsterau wrth geisio cael gwybodaeth am hanes bywyd eu plentyn (plentyn hŷn a fabwysiadwyd). Crybwyllodd sawl teulu nad oeddent wedi cael unrhyw lyfrau profiadau bywyd neu fod y llyfrau profiadau bywyd yn amhriodol (er enghraifft, yn cynnwys cyfeiriad y teulu biolegol). Disgrifodd un teulu'r gwaith o gofnodi profiadau bywyd fel y 'flaenoriaeth isaf' i awdurdodau lleol.

176. Roedd y dystiolaeth gan asiantaethau yn awgrymu nad yw'r flaenoriaeth ofynnol yn cael ei rhoi i gofnodi profiadau bywyd, yn bennaf oherwydd diffyg capasiti mewn timau gwaith cymdeithasol.

---

[107] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-18-12(td1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gomisiynydd Plant Cymru, 21 Mehefin 2012

Dywedodd sawl awdurdod lleol wrthym y dylid cyflogi gweithwyr arbenigol cofnodi profiadau bywyd i ymgymryd â'r gwaith hwn.

177. Dywedodd BAAF Cymru wrthym:

> "Life journey work can sometimes be viewed as an additional service instead of an integral part of the work with a child which needs to be undertaken by workers experienced and trained specifically for this work." [108]

178. Dywedodd Cyngor Dinas Casnewydd hyn wrthym:

> "Greater clarity in terms of the legislation, regulation and guidance is needed around the issue of a] direct work with the child and b] life story/journey work [information to the child about adoption]. This would also need to underpin the validity of this work within childcare teams so that it carries 'weight' and its value is seen in terms of not the immediacy [i. e. a life story book availability] but in terms of the important messages given to the child that creates self worth and value, hears their voice [...]"[109]

179. Tynnodd Adoption UK Cymru sylw at berygl penodol sy'n gallu codi yn y cyswllt hwn:

> "Adopted children are increasingly making contact with their birth families through social networking and so it is increasingly important that they have access to high quality and sensitively delivered life story work." [110]

180. Dywedwyd wrthym fod y diffyg gwaith safonol i gofnodi profiadau bywyd yn gallu achosi anawsterau i blant yn yr ystafell ddosbarth. Cyfeirir at hyn yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

181. Dywedodd Cymdeithas Plant Dewi Sant wrthym y dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol arfaethedig fod â chyfrifoldeb i sicrhau bod plant yn barod ar gyfer mabwysiadu a bod llyfrau

---

[108] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td2a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan BAAF Cymru, 9 Mai 2012

[109] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-19-12(td2), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mehefin 2012

[110] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td1b), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012

profiadau bywyd wedi cael eu creu iddynt. Yn dibynnu ar hyd a lled cylch gwaith y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol arfaethedig yn y dyfodol, cred y Pwyllgor y dylid ymchwilio i ddichonoldeb yr opsiwn hwn.

**Argymhelliad 8: Gwaith profiadau bywyd**
**Dylai gwaith safonol yn cofnodi profiadau bywyd gael ei gynnig i bob plentyn sy'n cael ei fabwysiadu. Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol, fel mater o frys, adolygu faint o fylchau sydd yn y ddarpariaeth a sefydlu strategaeth i sicrhau bod pob plentyn yn gallu manteisio ar wybodaeth safonol.**

### Hawl i gysylltu â theuluoedd biolegol yn cynnwys rhieni biolegol a brodyr a chwiorydd

182. Mae'r cyfrifoldeb am wneud argymhellion ynglŷn â chyswllt yn rhan o gylch gwaith y gwasanaethau cymdeithasol a'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS). Y llys sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol. Er nad yw'r Pwyllgor wedi ceisio craffu ar y materion manwl a chymhleth yn ymwneud â chyswllt, rydym am gryhoi'n fyr y dystiolaeth a gyflwynwyd inni.

183. Codwyd mater cyswllt â'r rhieni biolegol yn syndod o anaml er bod cyswllt â brodyr a chwiorydd wedi codi o beth tystiolaeth. Roedd ychydig o enghreifftiau o deuluoedd a oedd yn cynnal cyswllt ar ôl mabwysiadu â theuluoedd biolegol. Dywedodd sawl mabwysiadwr yr hoffent hyrwyddo mwy o gyswllt â brodyr a chwiorydd mewn teuluoedd mabwysiadu eraill. Roedd y teulu biolegol yn fater pwysicach i'r bobl ifanc a roddodd dystiolaeth nag i rieni sydd wedi mabwysiadu. Credai sawl un y dylai fod mwy o bwyslais ar gadw brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd neu mewn cysylltiad â'i gilydd a bod gormod o bortreadu rhieni biolegol mewn ffordd negyddol. Mynegodd un person ifanc y farn y dylai fod hawl i weld cofnodion mabwysiadu yn 16 oed yn hytrach na 18. Dywedodd un rhiant a oedd wedi mabwysiadu fod yr ymweliadau cyswllt gan y teulu biolegol wedi peidio oherwydd anawsterau i'r teulu biolegol deithio'r pellter o'r De i'r cartref mabwysiadu yn y Gogledd.

184. Dywedodd y rhieni yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o dystiolaeth Rhondda Cynon Taf wrthym:

"[…] contact arrangements post adoption do not always support children's rights, particularly if arrangements for contact breakdown."[111]

185. Dywedodd NWAS wrthym:

"It is our experience that delay in placing some children is not caused by the shortage of adopters but rather their unwillingness to facilitate and manage direct contact with birth parents."[112]

186. Nid oedd y rhieni mabwysiadu a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn cadarnhau'r farn olaf hon yn ôl a welwyd. Soniodd sawl un ohonynt wrthym am bwysigrwydd cynnal cyswllt â theuluoedd biolegol.

187. Dywedodd Dr Heather Ottaway wrthym:

"The adopted child's identity encompasses a dual connection – with their adoptive family and their birth family. Prospective adopters and existing adoptive parents need to be supported and encouraged to understand this."[113]

188. Tynnodd tystiolaeth gan SEWAS, Voices From Care a Dr Heather Ottaway sylw'n benodol at bwysigrwydd cyswllt â brodyr a chwiorydd. Dywedwyd wrthym fod cyswllt uniongyrchol â brodyr a chwiorydd biolegol ar ôl mabwysiadu yn beth prin a bod cyswllt â brodyr a chwiorydd yn fwy tebygol o fod ar ffurf cyswllt bocs llythyrau[114]. Dywedwyd wrthym hefyd ei bod yn anodd i blant sydd wedi'u mabwysiadu gael gwybodaeth gywir am frodyr a chwiorydd eraill oherwydd y ffordd y caiff gwybodaeth (neu na chaiff) ei chofnodi ar eu ffeiliau mabwysiadu. Hoffai Voices From Care weld rhagdybiaeth fod cyswllt yn cael ei gynnal rhwng brodyr a chwiorydd lle mae mabwysiadu'n cael ei ystyried ar gyfer un neu bob un o'r brodyr a'r chwiorydd. Dywedodd wrthym ei fod yn clywed yn aml gan frodyr a

[111] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Ymateb i'r Ymgynghoriad AD10
[112] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig cyn yr ymgynghoriad gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru
[113] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Dr Heather Ottoway, Ymateb i'r Ymgynghoriad AD14
[114] Mae bocs llythyrau yn fath cyffredin o gyswllt anuniongyrchol lle caiff cardiau a llythyrau eu cyfnewid rhwng y plentyn a'r perthnasau biolegol bob hyn a hyn, fel y cytunwyd, yn ystod y flwyddyn.

chwiorydd hŷn am y trawma o golli cysylltiad â brodyr a chwiorydd iau sy'n cael eu mabwysiadu.[115]

189. Yn Lloegr, mae'r Adran Addysg wedi galw am dystiolaeth yng nghyswllt newid y rheoliadau a'r canllawiau ynglŷn â threfniadau cyswllt i blant sydd wedi cael eu mabwysiadu.

190. Er nad yw'r Pwyllgor wedi cael digon o dystiolaeth i wneud argymhellion penodol am rôl gweithwyr cymdeithasol a CAFCASS yng nghyswllt argymhellion ynglŷn â chyswllt, rydym yn glir y dylai staff gael hyfforddiant safonol i'w cynorthwyo yn y dasg o ddarganfod dymuniadau a theimladau plant ynglŷn â'r mater cymhleth hwn.

191. O ran y dystiolaeth a gawsom ynglŷn â phwysigrwydd cyswllt gyda theuluoedd biolegol a brodyr a chwiorydd, lle penderfynwyd bod hynny er budd pennaf y plentyn, mae'r Pwyllgor yn cytuno y gallai fod angen cymorth ymarferol cadarnhach mewn rhai achosion. Deuwn i'r casgliad hefyd fod achos o blaid monitro trefniadau cyswllt yn gadarnach i sicrhau bod ymdrechion priodol yn cael eu gwneud i roi cymorth gydag unrhyw anawsterau ymarferol a allai godi. Rydym yn derbyn y dystiolaeth a glywsom y gallai fod angen cymorth ar rieni sy'n mabwysiadu o ran materion yn ymwneud â chyswllt.

**Gweithredu Manwl: Cyswllt**

- **lle penderfynwyd bod cyswllt â'i deulu biolegol er budd pennaf y plentyn, dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi ffyrdd o wella'r cymorth ymarferol er mwyn cynnal trefniadau o'r fath a'u monitro'n well.**

[115] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Voices From Care, Ymateb i'r Ymgynghoriad AD20

## 9. Cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd: cymorth ar ôl mabwysiadu

192. Bydd angen cymorth tymor hir ar lawer o deuluoedd sy'n mabwysiadu, ar ffurf ymateb amlasiantaethol cydlynol. Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth helaeth, gan rieni sydd wedi mabwysiadu a chan sefydliadau, sy'n amlygu bylchau a phroblemau penodol yn y ddarpariaeth cymorth ar ôl mabwysiadu. Er bod y Pwyllgor yn derbyn nad oes angen nac eisiau cymorth ar bob teulu a bod rhaid parchu preifatrwydd teuluoedd, y dystiolaeth a glywsom yn gryf iawn yw bod llawer o deuluoedd wedi ei chael yn anodd cael yr help y mae ei angen arnynt.

193. Roedd cymorth mabwysiadu yn thema gref iawn ar draws y dystiolaeth gan fabwysiadwyr. Yn ôl eu tystiolaeth, mae'n ymddangos ei bod yn anodd gael gwasanaethau cymorth ar ôl mabwysiadu a'u bod yn cael eu darparu'n anghyson, ac nad yw'r trothwyon hawl yn glir. Roedd nifer fach wedi cael cymorth a darpariaeth dda ar ôl mabwysiadu yn cynnwys, mewn achosion prin iawn, becynnau cymorth helaeth. Stori fwy cyffredin oedd yr angen i frwydro am wasanaethau ôl-fabwysiadu, yn enwedig gwasanaethau therapiwtig costus. Dywedodd un teulu wrthym eu bod wedi ymlâdd ac wedi diffygio ond nad oeddent serch hynny wedi gallu cael y cymorth yr oeddent am ei gael.

194. Mae'r diffyg cymorth ôl-fabwysiadu yn destun pryder neilltuol i Gomisiynydd Plant Cymru. Dywedodd Barnardo's Cymru wrthym fod cymorth ôl-fabwysiadu yn cael ei bennu drwy 'loteri cod post'. Dywedwyd wrthym hefyd nad yw rhai aelodau staff mewn amryw o sefydliadau yn gwybod digon am y maes mabwysiadu ac nad ydynt yn deall materion cysylltiol megis anhwylderau ymlyniad.

195. Dywedodd Adoption UK Cymru wrthym y gellir cael yr effaith fwyaf ar y canlyniadau i blant sy'n cael eu mabwysiadu drwy ganolbwyntio ar y cymorth a gynigir i deuluoedd sy'n mabwysiadu. Dywedodd y dylai dealltwriaeth glir o'r sialensiau a'r anghenion cymorth tebygol gael ei nodi yng nghynllun cymorth mabwysiadu cychwynnol y plentyn. Mae'r dystiolaeth y cyfeiriwyd ati'n gynharach yn yr adroddiad hwn ynglŷn â'r angen am staff medrus i gynnal asesiadau cyn mabwysiadu yn ganolog er mwyn nodi'r anghenion cymorth posibl. Dywedodd tystiolaeth gan amryw o dystion wrthym

nad yw llawer o'r anawsterau yn ymwneud ag ymlyniad neu anabledd yn dod yn amlwg efallai am sawl blwyddyn ar ôl mabwysiadu a'i bod yn anodd cael cymorth yn ddiweddarach.

196. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i asesu anghenion cymorth teuluoedd sy'n mabwysiadu ar unrhyw adeg ar ôl lleoli tan ben-blwydd y plentyn yn 18 oed. Mae awdurdod lleol sy'n lleoli yn gyfrifol am gyllido gwasanaethau cymorth mabwysiadu (ar wahân i gymorth ariannol) am dair blynedd ar ôl dyddiad y gorchymyn mabwysiadu. Mae gan awdurdod lleol gyfrifoldeb hefyd am gymorth ariannol parhaus y penderfynodd ei ddarparu cyn gwneud y gorchymyn mabwysiadu.

197. Tynnodd sawl rhiant sylw at broblem benodol cael gafael ar gymorth ôl-fabwysiadu pan gaiff plant eu mabwysiadu yn ardal awdurdod lleol arall. Mae'r cyfrifoldeb am gymorth ôl-fabwysiadu yn symud oddi wrth awdurdod cychwynnol y plentyn i'r awdurdod lleol cyfredol ar ôl tair blynedd. Cafodd sawl teulu anhawster i sicrhau cymorth yn y cyfnod hwn.

198. Yn *Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005* ceir darpariaeth ar i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau mabwysiadu a chyfeirir at ddarparu gwasanaethau addysg ac iechyd. Yn ymarferol, mae'r dystiolaeth a glywsom gan rieni ac asiantaethau yn cynnwys CLlLC, Cyngor Sir Wrecsam, BASW Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, SEWAS, a BAAF Cymru yn awgrymu bod rhagdybiaeth mai cyfrifoldeb adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn unig yw cymorth ôl-fabwysiadu yn hytrach na'i fod yn gyfrifoldeb a rennir ag asiantaethau eraill, yn benodol gwasanaethau iechyd ac addysg. Dywedodd Adoption UK Cymru wrthym fod angen rhoi dyletswyddau neu gyfarwyddiadau statudol ar wasanaethau addysg ac iechyd ynglŷn â darparu cymorth mabwysiadu. Dywedodd Bwrdd Iechyd Cwm Taf wrthym y dylai fod gwasanaeth a dargedir ar gyfer plant sy'n cael eu hystyried ar gyfer mabwysiadu ac a fabwysiadir wedyn o safbwynt iechyd. Dywedodd wrthym hefyd y byddai nyrs arbenigol/ymwelydd iechyd mewn sefyllfa ddelfrydol i ymgymryd â'r rôl hon, gan fod ganddynt ran yn y broses baru, yn datblygu'r cynllun mabwysiadu ac yn cysylltu'n agos â'r gwasanaethau mabwysiadu.

**Cyllid ar gyfer cymorth mabwysiadu**

199. Canfu arolwg gan Adoption UK Cymru hefyd nad oes gan bron hanner yr asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru gyllideb bwrpasol ar gyfer cymorth mabwysiadu. Roedd yr ymateb ar y cyd gan Wasanaeth Mabwysiadu Gorllewin Cymru a Chyngor Sir Ceredigion[116] hefyd yn amlygu problemau cyllido a dywedodd NWAS wrthym fod diffyg cyllid ar gyfer cymorth ôl-fabwysiadu yn golygu bod awdurdodau lleol yn ei chael yn anodd denu'r rhieni mabwysiadu iawn i gyd-fynd â'r plant sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth a darparu lefel briodol o gymorth ariannol. Dywedodd un teulu wrthym fod ganddo gysylltiadau da a oedd yn parhau â gweithwyr cymdeithasol ond nad oedd fawr o gyllid ar gyfer cymorth:

> "there is an open door to the local authority [but] there is no money behind it."

200. Cyfeiriodd Dr Alan Rushton at y cysyniad o Basport Mabwysiadu a awgrymwyd gan Weithgor Arbenigwyr Lloegr ar Fabwysiadu:

> The Adoption Passport idea, as discussed in An Action Plan for Adoption: Tackling delay (DfE) is worth pursuing as a way of guaranteeing a measure of post adoption support - but depends on the provision of services of sufficient capacity, expertise and availability to meet any entitlement. Resources should be allocated on the basis of need not as a fixed amount."[117]

201. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i archwilio beth yw posibiliadau a chyfyngiadau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol arfaethedig o ran cyflawni'r newid sylweddol y mae ei angen ym maes cymorth ôl-fabwysiadu. Awgrymodd Dr Alan Rushton y byddai grŵp cynghori proffesiynol canolog gydag arbenigedd diweddar yn datblygu ymarfer ac ym maes tystiolaeth ymchwil yn fuddiol, ac y gallai ymarferwyr lleol droi at y grŵp. Awgrymodd y gallai grŵp o'r fath o bosibl gynnig gwasanaeth ymgynghori a goruchwylio i achosion anodd.

---

[116] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-19-12(td2), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mehefin 2012

[117] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-17-12(td3), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Dr Alan Rushton, 13 Mehefin 2012

202. Awgrymodd NWAS mai un opsiwn posibl oedd i lywodraeth ganolog:

> "[...]provide financial support to adoptive families on placement to enable them to purchase the support they need and ensure stability of the placement."[118]

203. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod llawer o deuluoedd yn ceisio cymorth ôl-fabwysiadu pan fydd pethau'n argyfwng yn hytrach na cheisio cymorth safonol parhaus. Dylid cymryd yn ganiataol bod y cymorth yn barhaus oherwydd realiti mabwysiadu, nid fel arwydd o fethiant teuluoedd sy'n mabwysiadu. Gallai'r gwaith i ddatblygu'r syniad o Basport Mabwysiadu yn Lloegr fod yn berthnasol yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol arfaethedig yn cynnig y posibilrwydd o cydleoli timau cymorth ôl-fabwysiadu amlasiantaethol ar sail ranbarthol ac y dylid ymchwilio i hyn.

204. Cred y Pwyllgor fod achos o blaid pennu mai'r awdurdod lleol sy'n lleoli sy'n parhau'n gyfrifol am gymorth ôl-fabwysiadu nes i'r plentyn gael ei ben-blwydd yn 18 oed. Er mwyn gwneud hyn yn weithredol, byddai angen newid y ddeddfwriaeth yn Lloegr yn ogystal â Chymru er mwyn creu trefniadau trawsffiniol dichonadwy. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dwyn hyn i sylw Ymchwiliad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Ddeddfwriaeth Fabwysiadu sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 9: Cymorth ôl-fabwysiadu**
**Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Llywodraeth y DU, ymchwilio i ddichonoldeb pennu bod yr awdurdod sy'n lleoli yn parhau'n gyfrifol am ddarparu cymorth ôl-fabwysiadu nes bydd y plentyn yn cael ei ben-blwydd yn 18 oed.**

### Ymestyn dyletswyddau i blant a fabwysiadir

#### *Hawl i gael anghenion wedi'u diwallu yn ogystal â hawl i asesiad*

205. Un mater penodol a godwyd yn y dystiolaeth yw bod *Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005* yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu angen teuluoedd sy'n mabwysiadu am gymorth ond nad oes dyletswydd gyfatebol i

[118] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig cyn yr ymgynghoriad gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

ddarparu'r gwasanaethau. Galwodd Adoption UK Cymru am hawl statudol i wasanaethau cymorth mabwysiadu, nid dim ond asesiad. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

> "[…]this type of support is a targeted duty; dependant on an 'assessment of need' as is the case in the provision of all services provided by local authorities, as opposed to an adoptive family having an 'entitlement' to a particular service or level of service which could be enforced in the courts by way of judicial review." [119]

206. Nodwn dystiolaeth y Dirprwy Weinidog; fodd bynnag, nid yw hyn yn rhwystro'r Pwyllgor rhag argymell bod Llywodraeth Cymru'n ymestyn yr hawl gyfredol i asesiad o'r angen am wasanaethau cymorth mabwysiadu i hawl sy'n cynnwys darparu'r gwasanaethau cymorth hynny.

***Hawliau tebyg i blant sy'n derbyn gofal***

207. Clywsom amrywiaeth tystiolaeth o blaid creu dyletswydd statudol i ddarparu cymorth ôl-fabwysiadu, tebyg i'r dyletswyddau tuag at blant sy'n derbyn gofal. Nododd llawer o rieni fod gan blant a fabwysiadir anghenion tebyg i blant sy'n derbyn gofal ac y dylent gael yr un mynediad at wasanaethau gydol eu plentyndod. Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni mabwysiadu a roddodd dystiolaeth yn cefnogi'r farn y dylai fod gan blant a fabwysiadir hawliau tebyg i blant sy'n derbyn gofal. Ochr yn ochr â hyn roedd cymorth i rieni sy'n mabwysiadu, er enghraifft cyfeiriodd rhai mabwysiadwyr at ddiffyg mynediad at ofal seibiant a gwasanaethau cymorth eraill sy'n cael eu cynnig fel mater o drefn i ofalwyr maeth.

208. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrthym:

> "Adopted children often face the same challenges as looked after children but we know that those children who can benefit from a successful adoption have much better outcomes than their peers who remain in the care system[120]. There is a case for the specific duties applied towards looked after children in

[119] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-25-12(td1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, 26 Medi 2012

[120] Biehal, N et al (2011) *Belonging and Permanence: Outcomes in long-term foster care and adoption*, Adoption Research Initiative, Summary 1, www.adoptionresearchinitiative.org.uk

> relation to wellbeing, mental health and additional educational needs through Guidance and Regulations issued in 2007[121] to be extended to adopted children."

209. Cefnogai Barnardo's Cymru a'r rhieni a roddodd dystiolaeth fel rhan o ymateb Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf y farn hon.

210. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

> "We would need to be clear regarding appropriate support an adopted child may require, compared to the needs of a looked after child who does not have the same parental support as other children. […] Adopted children have the stability of their adoptive parents and may not want to continue to be considered as looked after children. What we need to understand is the level and types of support and services need, and that access to these services is as good as it can be."[122]

211. Ar sail y dystiolaeth helaeth gan rieni a hefyd y gefnogaeth o du sefydliadau allweddol, cred y Pwyllgor fod tystiolaeth glir o blaid rhoi gwell mynediad at CAMHS i blant sydd wedi'u mabwysiadu ynghyd â mwy o hawl i gymorth yn y gyfundrefn addysg. Y dystiolaeth o blaid rhoi'r un hawliau i blant sydd wedi'u mabwysiadu ag i blant sy'n derbyn gofal yw sail argymhellion 11, 12 a 13 sy'n ymddangos yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 10: Hawl i wasanaethau cymorth mabwysiadu**
**Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r rheoliadau cyfredol i greu hawl statudol i wasanaethau cymorth mabwysiadu, nad yw wedi'i chyfyngu i hawl i asesiad o'r angen.**

### Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gwasanaethau therapiwtig

212. Un o'r negesuon cliriaf yn deillio o'r dystiolaeth oedd tystiolaeth bod problem fawr o ran cyrchu at CAMHS a gwasanaethau therapiwtig i blant wedi'u mabwysiadu, yn cynnwys problemau'n deillio o

---

121 *Towards a Stable Life and a Brighter Future: Guidance and Regulations on measures to strengthen arrangements for the placement, health, education and well-being of looked after children and young people.*

122 Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-25-12(td1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, 26 Medi 2012

anhwylderau ymlyniad. Dywedodd llawer o rieni wrthym eu bod wedi gorfod brwydro am wasanaethau, yn enwedig gwasanaethau therapiwtig costus.

> "We have continued requesting therapy for (daughter), but are now giving up as we are fighting an uphill battle we won't win."

213. Teimlai sawl rhiant nad oes cydnabyddiaeth ddigonol i anhwylderau/anawsterau ymlyniad a dim digon o ddarpariaeth ar eu cyfer. Nodwyd bod therapi a ddarperir gan ddarparwyr annibynnol a thrydydd sector yn amhrisiadwy ond yn aml yn ddrud ac yn anodd cyrchu ato. Dywedodd un teulu wrthym:

> "We feel passionately that this model of intensive input from a team of professionals supporting the adopters and adoptee in the run-up to and early months following placement could be of much wider value. . . and that all those involved in the adoption journey deserve the amount of care, skilled support and attention which we have been lucky enough to receive."

214. Nododd sawl mabwysiadwr fod costau therapi ôl-fabwysiadu yn llawer is na gofal maeth neu breswyl tymor hir, gan awgrymu y gallai darparu therapi arbed adnoddau yn ogystal â gwella'r canlyniadau i blant. Roedd nifer fach iawn o deuluoedd wedi bod drwy frwydrau hir gydag awdurdodau lleol i sicrhau cymorth therapiwtig neu becynnau gofal i blant ag anableddau difrifol. Yn drist iawn, roedd hyn wedi golygu achosion cyfreithiol weithiau. Dywedai tystiolaeth gan rieni ac asiantaethau fel ei gilydd wrthym fod plant a'u teuluoedd, oherwydd y methiant i ddarparu CAMHS a gwasanaethau therapwitig amserol a pherthnasol, yn cael eu rhoi dan straen sylweddol gyda'r risg y byddai'r trefniant mabwysiadu yn methu.

### *Materion ymlyniad*

215. Yn ystod yr ymchwiliad rydym wedi clywed llawer am arwyddocâd materion ymlyniad a datblygiad niwrofiolegol babanod yn y blynyddoedd cynnar. Dywedwyd wrthym fod y profiadau negyddol cynnar a'r trawma y mae rhai plant a fabwysiadir wedi'u profi yn gallu arwain at anawsterau emosiynol, ymddygiadol, addysgol neu ddatblygiadol sylweddol. Mae'r anawsterau hyn yn eu tro yn effeithio ar allu'r plentyn i ffurfio ymlyniad cryf â'i rieni newydd.

216. Dywedodd Dr Mike Davies wrthym ei fod yn flaenorol wedi gweithio i CAMHS am fwy na phum mlynedd ar hugain fel clinigwr a rheolwr gweithredol a'i fod bellach yn gweithio gydag asiantaethau mabwysiadu ac yn uniongyrchol gyda theuluoedd ar ôl iddynt fabwysiadu. Dywedodd wrthym fod problemau ymlyniad yn amrywio o fân bryder a phroblemau ymwahanu i ymddygiad heriol difrifol, yn ogystal â diffyg empathi a phyliau difrifol o dymer. Dywedodd wrthym:

> "The more severely affected child has significant innate developmental damage (disorganised attachment) as a result of severe early life adversity. Arguably some of these children, as a result of neuro-developmental problems - originating in the first 2 years of life, will have additional significant difficulties with their psychological functioning in the long term. Of concern here is the child's potential to develop empathy and be relational in the usual way. Some of these children can appear superficially to be fine but in the context of their day to day care the experience for their families is very different; the worst of attachment behaviour is manifested in their routine care and with whom the child is closest."[123]

217. Dywedodd Dr Alan Rushton wrthym fod ymlyniad yn dyngedfennol bwysig. Fodd bynnag, tynnodd sylw hefyd at faterion datblygiadol eraill a allai fod yn berthnasol i blant wedi'u mabwysiadu a rhybuddiodd rhag priodoli popeth i anawsterau ymlyniad.

### *Problemau'n manteisio ar CAMHS*

218. Yn ogystal â'r dystiolaeth gan rieni, tynnodd NWAS, Barnardo's Cymru, Gwasnaethau Mabwysiadu Gorllewin Cymru a Chyngor Sir Ceredigion (ymateb ar y cyd), ymysg eraill, sylw at y sialensiau a wynebir gan blant a fabwysiadir a'u teuluoedd o ran cael cymorth gan CAMHS arbenigol.

219. Dywedodd Dr Alan Rushton wrthym:

> "[…] adoptive families whose children have multiple problems often fail to receive prompt, relevant, effective services. Struggling adopters can have a sense of failure when

[123] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-15-12(td3), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Dr Mike Davies, 23 Mai 2012

approaching services and often report feeling blamed for the child's problems or treated like a dysfunctional family."[124]

220. Dywedodd Dr Mike Davies wrthym nad oes fawr o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i achosion a gyfeirir at CAMHS a'u bod yn treulio amser hir ar restrau aros. Aeth ymlaen i ddweud wrthym:

> "Increasingly, from my experience, because CAMHS is occupied with other client groups, it does not necessarily have the expertise (let alone the inclination or resources) to provide the quality of assessment and intervention required especially in the more complex cases."[125]

221. Roedd Conffederasiwn GIG Cymru yn cydnabod nad yw'r gwasanaethau CAMHS arbenigol yn unffurf ar draws Cymru. Nododd nifer o resymau pam y gallai fod argraff nad yw CAMHS yn diwallu anghenion plant wedi'u mabwysiadu yn cynnwys: cyfeirio achosion yn amhriodol gan staff mewn asiantaethau eraill; diffyg cyllid o gymharu â Lloegr; fod CAMHS yn cael ei weld fel y gwasanaeth y mae ei angen pan nad yw rhannau eraill o'r system yn gweithio'n rhy dda; a 'phroblem enfawr' tynnu cymorth y gwasanaethau cymdeithasol yn ôl mewn rhai rhannau o Gymru:

> "In particular, the input into the CAMHS teams provided by social services has gradually been withdrawn over the past 5 years. This has left a gap for the NHS that has affected the dedicated provision to adopted and looked after children."[126]

222. Dywedodd wrthym fod angen dull amlasiantaethol mwy cydlynol a bod adroddiad mewnol wedi argymell yn ddiweddar y dylid sefydlu fforwm cynllunio cenedlaethol i CAMHS yng Nghymru gyda chysylltiadau â strwythurau eraill yn Llywodraeth Cymru.

223. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru wrthym hefyd fod llawer iawn o waith yn cael ei wneud ar blant ag anhwylder ymlyniad, yn cynnwys plant wedi'u mabwysiadu, ond fod angen triniaeth ddwys tymor hir ar yr achosion hyn ac y gallai CAMHS fod yn gweithio gyda nhw am sawl blynedd, felly mae'r trosiant yn araf iawn. Darparodd y

---

[124] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-17-12(td3), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Dr Alan Rushton, 13 Mehefin 2012
[125] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-15-12(td3), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Dr Mike Davies, 23 Mai 2012
[126] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-15-12(td4), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gonffederasiwn y GIG, 23 Mai 2012

Conffederasiwn bapur ychwanegol yn amlinellu sut y caiff gwasanaethau eu darparu i blant a fabwysiadwyd drwy wahanol haenau CAMHS[127].

224. O ran staffio, gwrthddywedodd y Conffederasiwn y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad nad oes gan staff CAMHS yr arbenigedd a'r ymwybyddiaeth angenrheidiol o faterion perthynasol i fabwysiadu, gan ddatgan:

> "All senior staff in a specialist CAMH service are highly trained professionals who are experienced in dealing with children and young people who are both adopted or looked after." [128]

225. Ar sail tystiolaeth a glywyd oddi wrth rieni, heriodd Jocelyn Davies AC beth o'r dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Gonffederasiwn GIG Cymru a dywedodd:

> "It describes a situation that people are not experiencing in reality." [129]

226. Dywedodd Dr Mike Davies fod y model meddygol o fewn CAMHS wedi tyfu'n gryfhach a bod hynny, yn ymarferol, wedi bod yn gyfrwng porthora hefyd i'r gwasanaeth. O ran y model meddygol, dywedodd Adoption UK Cymru wrthym:

> "Whilst some CAMHS teams are able to offer some limited family therapy to adoptive families, many regularly tell us that they are very limited to a 'medical model' of mental health which relies on a medical diagnosis followed by treatment based largely on prescription drugs." [130]

227. Soniodd Conffederasiwn GIG Cymru wrthym am waith y mae'n ei wneud i ddatblygu model cenedlaethol a mwy holistaidd a dywedodd hefyd:

> "We should not knock the medical model, because that is the right service to meet the needs of some children. However, for

---

[127] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-15-12(td4a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol gan Gonffederasiwn y GIG, 23 Mai 2012
[128] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-15-12(td4), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gonffederasiwn y GIG, 23 Mai 2012
[129] Cofnod y Trafodion [para 327], 23 Mai 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[130] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig cyn yr ymgynghoriad gan Adoption UK

a lot of children, it is not, and in the absence of anything else, that is often where children and their families end up. That is not right and we all recognise that."[131]

### *Gwasanaethau arbenigol*

228. Roedd peth o'r dystiolaeth yn argymell yn gryf y dylid creu gwasanaeth therapiwtig arbenigol ar gyfer plant wedi'u mabwysiadu. Dywedodd SEWAS wrthym:

> "The families who come back to us post adoption who seem to be having significant difficulties would say that therapeutic support to children is what they need and find difficult to access." [132]

229. Amlinellodd Cyngor Caerdydd yr anawsterau y mae adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn eu hwynebu:

> "We have purchased services that are technically therapeutic services, so there is a debate about whether we should use our funding for those services when they are health services." [133]

230. Dywedodd cynrychiolydd o CBS Wrecsam wrthym:

> "I cannot see why social services are responsible for purchasing that therapeutic input all the time, when it should be provided through the health service." [134]

231. Awgrymodd Adoption UK Cymru fod sicrhau gwasanaethau therapiwtig i blant sydd wedi'u mabwysiadu yn loteri cod post yng Nghymru ac argymhellodd:

> "[…]a specialist project should be developed in Wales, along the lines of Family Futures in England, which would bring together the expertise of CAMHS, independent therapists, social workers and educationalists to provide a specialist service for children

---

[131] Cofnod y Trafodion [para 336], 23 Mai 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[132] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-19-12(td2), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mehefin 2012
[133] Cofnod y Trafodion [para 146], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[134] Cofnod y Trafodion [para 143], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

with severe problems derived from poor attachment and early trauma and neglect."[135]

232. Argymhellai Dr Mike Davies y dylid datblygu gwasanaethau arbenigol a dywedodd wrthym:

"I would be very concerned at this stage about locating these services in CAMHS unless there was some autonomy for the new service and ring-fencing of resources. The prevailing medical model and lack of current expertise in this area in CAMHS will prevent the families getting the best out of any resources that may be allocated. [...] If new resources are allocated I strongly recommend that attention is paid to the development of expertise on attachment issues amongst the professional community as well as therapeutic practice in this highly neglected area of work."[136]

233. Awgrymodd Dr Julie Selwyn y byddai efallai'n well gwella'r sgiliau o fewn CAMHS ar gyfer pob plentyn sy'n agored i niwed a pheidio â rhoi plant wedi'u mabwysiadu y tu allan i'r system honno.[137]

234. Mewn ymateb i'r cwestiwn a ddylai gwasanaethau arbenigol gael eu datblygu y tu allan i CAMHS, dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru wrthym:

"There needs to be collaborative work. I would welcome a service that is not developed on the medical model. That can be developed within or outside of CAMHS, depending on the style of leadership within CAMHS that you are building with. Part of the task for the national group is to get an established model, which I argue should not solely be a medical model."[138]

### *Yr un flaenoriaeth â phlant sy'n derbyn gofal*

235. Mae plant sydd wedi'u mabwysiadu, fel plant sy'n derbyn gofal, yn debygol o fod â mwy o anghenion iechyd meddwl na'r

[135] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig cyn yr ymgynghorioad gan Adoption UK Adroddiad 2010 (Atodiad B)
[136] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-15-12(td3), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Dr Mike Davies, 23 Mai 2012
[137] Cofnod y Trafodion [para 345], 13 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[138] Cofnod y Trafodion [para 331], 23 Mai 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

cyfartaledd[139]. Roedd Cyngor Dinas Casnewydd, Adoption UK Cymru a nifer o rieni yn argymell y dylid rhoi'r un flaenoriaeth mynediad at CAMHS i blant sydd wedi'u mabwysiadu ag i blant sy'n derbyn gofal. Roedd y dystiolaeth a glywsom yn awgrymu bod gan blant sy'n derbyn gofal well mynediad efallai am eu bod wedi'u hintegreiddio i'r system gofal cymdeithasol – yn hytrach nag oherwydd unrhyw flaenoriaeth benodol a roddir i blant sy'n derbyn gofal o fewn haenau darpariaeth CAMHS. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn derbyn yn llwyr y dylai plant wedi'u mabwysiadu y mae angen gwasanaethau CAMHS arnynt allu cyrchu at y ddarpariaeth briodol cyn gyflymed â phlant sy'n derbyn gofal.

236. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru wrthym ei fod yn blaenoriaethu anghenion plant yn ddiwahân ar sail blaenoriaeth glinigol fel unrhyw wasanaeth GIG arall a bod gan blant sy'n derbyn gofal a phlant wedi'u mabwysiadu yr un mynediad at wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) ag unrhyw blentyn arall sydd ag anhwylder sy'n dod o dan gylch gwaith gwasanaeth CAMHS. Dywedodd hefyd ei bod yn bosibl bod plant sy'n derbyn gofal yn cael eu gweld yn gynt gan weithwyr iechyd meddwl proffesiynol oherwydd bod sawl awdurdod lleol wedi gosod seicolegwyr, seicotherapyddion neu nyrsys i weithio yn y system gofal 'derbyn gofal'. Dywedodd wrthym:

> "What you described in terms of looked-after children is a much greater provision at the lower end of the spectrum, which helps with early assessment and support, which is very much linked in with the integrated social services model of family support. That enables some of what you were describing to happen, around that early assessment of need, so that making the way through the gateway into specialist service is more rapid and often more appropriate as well, because that early assessment in intervention is able to be done appropriately with the family in a non-medical model." [140]

237. Er bod y Pwyllgor yn derbyn tystiolaeth Conffederasiwn GIG Cymru y dylai gweithredu *Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010* arwain at rai newidiadau llesol i blant yn ddiwahân o ran cyrchu at CAMHS, nid ydym wedi'n argyhoeddi y bydd y Mesur, ar ei ben ei hun, yn mynd i'r

---

[139] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td1c), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012
[140] Cofnod y Trafodion [para 276], 23 Mai 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

afael â'r holl anawsterau a wynebir gan deuluoedd sy'n mabwysiadu o ran cael y cymorth y mae ei angen arnynt.

238. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol a ddarparwyd i'r Pwyllgor ynglŷn â CAMHS, dywedodd y Dirprwy Weinidog, yn ysgrifennu ar ran y Gweinidog Iechyd, wrthym:

> "I intend to look at strengthening support to meet the needs of children with ongoing health and education issues."[141]

**Argymhelliad 11: CAMHS a gwasanaeth therapiwtig**
**Dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, weithio gyda Chonffederasiwn GIG Cymru yng nghyswllt y ddarpariaeth i blant a fabwysiadir i gynnal archwiliad o'r ddarpariaeth bresennol a nodi bylchau, gan ystyried y materion a amlygwyd yn ein tystiolaeth gyda sylw penodol i fynediad at wasanaethau therapiwtig arbenigol. Dylai wedyn nodi cynllun sy'n amlinellu'r camau penodol a gaiff eu cymryd i ymdrin â'r diffygion cyfredol yn y ddarpariaeth i blant a fabwysiadir. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru hefyd orfodi awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i gydweithio. Dylid ceisio tystiolaeth bellach gan bob parti sydd â buddiant yn cynnwys teuluoedd sy'n mabwysiadu. Dylai'r cynllun amlinellu a gaiff gwasanaethau therapiwtig eu darparu drwy ddatblygu gwasanaeth arbenigol newydd neu dylai ei gwneud yn glir sut y mae modd eu darparu mewn ffordd amserol o fewn CAMHS.**

**Bydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn ailedrych yn benodol ar y cynnydd a wnaethpwyd yn rhoi'r argymhelliad hwn ar waith ymhen 12 mis. Rydym yn ymrwymo i gynnal unrhyw graffu pellach a ystyrir yn angenrheidiol gennym i adolygu cynnydd a sicrhau'r newidiadau sy'n ofynnol er darparu'r gwasanaethau pwysig hyn.**

## Addysg

239. Tynnwyd sylw at addysg a'r ddarpariaeth gwasanaethau cysylltiol fel mater allweddol arall sy'n creu anawsterau i blant wedi'u mabwysiadu. Ymysg yr ystyriaethau roedd pryderon fod rhai ysgolion

[141] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-25-12(td1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, 26 Medi 2012

ac athrawon yn darparu cymorth annigonol i blant wedi'u mabwysiadu; materion yn deillio o addysgu am deuluoedd; gweithgareddau eraill yn yr ystafell ddosbarth; y cod derbyn plant i ysgolion; ac argymhelliad y dylai dyletswyddau cydgysylltwyr addysg plant sy'n derbyn gofal gynnwys plant wedi'u mabwysiadu.

240. Yr ysgol oedd y thema gryfaf yn nhystiolaeth y bobl ifanc y clywsom ganddynt. I'r bobl ifanc hyn, roedd amgylchedd yr ysgol, yn cynnwys cyfoedion, wedi darparu cymorth ac anawsterau fel ei gilydd. Teimlai sawl un y dylid addysgu pob myfyriwr am fabwysiadu ac y dylai pawb gael ei wneud yn ymwybodol bod plant wedi'u mabwysiadu yn gallu cael eu bwlio. Dywedasant wrthym y dylai athrawon fod yn ymwybodol bod rhai pynciau'n gallu creu gofid, megis astudio'r ddrama 'Blood Brothers'. Roedd y grŵp yn gytûn y gallai ysgolion wneud rhagor i gydnabod patrymau teuluol amrywiol o bob math a dysgu amdanynt. Pwysleisiodd yr holl bobl ifanc a oedd yn y grŵp cymorth hwn mor bwysig iddyn nhw oedd gallu bod ymysg cyfoedion eraill sydd wedi'u mabwysiadu i gymdeithasu a thrafod profiadau y maent yn eu rhannu. Mewn ymarferiad lle'r oedd pobl ifanc yn mynegi'u barn ar hyd continwwm, roedd yr angen am fwy o sensitifrwydd mewn ysgolion yn cael ei ffafrio'n glir.

241. Yn y dystiolaeth gan rieni, cafwyd profiadau cadarnhaol a negyddol o ysgolion gwladol, preifat, arbennig, cynradd ac uwchradd, mawr a bach. Nid oedd unrhyw batrwm penodol i brofiadau ysgol teuluoedd.

242. Dywedodd Erica Beddoe, uwch seicolegydd addysg i blant sy'n derbyn gofal yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrthym fod rhai plant wedi'u mabwysiadu yn wynebu sialensiau gwahanol i unrhyw blentyn arall sy'n mynd i'r ysgol.

> "Adopted children will be going in with a lot of difficulties and a lack of the skills that other children will go to school with, which makes it quite difficult for them to manage in the classroom setting."[142]

243. Tynnodd sylw at amryw o faterion y gallai plant wedi'u mabwysiadu eu hwynebu, yn cynnwys: anawsterau gyda chanolbwyntio, talu sylw a gwrando'n dda; anawsterau gyda 'swyddogaethau gweithredol' (cynllunio a threfnu) sy'n sgìl hanfodol

[142] Cofnod y Trafodion [para 74], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

yn yr ysgol; ei chael yn anodd derbyn methiant a siom; anawsterau gyda sgiliau chwarae. Dywedodd wrthym hefyd y gallai rhai plant wedi'u mabwysiadu gael anhawster i ymdopi â'r llu o newidiadau o fewn y diwrnod ysgol, er enghraifft symud i'r ystafell ddosbarth, oddi yno i chwarae, o amser chwarae yn ôl i'r dosbarth ac o amser cinio i chwarae.

> "When you struggle with managing those changes, throughout the school day you have a lot of anxiety over transitions." [143]

244. Adleisiwyd y farn hon gan Adoption UK Cymru, a ddywedodd wrthym y bydd amgylchedd ysgol brif ffrwd yn aml yn ceisio'i orau i symud plant tuag at annibyniaeth nad yw'r rhan fwyaf o blant sydd wedi'u mabwysiadu/maethu yn barod ar ei chyfer efallai na hyd yn oed yn gallu ymdopi â hi. [144]

245. Yn nhystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf dywedwyd wrthym fod y rhai sy'n gweithio yn y maes yn teimlo bod angen codi ymwybyddiaeth mewn Adrannau Addysg ac ysgolion o anghenion plant wedi'u mabwysiadu[145] a bod argraff yn gallu bodoli bod pontio graddol i'r ysgol lawn yn effeithio ar berfformiad presenoldeb yr ysgol.

246. Mewn ymateb i'r dystiolaeth sydd wedi awgrymu bod cymorth annigonol yn cael ei ddarparu i rai plant wedi'u mabwysiadu gan athrawon, ysgolion a'r gwasanaethau addysg ehangach, dywedodd Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau wrthym:

> "I would hope that this is rare as I clearly recognise that some adopted children may have additional needs requiring ongoing support." [146]

### *Cymorth a bod yn ymwybodol o fabwysiadu*

247. Yn y dystiolaeth gan rieni, nododd nifer fach o deuluoedd mor sensitif a pharod i ymateb fu ysgolion eu plant i anghenion eu plant. Ymysg yr enghreifftiau roedd athro'n rhoi gwybod i'r rhieni y bydd y

---

[143] Ibid
[144] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td1d), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012
[145] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Ymateb i'r Ymgynghoriad AD10
[146] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-25-12(td2), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau, 26 Medi 2012

dosbarth yn trafod ‘pwy yw pwy’ yn eu teuluoedd nhw yr wythnos ganlynol ac yn awgrymu eu bod yn paratoi’u plentyn ar gyfer hyn. Soniodd llawer o deuluoedd am agweddau ansensitif gan bennaeth neu athrawon dosbarth unigol ynglŷn â mabwysiadu. Roedd hyn yn cynnwys peidio â rhoi rhybudd pan fydd gofyn efallai i blant ddarparu lluniau ohonynt yn fabis (nad oes rhai yn eu meddiant efallai). Dywedodd sawl rhiant nad oes digon o gydnabyddiaeth yn cael ei rhoi i effaith tymor hir colled, camdriniaeth neu rianta gwael.

248. Dywedwyd wrthym nad yw llawer o athrawon yn ymwybodol efallai fod plentyn wedi cael ei fabwysiadu a’r posibilrwydd ei bod yn well efallai gan rai mabwysiadwyr beidio â rhannu’r wybodaeth honno gyda’r ysgol. I rai plant wedi’u mabwysiadu, dywedwyd wrthym hefyd nad oes digon o wybodaeth yn cael ei darparu gan yr awdurdod lleol i’r rhieni sy’n mabwysiadu (yn cynnwys cofnodi profiadau bywyd) i’w galluogi i roi darlun llawn i’r athrawon o’u hanghenion cymorth tebygol.[147]

249. Roedd tystiolaeth hefyd yn amlygu diffyg hyfforddiant i athrawon a staff ysgol ynghylch materion ymlyniad a sut i gefnogi plant â’r anawsterau hynny. Dywedodd Adoption UK Cymru wrthym y dylai gweithwyr addysg proffesiynol gael hyfforddiant ynglŷn â thrawma ac ymlyniad. Adleisiodd Barnardo’s Cymru y farn hon. Dywedodd Erica Beddoe wrthym fod hyfforddiant yn bwysig i amlygu’r anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol y mae rhai plant wedi’u mabwysiadu’n eu hwynebu’n aml:

> “There is an attitude that is probably generally held that if a child is adopted, they are extremely fortunate—that they have a new family and their life is going to be lovely. They are forgetting that those children have been looked after, and if they are looked after, in the world in which we live, they will have experienced a lot of trauma, neglect and other major issues. The teachers’ attitudes will probably be that they are lucky children, as they have been adopted.”[148]

250. Rhoddodd enghreifftiau inni hefyd o rai strategaethau y gall athrawon a staff ysgol eu defnyddio’n llwyddiannus megis: cwrdd â’r plentyn a’i gyfarch ar ddechrau’r diwrnod; cadw’r plentyn yn agos at yr athro fel bod modd rhoi sylw cadarnhaol iddo’n aml; siarad yn unigol

[147] Cofnod y Trafodion [para 126], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[148] Cofnod y Trafodion [para 95], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

â’r plentyn ar ôl cyfarwyddiadau grŵp; bod â threfn bendant i bethau a darparu amserlenni gweledol neu gynlluniau ar gyfer y diwrnod.[149]

251. Ar y llaw arall, soniodd un neu ddau riant am achosion o orbriodoli mabwysiadu a phroblemau cysylltiol, megis anhwylderau ymlyniad, i ymddygiad sydd o fewn yr ystod normal a disgwyliedig. Teimlai rhai fod eu plant wedi cael eu labelu fel rhai anodd:

> “I asked if all girls who deliberately forget their PE kits are labelled as having attachment disorders.”

252. Galwodd llawer o deuluoedd am fwy o hyfforddiant i athrawon a staff ysgol arall. Dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) wrthym ei bod yn hapus i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod athrawon ac ysgolion yn fwy ymwybodol o anghenion plant a phobl ifanc sydd wedi’u mabwysiadu. Dywedodd wrthym hefyd ei bod yn hapus i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i sicrhau bod ysgolion yn fwy ymwybodol o anghenion cwricwlaidd plant wedi’u mabwysiadu a dywedodd:

> “Information about attachment disorders could be a valuable part of the initial training of teachers and on-going CPD of teachers.”[150]

253. Dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau wrthym:

> “I would expect all teachers to demonstrate that they understand the diverse learning needs of learners and endeavour to provide the best possible education for them to maximise their potential [...]”[151]

### *Pynciau ysgol*

254. Dywedodd rhai rhieni sydd wedi mabwysiadu wrthym fod rhai pynciau sy’n cael eu hastudio mewn ysgolion yn gallu bod yn boenus i blant wedi’u mabwysiadu (yn cynnwys peth ffuglen a dosbarthiadau am eneteg ac etifeddiaeth) ac y gallai athrawon fod yn fwy sensitif i

---

[149] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-25-12(td3), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Erica Beddoe, 26 Medi 2012

[150] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-25-12(td4), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, 26 Medi 2012

[151] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-25-12(td2), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Ddysgu a Sgiliau, 26 Medi 2012

hyn a chynnig cymorth cyfrinachol mewn ffordd ragweithiol. Roedd hon yn neges glir iawn gan rai o'r bobl ifanc y clywsom ganddynt.

255. Dywedodd Adoption UK Cymru wrthym fod y ffordd yr ymdrinnir â rhai pynciau'n gallu arwain at brofiadau poenus i blant nad yw eu bywyd teuluol neu'u cefndir yn cyd-fynd â'r fersiwn delfrydol a gyflwynir[152]:

> "[…] many subjects within the school curriculum are fraught with difficulty for adopted/fostered children. Classwork on family trees, family timelines or baby pictures for instance, are obvious areas that causes distress and upset for adopted/fostered children." [153]

256. Dywedodd Erica Beddoe wrthym ei bod wedi cwrdd â rhai athrawon hynod sensitif sy'n ofalus ac ystyriol iawn o faterion mabwysiadu, ond nad oedd hynny'n wir am bob athro.

257. Dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau wrthym fod dysgu o brofiadau bywyd go iawn yn ganolog i addysg bersonol a chymdeithasol (rhan o'r cwricwlwm sylfaenol i blant 7 i 16 oed). Dywedodd wrthym fod modd, drwy ABCh, galluogi dysgwyr i archwilio'u teimladau a datblygu hunanymwybyddiaeth a hunan-barch[154] a bod canllawiau gan Lywodraeth Cymru i helpu athrawon i ddelio â materion sensitif.

### *Anghenion dysgu ychwanegol*

258. Dywedodd nifer o deuluoedd wrthym eu bod yn teimlo bod eu plant yn cael rhy ychydig o help ychwanegol neu ei fod yn help o'r math anghywir. Gall plant sydd wedi profi trawma cynnar fod ag anghenion nad ydynt yn cyd-fynd yn hawdd â'r categorïau darpariaeth presennol. Dywedodd Erica Beddoe wrthym fod rhai plant wedi'u mabwysiadu sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol yn aml yn cael eu gweld fel plant sydd ag ymddygiad heriol neu anodd, heb sylweddoli o ble mae'r ymddygiad hwnnw'n deillio. Dywedodd wrthym hefyd:

---

[152] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td1c), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012
[153] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td1a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012
[154] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-25-12(td2), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Ddysgu a Sgiliau, 26 Medi 2012

> "Making arrangements for special educational needs to be met within that short timescale often does not meet local authority timescales.  That is a huge problem for children who have been in specialist settings, particularly if they are in special schools with additional learning needs."[155]

259. Galwodd Adoption UK Cymru am hawl i gymorth ychwanegol o dan y system datganiadau[156]. Dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau wrthym fod Llywodraeth Cymru'n bwriadu disodli'r fframwaith statudol presennol ar gyfer asesu a chynllunio darpariaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig (AAA) gyda system symlach, fwy person-ganolog i blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Dywedodd wrthym hefyd fod y system wedi'i bwriadu i ddal plant wedi'u mabwysiadu y nodwyd bod ganddynt anghenion ychwanegol[157]. Daeth cyfnod cyflwyno sylwadau ymgynghoriad cyn deddfu ynghylch y ddogfen *Ymlaen mewn partneriaeth dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol: Cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig* i ben ym mis Hydref 2012.

260. Mae'r Pwyllgor yn nodi hefyd y bydd Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) yng Nghymru yn cael y cyfle o fis Medi 2012 i ddilyn rhaglen Meistr sy'n cynnwys ffocws ar anghenion dysgu ychwanegol.

### *Derbyn i ysgolion*

261. Byddai sawl teulu wedi hoffi cael help a chymorth i ddewis ysgol a gwneud cais iddi. Yn aml mae angen lleoedd ar fyr rybudd os yw plant eisoes o oed ysgol pan fyddant yn ymuno â'r teulu. Teimlai llawer o deuluoedd y dylai plant wedi'u mabwysiadu gael yr un flaenoriaeth o ran derbyniadau â phlant sy'n derbyn gofal (gan eu bod yn blant a oedd yn arfer derbyn gofal a bod eu hanghenion yn debyg). Nes i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud, ar yr adeg leoli, maent yn blant sy'n derbyn gofal sydd â blaenoriaeth o dan y cod derbyn i ysgolion.

> "Case example: One rural family wanted their child to attend the same over-subscribed school as his or her older sibling but they live outside the catchment area.  The local school is potentially unsuitable due to connections with the birth family.

---

[155] Cofnod y Trafodion [para 164], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[156] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig cyn yr ymgynghoriad gan Adoption UK Adroddiad 2010 (Atodiad B)
[157] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-25-12(td2), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Ddysgu a Sgiliau, 26 Medi 2012

> The older sibling was 'looked after' on entering school and therefore a priority. The younger sibling is adopted and has no automatic priority for admission."

262. Argymhellodd Adoption UK Cymru y dylai plant wedi'u mabwysiadu gael yr un flaenoriaeth â phlant sy'n derbyn gofal yn y system derbyn i ysgolion.

263. Dywedodd Erica Beddoe wrthym y dylai fod hyblygrwydd yn yr amseru, yn cynnwys dewis a pha bryd y bydd plentyn yn mynychu unrhyw fath o ddarpariaeth cyn-ysgol/meithrinfa, a phenderfyniadau ynglŷn â phryd i gychwyn mewn ysgol newydd ac a ddylai'r presenoldeb fod yn rhan-amser/amser llawn/cyflwyno fesul cam. Dywedodd wrthym:

> "Adopters and social workers for adopters become anxious about that, because legally they should be attending school, but their needs are not always met at that stage in their life by attending school. For me, there is a real conflict in terms of whether they should have more time at home to allow them to become part of their adopted family before they are faced with the additional stress and pressure of moving to a school."[158]

264. Dywedodd CCAC wrthym na fyddai'n argymell gwthio plentyn ar ei union i ysgol pe bai anghenion y plentyn yn sylweddol neu fod y trosglwyddo i leoliad mabwysiadu yn gymhleth. Dywedodd wrthym nad oedd yn ymwybodol o unrhyw ysgolion yn 'gorfodi' plant i fod yn bresennol yn yr ysgol yn nyddiau cynnar lleoliad.[159]

265. Mae Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2009, yn cynnwys gofyniad ar i feini prawf awdurdodau derbyn gynnwys 'plant sy'n derbyn gofal' fel y maen prawf cyntaf ym mhob achos lle ceir mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael. Nid yw'n rhoi'r flaenoriaeth benodol hon i blant wedi'u mabwysiadu. Yn Lloegr rhoddir yr un flaenoriaeth o ran derbyniadau ysgol i blant wedi'u mabwysiadu a oedd gynt yn derbyn gofal ag i blant sy'n derbyn gofal o fewn y Cod Derbyn i Ysgolion.

266. Dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau wrthym fod ei adran ef wrthi'n pennu unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Cod a fydd, fel

[158] Cofnod y Trafodion [para 176], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[159] Cofnod y Trafodion [para 324], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

rhan o'r ymarferiad hwn, yn ystyried yr arferion mewn rhannau eraill o'r DU, awgrymiadau gan bartïon sydd â buddiant yn y maes a gwersi a ddysgwyd o weithredu'r cod presennol. Wedyn, ym mis Medi 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynghylch 'Derbyn i ysgolion ac apelau derbyn i ysgolion'.[160]

### *Cydgysylltwyr addysg plant sy'n derbyn gofal*

267. Roedd canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2007[161] yn cryfhau'r dyletswyddau blaenorol ar awdurdodau cyfrifol i hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol benodi cydgysylltwyr addysg plant sy'n derbyn gofal. Roedd canllawiau Llywodraeth Cymru ar y pryd[162] eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddynodi athro i weithredu fel adnodd ac eiriolwr ar ran plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Mae gan lywodraethwyr ysgolion rôl allweddol i'w chwarae hefyd yn hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal.

268. Dywedodd Erica Beddoe wrthym fod plant wedi'u mabwysiadu yn wynebu'r un problemau o fewn ysgol â phlant sydd wedi derbyn gofal a bod angen i gydgysylltwyr plant sy'n derbyn gofal ymestyn eu rôl fel eu bod yn rhan o'r broses honno o fewn gwaith ôl-fabwysiadu. Dywedodd hefyd y gallai seicolegwyr plant sy'n derbyn gofal ymestyn y rôl honno i fabwysiadu.[163]

269. Fodd bynnag, tynnodd sylw at y goblygiadau sy'n gysylltiedig â hyn o ran adnoddau o ystyried y cynnydd yn y boblogaeth plant sy'n derbyn gofal. Er i Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru hefyd danlinellu y bydd cydgysylltwyr addysg presennol plant sy'n derbyn gofal yn wynebu sialensiau o ran bod â'r capasiti i ymestyn eu rôl i gynnwys plant wedi'u mabwysiadu[164] dywedodd wrthym hefyd y byddai'n croesawu trafodaethau ynglŷn â phriodoldeb rhoi'r un flaenoriaeth i blant wedi'u mabwysiadu â phlant sy'n derbyn gofal ac ynglŷn ag ehangu cylch gwaith cydgysylltwyr plant sy'n derbyn gofal.

---

[160] Llywodraeth Cymru *Ymgynghoriad ynghylch derbyn i ysgolion ac apelau derbyn i ysgolion*, 28 Medi 2012
[161] Llywodraeth Cymru *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell: Cyfarwyddyd a Rheoliadau ar faterion yn ymwneud â lleoli, iecyd, addysg a lles plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal*, 2007
[162] Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 02/2001 *Addysg plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol*
[163] Cofnod y Trafodion [para 115], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[164] Cofnod y Trafodion [para 332], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**Argymhelliad 12: Cod Derbyn i Ysgolion**
**Dylid rhoi'r un flaenoriaeth i blant wedi'u mabwysiadu ag i blant sy'n derbyn gofal yn y Cod Derbyn i Ysgolion.**

**Argymhelliad 13: Cylch Gwaith Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal**
**Dylai Llywodraeth Cymru ehangu cylch gwaith Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal i gynnwys plant wedi'u mabwysiadu.**

**Gweithredu Manwl: Addysg**

- **dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y newidiadau sydd yn yr arfaeth i'r fframwaith asesu a chynllunio darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig gynnwys cyfeiriad penodol at anghenion posibl plant wedi'u mabwysiadu.**
- **dylai hyfforddiant am anhwylderau ymlyniad ac effeithiau trawma cynnar ar blant yn y system ysgolion gael ei ymgorffori yng nghymwysterau hyfforddiant cychwynnol athrawon, yn ogystal â bod yn rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus athrawon, cwnselwyr ysgol a staff arall mewn ysgolion.**
- **dylai'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru o fis Medi 2012, gynnwys, ym mlwyddyn academaidd 2013/14, ffocws ar faterion ymlyniad fel rhan o'r addysgu craidd ynghylch anghenion dysgu ychwanegol.**
- **dylai Llywodraeth Cymru weithio ar y cyd â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru i ddatblygu deunyddiau ysgrifenedig i rieni sy'n mabwysiadu eu rhoi i staff ysgol yng Nghymru, yn tynnu sylw at anghenion neilltuol plant wedi'u mabwysiadu.**

**Cymorth penodol i rieni ar ôl mabwysiadu**

270. Dywedodd Adoption UK Cymru wrthym:

> "Adoptive parents may have had little previous experience of parenting and will have to jump in at the deep end by

> becoming the full-time parent of one or more children. Not babies, who are sleeping a lot, but active toddlers or older children who may never have experienced good parenting and who have little trust that family life is a permanent situation."[165]

271. Cawsom dystiolaeth am bwysigrwydd rhaglenni cymorth rhianta a chymorth gan gymheiriaid i rieni. Clywsom hefyd am fanteision cynnwys mabwysiadwyr profiadol wrth recriwtio, hyfforddi, mentora a darparu cymorth ôl-fabwysiadu.

272. Dywedodd llawer o rieni wrthym eu bod wedi manteisio ar gymorth gan fudiadau gwirfoddol fel Adoption UK ac After Adoption, y mae'n ymddangos eu bod yn darparu ffynhonnell hollbwysig o wybodaeth, hyfforddiant, eiriolaeth a chymorth. Prin oedd y rhieni a oedd yn gallu manteisio ar grwpiau cymorth rheolaidd gan asiantaethau mabwysiadu awdurdodau lleol ar ôl mabwysiadu, gyda rhai eithriadau nodedig.

> "Case example: One adoptive parent described the local authority adopters' group as a 'life-line'. There is no equivalent group in several neighbouring authorities."

273. Roedd sesiynau hyfforddiant ôl-fabwysiadu ar faterion fel ymlyniad, rhianta plant yn eu harddegau a helpu plant i ddeall hanes eu bywyd yn cael eu hystyried yn amhrisiadwy ond ni chaent eu cynnig yn ddigon aml, neu roeddent yn rhy ddrud. Dywedodd rhieni wrthym fod hyfforddiant yn cael ei gynnal yn rhy gynnar yn y broses weithiau, cyn i'r materion ddod yn berthnasol i'r teulu sy'n mabwysiadu.

### *Rhaglenni cymorth rhianta*

274. Dywedodd Adoption UK Cymru wrthym na fydd technegau rhianta traddodiadol yn gweithio bob amser efallai oherwydd profiadau cynnar plant a fabwysiadir a bod angen efallai i rieni sy'n mabwysiadu ddatblygu strategaethau rhianta amgen yn eu rôl fel "rhieni therapiwtig" i blant sydd wedi bod drwy drawma[166]. Amlygodd Barnardo's Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru bwysigrwydd rhaglenni cymorth rhianta. Dywedodd Dr Alan Rushton wrthym fod gwahanol raglenni rhianta yn pwysleisio gwahanol agweddau o rianta drwy

---

[165] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td1c), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012

[166] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig cyn yr ymgynghoriad gan Adoption UK, Argymhellion (Atodiad A)

fabwysiadu a'u bod yn defnyddio modelau a fformatau gwahanol (sesiynau i unigolion neu grwpiau). Pwysleisiodd bwysigrwydd ymyriadau a seilir ar dystiolaeth, gan ddweud:

> "I should like to see an evidence-based adopter parenting programme offered to all new adopters of challenging children. At the end of the programme, with the aid of 'before and after' measures to assess change, I should like to see a review to identify any persistent problems followed by a focussed therapeutic plan." [167]

275. Aeth ymlaen i ddweud:

> "Parenting programmes specially tailored for adopters are strongly to be recommended. The benefits are that they are easy to commission, not too costly, do not need extensive training for parent advisers, are easily accessible and should provide a practical response to pressing challenges for adopters and lessen the likelihood of disruption or other poor outcome."[168]

276. O ran dulliau seiliedig ar dystiolaeth, amlinellodd fel yr oedd hap-brawf gyda rheolydd, er enghraifft, o'r rhaglen 'Enhancing Adoptive Parenting' wedi dangos bod hyder a boddhad rhieni wedi gwella'n sylweddol, yn fwy felly i'r rhai a gafodd y rhaglen ddeng wythnos na'r grŵp rheoli pan wnaed asesiad dilynol chwe mis ar ôl diwedd yr ymyriad. Dywedodd wrthym fod y llawlyfr rhianta a ddatblygwyd o ganlyniad i'r rhaglen yn ymdrin â'r cwestiwn sut mae deall gwahanol fathau o ymddygiad a hefyd yn darparu help ymarferol a dyddiol ynghylch problemau ymddygiad heriol. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith na fyddai dull o'r fath yn ddigon efallai i rai teuluoedd ag anghenion mwy cymhleth y gallai fod angen ymyriad mwy arbenigol arnynt.

### *Cymorth gan gymheiriaid*

277. Crybwyllwyd cymorth gan gymheiriaid gan y teuluoedd i gyd bron fel rhywbeth cadarnhaol y dylid ei annog ac a allai gael ei drefnu'n fwy ffurfiol.

---

[167] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-17-12(td3), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Dr Alan Rushton, 13 Mehefin 2012
[168] Ibid

> "A parent mentor should be available for all families to aid safe exploration of this 'uncertain transition' [i. e. not a problem] from a couple into adoptive parenthood and from a child looked after by the local authority to an adopted son or daughter of a new family."

278. Dywedodd SEWAS wrthym fod teuluoedd sy'n mabwysiadu wedi bod yn gadarnhaol iawn am grwpiau cymorth i fabwysiadwyr a'u bod yn gwerthfawrogi'r cymysgedd o gymorth anffurfiol a phynciau dysgu a drafodir. Mae'r rhain yn fuddiol i fabwysiadwyr[169], er enghraifft, gellir trafod materion fel rheoli cyswllt â theuluoedd biolegol ar facebook.

279. Dylai pob teulu sy'n mabwysiadu allu manteisio ar raglenni rhianta seiliedig ar dystiolaeth gyda chymorth dilynol; gallu cyrchu at grwpiau lleol cymorth gan gymheiriaid a chael mynediad at y mathau o gymorth, gwybodaeth a hyfforddiant sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd gan asiantaethau gwirfoddol. Dylai'r adnoddau hyn ddarparu ar gyfer y sbectrwm anghenion llawn o fewn yr ystod eang o deuluoedd sy'n mabwysiadu.

**Argymhelliad 14: Cymorth rhianta**
**Dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, ar y cyd â darparwyr allweddol, fod yn gyfrifol am ddatblygu ystod eang o raglenni cymorth rhianta sydd: yn diwallu anghenion amrywiol teuluoedd ar draws y sbectrwm; yn canolbwyntio ar fodelau seiliedig ar dystiolaeth; ac yn hyrwyddo cyfleoedd i fabwysiadwyr gael rhan yn dylunio a chyflwyno cynnwys.**

**Gweithredu Manwl**

- **dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol gynorthwyo asiantaethau mabwysiadu a mudiadau gwirfoddol i ddatblygu grwpiau lleol cymorth gan gymheiriaid a datblygu grwpiau cenedlaethol lle nodwyd bod angen, er enghraifft i fabwysiadwyr sengl.**

### Tarfu ar drefniant mabwysiadu a chwalfa

280. Ychydig iawn o ddata sy'n cael ei gasglu am faint o drefniadau mabwysiadu sy'n chwalu ac ychydig o wybodaeth bendant sydd ar gael

---

[169] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru, Ymateb i'r Ymgynghoriad AD19

am yr achosion. Mae'n ymddangos nad oes sytem penodol i fonitro a thracio plant ar ôl iddynt gael eu mabwysiadu. Cawsom dystiolaeth fod tarfu ar drefniant mabwysiadu a chwalfa yn gallu digwydd oherwydd cymorth ôl-fabwysiadu gwael. Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth a glywsom yn awgrymu bod y rhan fwyaf o deuluoedd yn dal i ymlafnio ymlaen pan fydd anawsterau mawr yn codi (er gwaethaf cymorth annigonol) mewn ymdrech enbyd i gadw'r teulu ynghyd. Dywedodd Dr Alan Rushton wrthym:

> "[...] the concept of adoption disruption is problematic. It is not just that some continue and some do not. Some continue but in a very unstable and unsatisfactory way. You would not want to not take those into account. You would have a disrupted group, a continuing but very unhappy group, and also other in-between examples."[170]

281. Mae'r data'n awgrymu bod nifer fach o blant a fabwysiadir yn dychwelyd i'r system gofal ac rydym wedi clywed hefyd am drefniadau dros dro yn cael eu sefydlu i blant fyw gydag aelodau estynedig o'r teulu mabwysiadu.

282. Cyfeiriodd Cymdeithas Plant Dewi Sant at sawl thema sy'n codi dro ar ôl tro pan fydd trefniant mabwysiadu'n chwalu yn cynnwys gwybodaeth wallus mewn CARAs; diffyg paratoi darpar fabwysiadwyr yn ddigonol; dim digon o sylw'n cael ei roi i farn y plentyn; a chymorth ôl-fabwysiadu gwael.[171]

### *Cyfyngiadau'r data presennol am darfu ar drefniadau mabwysiadu*

283. Cawsom amcangyfrifon fod tarfu ar un o bob pum lleoliad mabwysiadu cyn i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei ganiatáu a thystiolaeth hefyd yn amcangyfrif bod un o bob tri threfniant mabwysiadu'n chwalu pan ystyrir pob achos o darfu a theuluoedd yn chwalu gyda'i gilydd. [172] Dywedodd CLlLC/ADSS wrthym hefyd fod

---

[170] Cofnod y Trafodion [para 379], 13 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[171] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-20-12(td1b), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol gan Gymdeithas Plant Dewi Sant, 27 Mehefin 2012
[172] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td1a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth ysgrifenedig gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012

cyfyngiadau o ran cymhwyso'r amcangyfrifon hyn yn uniongyrchol i gyd-destun cyfredol Cymru. [173]

284. Dywedodd BASW Cymru wrthym:

> "We also believe there should be greater analysis and scrutiny of the number and nature of adoption breakdowns in Wales – why they happen and how they could be prevented. If we do not learn from these, then we run the risk of increased numbers of breakdowns as the numbers of adoptions increase." [174]

285. Dywedodd BAAF Cymru wrthym nad yw'r ystadegau tarfu'n cael eu coladu'n genedlaethol a bod amrywiadau enfawr yn y ffordd o ddehongli achosion lle ceir tarfu[175]. Tynnodd SEWAS sylw at gyfyngiadau'r data presennol.

286. Dywedodd CLlLC/ADSS wrthym:

> "The numbers of placement breakdowns is very small in Wales. Less than 5 children's placements were disrupted prior to the adoption order being made last year and fewer than 5 children had breakdowns after the adoption order, requiring them to be brought back into the LAC system." [176]

287. Dywedasant wrthym hefyd:

> "I guess that you would expect me, from the WLGA, to say that, when you say that it is surprisingly low, it is because authorities are doing a good job, and we should applaud that, rather than question why it is so low." [177]

288. Fodd bynnag, dywedodd cynrychiolydd o Adoption UK Cymru wrthym:

---

[173] Cofnod y Trafodion [para 241], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[174] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-15-12(td2), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Barnardo's Cymru, 23 Mai 2012
[175] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td2a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan BAAF Cymru, 9 Mai 2012
[176] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-19-12(td2), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mehefin 2012
[177] Cofnod y Trafodion [para 241], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

> "When I saw the WLGA figure and showed it to others, the response was one of incredulity, because they could instantly count at least five without even thinking about it."[178]

289. Argymhellodd Adoption UK Cymru hyn:

> "The Welsh Assembly Government should work with Adoption Agencies in Wales to track and record the disruption and family breakdown rates for children placed for adoption from the care system, using this as a key indicator of adoption outcomes."[179]

290. Mae Dr Julie Selwyn yn gwneud ymchwil[180] ar hyn o bryd i trefniadau mabwysiadu sy'n chwalu yn Lloegr, wedi'i gomisiynu a'i gyllido gan yr Adran Addysg. Pan holwyd hi a fyddai'r ymchwil hwn yn berthnasol i Gymru, dywedodd Dr Selwyn

> "Somebody who is more aware of the Welsh context would need to look at what we have published and see whether it fits the Welsh experience.  Only then could you decide whether you needed to fund further research."[181]

291. Mae casglu'r wybodaeth am achosion unigol o darfu neu chwalu yng Nghymru, adolygu'r data a dysgu oddi wrtho yn gamau hollbwysig er gwella canlyniadau mabwysiadu. Amlinelir y dystiolaeth a gawsom am gyfyngiadau'r data mabwysiadu drwyddo draw yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**Gweithredu Manwl: Tarfu ar drefniant mabwysiadu**

- **dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Asiantaethau Mabwysiadu yng Nghymru i adolygu'r ffordd y caiff data ei gofnodi ar hyn o bryd a dylai sefydlu mecanwaith tracio a chofnodi newydd ar gyfer y cyfraddau tarfu a theuluoedd yn chwalu yng nghyswllt plant a leolir i'w mabwysiadu o'r system gofal.**

---

[178] Cofnod y Trafodion [para 244], 9 Mai 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[179] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td1c), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012
[180] Beyond the adoption order: a study of the continuity of placements
[181] Cofnod y Trafodion [para 377], 13 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**Cymorth Ariannol**

292. Cawsom dystiolaeth yn awgrymu bod cymorth ariannol cyfyngedig yn cael ei gynnig i deuluoedd, yn cynnwys taliadau untro ar ddechrau lleoliad a hefyd gymorth ariannol cyson pan fydd angen hynny ar deuluoedd.

293. Cawsom dystiolaeth hefyd am faterion y mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol amdanynt, megis y lwfans tai lleol[182] a gyflwynwyd yn ddiweddar ac absenoldeb a thâl mabwysiadu[183]. Mae'r materion hyn y tu hwnt i gylch gwaith ein hymchwiliad, ond rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ohebu â'r Gweinidogion perthnasol ar lefel y DU i adolygu'r system drethi a budd-daliadau i sicrhau bod teuluoedd sy'n mabwysiadu yn cael cymorth ac anogaeth ac yn benodol fod cydraddoldeb rhwng tâl mamolaeth a thâl mabwysiadu.

294. Tynnwyd ein sylw at amryw o faterion, er enghraifft dywedodd Adoption UK Cymru wrthym:

> "Furthermore, the children who currently wait longest such as older children, children with disabilities and large sibling groups, may become a more viable option for adoptive parents if they were to receive sufficient financial support to allow one parent to stay at home to care for them." [184]

295. Dywedodd Adoption UK Cymru wrthym hefyd y dylid cyflwyno isafswm lwfans mabwysiadu cenedlaethol i bob teulu sy'n mabwysiadu, gan ddweud:

> "At present there is no consistent national approach to adoption allowances, with local authorities entitled to set their own policies. All adopters should be entitled to an adoption allowance but it is currently down to a postcode lottery as to how much that is." [185]

296. Dywedodd BAAF Cymru wrthym:

---

[182] Cyfrifoldeb yr Adran Gwaith a Phensiynau yw'r rheoliadau Lwfans Tai Lleol (LHA). Mae'r LHA yn lwfans safonol i eiddo o wahanol faint o fewn Ardal Marchnad Rentu Eang (BMRA). Swyddogion Rhent Cymru (o fewn Llywodraeth Cymru) sy'n gyfrifol ond bennu'r BMRAs, ond nid ydynt yn gyfrifol am y rheoliadau.
[183] Nid yw absenoldeb a thâl mabwysiadu wedi cael eu datganoli
[184] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig cyn yr ymgynghoriad gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru
[185] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td1d), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012

> "For large sibling groups consideration should be given to financial assistance in order for the adoptive parents to stay at home for as it takes the family unit to settle. Additional support in the home early in the morning and after school would also be an excellent short term investment for long term placement stability."[186]

297. Clywsom am ddau achos o 'fabwysiadwyr sengl' a oedd wedi wynebu anawsterau ariannol oherwydd eu statws fel mabwysiadwyr unigol. Mewn un achos roedd y rhiant am gymryd y cyfnod priodol oddi ar ei gwaith er mwyn i'r trefniant mabwysiadu lwyddo, ond gadawodd hyn hi a'i merch heb yr incwm y teimlai oedd yn ofynnol i gynnal y teulu.

298. Dywedodd Adoption UK Cymru wrthym:

> "It is much harder for adopters to forge strong attachments and bond with their newly placed children if they unable financially to take sufficient time off work and this is detrimental to adopted children and adoptive parents."[187]

299. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrthym:

> "[…] a review of the financial support available to adopters would reduce inequalities between agencies and encourage applicants from a wider range of backgrounds."[188]

300. Dywedodd Barnardo's Cymru wrthym:

> "It should not be about only the rich being able to adopt, but about making the best placements for children. If people are on a low income, we should look at supporting adoption financially."[189]

**Gweithredu Manwl: Cymorth ariannol**

- **dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i'r Gweinidogion perthnasol ar lefel y DU, yn galw am adolygiad**

[186] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td2ac), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan BAAF Cymru, 9 Mai 2012
[187] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(td1d), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012
[188] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Ymateb i'r Ymgynghoriad AD10
[189] Cofnod y Trafodion [para 127], 23 Mai 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**o'r systemau treth a budd-dal i sicrhau bod teuluoedd sy'n mabwysiadu yn cael cymorth ac anogaeth ac yn benodol fod cydraddoldeb rhwng tâl mamolaeth a thâl mabwysiadu.**

- **dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ynghylch safoni lwfansau mabwysiadu ariannol.**

## 10. Materion y gweithlu

301. Thema a ddaeth yn amlwg yn y dystiolaeth gan deuluoedd oedd pwysigrwydd 'unigolion allweddol' yn galluogi teuluoedd sy'n mabwysiadu i gael profiadau cadarnhaol. Roeddent yn cynnwys enghreifftiau o weithwyr cymdeithasol; therapyddion; staff asiantaethau gwirfoddol; athrawon; rhieni maeth; a swyddogion heddu, y barnwyd eu bod i gyd wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Tanlinellodd tystiolaeth gan swyddfa Comisiynydd Plant Cymru hefyd mor bwysig y mae plant a phobl ifanc yn ystyried eu perthynas â gweithiwr proffesiynol allweddol.[190]

302. Dywedodd rhieni wrthym fod y berthynas unigol â gweithwyr cymdeithasol (gweithiwr y rhieni sy'n mabwysiadu a'r plentyn) yn ganolog i'r profiad, gan awgrymu angen am hyfforddiant arbenigol o safon uchel a pholisïau i annog cadw gweithwyr profiadol yn y swyddi hyn. Dywedodd rhieni wrthym fod yr asesiadau'n mynd rhagddynt yn gyflym ac yn esmwyth lle'r oedd asiantaethau mabwysiadu'n cyflogi gweithwyr cymdeithasol ar eu liwt eu hunain, a oedd yn aml wedi ymddeol ac yn brofiadol. Dywedodd un rhiant wrthym:

> "Our freelance social worker was an angel. She was there for us"

303. Mae'r Pwyllgor yn glir ynglŷn â'r rôl greiddiol a chwaraewyd gan faterion gweithlu ym mhrofiadau teuluoedd sy'n mabwysiadu, a pherthnasedd hynny. Yn arbennig, rydym wedi clywed am y problemau sy'n deillio o gapasiti gwaith cymdeithasol; diffyg parhad o ran gweithiwr cymdeithasol; diffyg arbenigedd a phrofiad o faterion mabwysiadu mewn timau gwasanaethau cymdeithasol generig. Soniodd rhai rhieni wrthym hefyd am faterion yn deillio o'r 'cydbwysedd grym' yn eu perthynas â gweithiwr cymdeithasol.

### Capasiti gwaith cymdeithasol

304. Roedd llawer o'r dystiolaeth a glywsom yn awgrymu mai amser cyfyngedig sydd gan weithwyr cymdeithasol i wneud gwaith uniongyrchol gyda darpar rieni yn ystod y broses ymgeisio ac mai cyfyngedig yw'r amser sydd ganddynt hefyd i wneud gwaith uniongyrchol gyda phlant. Roedd llawer o'r mabwysiadwyr y clywsom

---

[190] Cofnod y Trafodion [para 26], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

ganddynt wedi dod yn ymwybodol fod prinder staff yn achosi oedi yn y broses recriwtio, asesu a pharu.

305. Dywedwyd wrthym am y swmp cynyddol o waith sy'n deillio o atgyfeirio mwy o achosion amddiffyn plant yn sgil achos trasig babi Peter[191]. Dywedodd cynrychiolydd o BASW Cymru nad oes gan weithwyr cymdeithasol gofal plant yr amser yn aml i fynd i hyfforddiant oherwydd pwysau'r llwyth gwaith.

> "When I have been running training, and when BASW has put on events, we find that it is the childcare workers who do not get the space to come." [192]

306. Dywedodd SEWAS wrthym fod angen i lwyth achosion gweithwyr cymdeithasol fod ar lefel sy'n caniatáu iddynt neilltuo digon o amser i gynllunio sefydlogrwydd ac i ymgymryd â gwaith o safon gyda'r plentyn a'r teulu.

307. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wrthym y bu rhaid iddo recriwtio gweithwyr sesiynol cyflenwi oherwydd, yn y flwyddyn flaenorol, roedd wedi cael digon o geisiadau gan fabwysiadwyr ond nid oedd ganddo ddigon o weithwyr cymdeithasol i wneud yr asesiadau.

308. Dywedodd wrthym mai un o'r sialensiau sylfaenol yw rhoi'r capasiti i weithwyr cymdeithasol i wneud gwaith safonol and bod y llwyth achosion a'r cynnydd yn y nifer o atgyfeiriadau wedi effeithio'n sylweddol ar ansawdd y gwaith[193]. Adleisiodd Cyngor Caerdydd hyn, gan ddweud:

> "We have seen significant numbers of referrals into children's services in recent years. Our looked-after children population has not increased significantly but, in terms of the make-up of that population, we have seen an increasing number of babies and very young children coming into care. That has increased the adoption workload, both for case management social workers and for our adoption social workers." [194]

---

[191] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-15-12(td1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gymdeithas Plant Dewi Sant, 23 Mai 2012

[192] Cofnod y Trafodion [para 240], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

[193] Cofnod y Trafodion [para 8], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

[194] Cofnod y Trafodion [para 9], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

309. Dywedodd Cyngor Caerdydd wrthym hefyd y bydd achosion amddiffyn plant yn anochel yn cael blaenoriaeth dros symud plant ymlaen i gael eu mabwysiadu, gan ddatgan

> "[...]if you have to make a choice about what you are doing with your time and if there is that much pressure on you, you would go for the child who is at risk of significant harm as opposed to the one whom you were assured is safely placed and whose work you can pick up the next day or the day after. It is one of the realities, unfortunately, of the pressure of the work."[195]

Dywedodd Gwasanaeth Mabwysiadu Gorllewin Cymru a Chyngor Sir Ceredigion (ymateb ar y cyd)[196] wrthym fod diffyg capasiti mewn timau mabwysiadu yn achosi oedi a bod angen rhagor o staff arnynt i gyflymu'r broses.

### *Gwaith uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd*

310. Dywedodd BASW Cymru wrthym am yr angen am amser i wneud gwaith uniongyrchol yn ystod y broses recriwtio i reoli'r disgwyliadau o'r broses fabwysiadu ac i edrych yn fanwl ar gapasiti a hyblygrwydd pobl i fabwysiadu:

> "To overcome (this) and encourage adopters to look beyond the ideal takes careful and skilled social work over a period of time to help people realise what adoption is today and to help them to explore their skills, abilities and emotional flexibility to take on a child that they had not first considered."[197]

311. O ran gwaith gyda phlant, dywedodd BASW Cymru wrthym:

> "It is difficult to get people to go into childcare, it is difficult to get them to stay there and it is difficult to get them to have a sense that they are really making a difference to a child, because there is a managerial approach to it. The sort of work that I would have done in the past with a child involved direct work with that child, so you got to know them and you could

[195] Cofnod y Trafodion [para 15], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[196] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-19-12(td2), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mehefin 2012
[197] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-18-12(td2), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan BASW Cymru, 21 Mehefin 2012

write the form because you knew that child. There is not the space or the time to do that now."[198]

312. Nododd SEWAS y swmp o waith ysgrifenedig a chyfeiriodd at adroddiad yr Athro Eileen Munro yn Lloegr a ganfu bod gofynion biwrocratiaeth wedi lleihau capasiti gweithwyr cymdeithasol i weithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd[199].

313. Amlygodd peth tystiolaeth y cydbwysedd grym rhwng gweithwyr cymdeithasol sy'n gwneud asesiadau a rhieni sydd am fabwysiadu fel ystyriaeth. Fel y dywedwyd eisoes, crybwyllodd sawl mabwysiadwr iddynt deimlo'n ddi-rym yn y broses. Teimlent fod angen iddynt fod yn oddefol iawn ac yn hynod ufudd er mwyn cael eu hargymell i fabwysiadu a chael eu paru â phlant. Dywedodd Barnardo's Cymru wrthym:

> "[…] it is an intrusive process and it can be perceived as a power imbalance, but that is where the skills of workers come in, in empathising with the people who want to come forward to adopt, and in knowing their situations and their motivation. It is a skill and a very specialist area of work, and so skilled workers can reduce that imbalance."[200]

314. Yn adran 7.3 o'n hadroddiad, derbyniodd y Pwyllgor fod asesiadau cyn mabwysiadu a wneir gan weithlu medrus a phrofiadol yn dyngedfennol. Daethom i'r casgliad hefyd fod y buddsoddiad amser yn egluro canlyniadau posibl asesiad plentyn o safbwynt yr angen am gymorth yn y dyfodol yn gallu lleihau'r risg y bydd rhieni sy'n mabwysiadu yn wynebu sialensiau annisgwyl yn y dyfodol. Teimla'r Pwyllgor fod hwn yn fater allweddol y mae angen rhoi sylw iddo a'i fod yn un na fydd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol arfaethedig yn mynd i'r afael ag ef fel y cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog yn ei thystiolaeth lafar drwy ddweud mai'r awdurdodau lleol fydd yn parhau'n gyfrifol am asesu plant.

**Parhad o ran gweithwyr cymdeithasol yn y broses fabwysiadu**

315. Dywedwyd wrthym mor bwysig yw cadw'r un gweithwyr yn ystod y broses fabwysiadu a bod trosiant staff yn gallu cael effaith negyddol.

---

198 Cofnod y Trafodion [para 230], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
199 The Munro Review of Child Protection: A child-centred system, yr Adran Addysg, 2011
200 Cofnod y Trafodion [para 25], 23 Mai 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Rydym hefyd wedi clywed bod rhywfaint o newid yn anochel oherwydd gwahanol gyfrifoldebau gweithwyr tuag at y plentyn a'r rhieni sy'n mabwysiadu ar wahanol gamau o'r broses.

316. Dywedodd BAAF Cymru wrthym am bwysigrwydd sicrhau parhad o ran ymarferwyr, gan ddatgan:

> "From the point at which a child becomes looked after, there are different team arrangements. There could be an intake team, an assessment team, and a long-term or permanence team, so the case responsibility moves from one team to another and from one worker to another. Within that, there has been for a number of years a frequent turnover of childcare staff." [201]

317. Dywedodd wrthym hefyd fod angen ystyried arbenigedd a gwybodaeth y gweithiwr achos o fewn unrhyw newidiadau strwythurol arfaethedig i'r ffordd y caiff gwasanaethau mabwysiadu eu darparu yn y dyfodol. [202]

318. Roedd Barnardo's Cymru yn rhannu'r farn hon:

> "It is very difficult in local authority services where there is a constant stream of new staff. We have had examples of children who have been adopted, and by the time they are placed, they have had lots of social workers—quite a high number, sometimes. Sometimes our workers know the child as well as the local authority does. That is not to disrespect social workers within local authorities because they are under a lot of pressure." [203]

319. Dywedodd Adoption UK Cymru wrthym:

> "There is a lot of movement even now between one adoption team and another. We try to keep records of who is working in what team, and we cannot keep up because they move around like chess pieces." [204]

---

[201] Cofnod y Trafodion [para 224], 9 Mai 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[202] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(p2a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan BAAF Cymru, 9 Mai 2012
[203] Cofnod y Trafodion [para 102], 23 Mai 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[204] Cofnod y Trafodion [para 225], 9 Mai 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

320. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wrthym ei bod o reidrwydd, lle mae'r gweithwyr yn newid, yn hynod annifyr i deuluoedd wynebu llif cyson o ddieithriaid yn dod i mewn gyda gwybodaeth am eu teulu nhw[205]. Dywedodd Cyngor Caerdydd wrthym ei fod yn wynebu anawsterau gyda gweithwyr cymdeithasol yn newid a'i fod yn gobeithio y bydd ei ymdrechion i greu rolau ar lefel uwch i gefnogi a chynghori gweithwyr cymdeithasol yn golygu ei fod yn cadw mwy o staff.

**Arbenigedd a phrofiad mabwysiadu o fewn gwasanaethau cymdeithasol generig**

321. Mae a wnelo llawer o'r dystiolaeth a glywyd â diffyg arbenigedd a phrofiad mabwysiadu mewn timau generig o weithwyr cymdeithasol. Mae llawer o'r anawsterau a wynebir gan deuluoedd sydd wedi mabwysiadu y clywsom ganddynt wedi codi oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o fabwysiadu ymysg staff rheng flaen megis athrawon a gweithwyr iechyd meddwl. Ymdrinnir â'r materion hyn mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn. Dywedodd Adoption UK Cymru wrthym:

> "It is agreed that centralising the provision of adoption services should allow social workers to develop greater expertise in assessing, training, matching and supporting adopters." [206]

322. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrthym:

> "One common theme running through many of the CSSIW inspection reports is the need for training on adoption and permanency for child care social workers and adoption/permanency panel members.  I would suggest that meeting an identified need for training for these professionals is an essential component of improving assessment and approval processes." [207]

323. Mae tystiolaeth gan weithwyr cymdeithasol a gyflwynwyd fel rhan o dystioaleth NWAS yn cyfeirio sawl gwaith at faterion staffio yn cynnwys manteision cael gweithiwr mabwysiadu ymgynghorol allweddol penodedig mewn timau gofal plant i ddarparu cymorth ac arweiniad i staff sy'n ymgymryd ag achosion sy'n arwain at

---

[205] Cofnod y Trafodion [para 113], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[206] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(p1b), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012
[207] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-18-12(p1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gomisiynydd Plant Cymru, 21 Mehefin 2012

fabwysiadu, ac i gysylltu â'r gwasanaeth canfod teulu i fabwysiadu. Dywedodd:

> "As many social workers only come across adoption cases on occasions it is often unlikely that they are able to build up a vast amount of experience and expertise in the child care teams."

324. Dywedodd Cyngor Caerdydd wrthym mai'r her oedd recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol sydd â'r wybodaeth arbenigol honno mewn hinsawdd lle nad oes gennym ddigon o weithwyr cymdeithasol a lle mae cymaint o symud a phwysau arnynt. Dywedodd wrthym fel yr oedd wedi gostwng y gyfradd swyddi gwag yn y timau gwaith cymdeithasol ond y realiti yw bod ganddynt weithlu sy'n cynnwys nifer fawr o staff dibrofiad. [208]

325. Dywedodd Barnardo's Cymru wrthym ei bod yn bwysig i weithwyr cymdeithasol ddatblygu arbenigedd ac os oes gennych lwyth gwaith generig, mae'n reit anodd sefydlu cydbwysedd mwy na thebyg[209]. Adleisiwyd y farn hon gan Dr Mike Davies a ddywedodd wrthym fod angen lefel bendool o arbenigedd mewn mabwysiadu[210].

326. Dywedodd Cymdeithas Plant Dewi Sant wrthym:

> "One of the things of concern to me is the greater use by local authorities of self-employed social workers, or social workers from disciplines outside fostering and adoption, to undertake adoption assessments. The research points to clear evidence that if adoption social workers do not know the work, it will likely lead to inadequate assessments and a higher breakdown rate." [211]

327. Tynnodd BAAF Cymru sylw hefyd at y rôl bwysig y mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn ei chwarae, gan ddweud:

> "Specific experience in adoption work is variable amongst IRO's and they need to be able to pick up on the signs of a placement experiencing difficulties at an earlier stage. Their role is critical

[208] Cofnod y Trafodion [para 24], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[209] Cofnod y Trafodion [para 104], 23 Mai 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[210] Cofnod y Trafodion [para 178], 23 Mai 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[211] Cofnod y Trafodion [para 112], 23 Mai 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

> and pivotal as they have an overview of the agency's overall functioning as well as the individual child's circumstances."[212]

328. Tynnodd Adoption UK Cymru sylw at y problemau a wynebir gan deuluoedd mabwysiadu sy'n ceisio help pan fydd perygl i drefniant mabwysiadu chwalu:

> "Families who are at risk of breaking down will usually be assessed by the local authority intake team in the same way as any other family where there is a 'children in need' or 'child protection' referral. However, these teams may have little or no knowledge about adoption."[213]

329. Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at ganfyddiadau'r Adolygiad Cyfiawnder Teulu a dywedodd wrthym:

> "The Review (also) makes recommendations for the professional development of social workers, placing more emphasis on child development and training to improve the content of assessments that meet the requirements of the courts when making decisions about children."[214]

### *Gweithwyr arbenigol*

330. Soniodd sawl awdurdod lleol wrthym am fanteision posibl staff arbenigol. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrthym y byddai'n fuddiol datblygu:

> "... specialist Assessment & Care Management Workers to focus on completion of the adoption work for the child including life story work and Child Assessment Reports for Adoption."[215]

331. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn archwilio ffyrdd o gynyddu'r capasiti staff ym maes mabwysiadu yn cynnwys creu 'gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol' gyda gwybodaeth arbenigol i roi cyngor ar fabwysiadu o fewn y tîm gofal plant generig. Roedd

---

[212] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(p2a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan BAAF Cymru, 9 Mai 2012

[213] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(p1a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012

[214] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-24-12(p1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan y Gweinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Gorffennaf 2012

[215] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Ymateb i'r Ymgynghoriad AD10

Cyngor Caerdydd hefyd yn archwilio opsiynau megis cyfuno'u gwasanaethau maethu a mabwysiadu i hybu sefydlogrwydd i blant a lle mae dyletswyddau'n cael eu rhannu'n benodol rhwng staff cymwysedig a staff digymhwyster er mwyn gwneud y mwyaf o'r capasiti. Dywedodd SEWAS wrthym y byddai'n fuddiol cael un person â gwybodaeth fabwysiadu benodol ym mhob tîm gwaith cymdeithasol.

332. Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r ymdrechion y mae rhai awdurdodau lleol yn eu gwneud i wneud yn fawr o wybodaeth arbenigol am faterion mabwysiadu a'i lledaenu.

### Cysylltiadau rhwng timau mabwysiadu a thimau gofal plant

333. Roedd peth tystiolaeth yn amlygu pwysigrwydd y berthynas rhwng gwahanol dimau gwaith cymdeithasol. Dywedodd Cyngor Bwrdeiestref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wrthym fod cysylltiad cryfach rfhwng tîm mabwysiadu'r awdurdod lleol a'r timau gofal plant yn bwysig[216]. Adleisiwyd hyn gan BAAF Cymru a ddywedodd wrthym:

> "The relationship and joint working arrangements between adoption and child care social workers within the local authority is critical as are the dovetailing arrangements between the adoption service [particularly if sited within a shared Service] and the permanence functions and specific duty towards the individual child retained by the local authority."[217]

### Y goblygiadau i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol arfaethedig

334. Dywedodd BASW Cymru wrthym fod potensial i'r Gwasanaeth newydd arfaethedig gael ei weld fel lle 'elit' i weithio ynddo; y bydd pobl hynod fedrus o'r awdurdod lleol am fynd yno; ac y gallai adael yr awdurdod lleol heb gynifer o staff ag a ddylai fod ganddo. Dywedodd:

> "When establishing this service, consideration should be given to everyone working in adoption being provided with the same training and skill opportunities, thus providing an equitable work force. The role of the social worker in the local authority adoption agency will be just as challenging and in need of a

---

[216] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-19-12(p2), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mehefin 2012

[217] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(p2a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan BAAF Cymru, 9 Mai 2012

> strong professional base of adoption knowledge and best practice as the National Adoption Service role will be."[218]

335. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

> "We are open, as regards the previous question, about staff remaining in local authorities. I see the need for staff to work locally, to prepare this work and to be there for the adoption plan, the court reports and so on, but there is no necessity for them to remain employed by that local authority as an individual local authority."[219]

**Hyfforddiant cychwynnol a datblygiad proffesiynol parhaus**

336. Argymhellodd Dr Alan Rushton hyn:

> "Specialist professional university based adoption work courses are needed with academic accreditation to improve skills and gain up-to-date knowledge, giving practitioners greater opportunity to read and critique relevant research. These would be of benefit to teachers and other school staff, to psychologists, medical professionals and social workers."[220]

337. Dywedodd rhiant a ddarparodd dystiolaeth fel rhan o gyflwyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrthym y byddai cynnwys mabwysiadwyr yn yr hyfforddiant a'r datblygiad proffesiynol parhaus yn cynyddu'r wybodaeth am fabwysiadu a'r ddealltwriaeth ohono.[221]

**Argymhelliad 15: Materion gweithlu**
**Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chyngor Gofal Cymru a CLlLC i adolygu'r 'strategaeth gweithlu' gwaith cymdeithasol mewn perthynas â mabwysiadu, yn benodol gan nodi bylchau yn yr wybodaeth am ddatblygiad plant a theori ymlyniad a mynd i'r afael â'r bylchau hynny. Dylai'r adolygiad edrych ar anghenion staff yn y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac, yr un mor bwysig, ar anghenion gweithwyr cymdeithasol mewn awdurdodau lleol sy'n gwneud gwaith asesu sefydlogrwydd a chynllunio gyda phlant.**

---

[218] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-18-12(p2a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan BASW Cymru, 21 Mehefin 2012
[219] Cofnod y Trafodion [para 85], 19 Gorffennaf 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[220] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-17-12(p3), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Dr Alan Rushton, 13 Mehefin 2012
[221] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Ymateb i'r Ymgynghoriad AD10

**Dylai fod gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol rôl arweiniol yn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus y gweithlu o safbwynt materion mabwysiadu.**

Gweithredu Manwl

- **dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Gofal Cymru weithio gyda phrifysgolion sy'n darparu rhaglenni gwaith cymdeithasol cymhwyso ac ôl-gymhwyso i nodi ac, os oes raid, i fynd i'r afael â bylchau ym maes mabwysiadu yn cynnwys datblygiad plant a theori ymlyniad, y gyfraith, polisi ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth.**

# 11. Cynigion am Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol

338. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei dogfen ymgynghorol am *Fil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)* ar 12 Mawrth 2012. Mae'r ddogfen ymgynghorol yn cynnig y dylid rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i fynnu bod yr holl awdurdodau lleol (asiantaethau mabwysiadu) yn dod ynghyd i ffurfio un Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol[222]**.** Ni fyddai'r Gwasanaeth newydd yn gweithredu fel asiantaeth fabwysiadu: byddai asiantaethau yn parhau ym mhob awdurdod lleol ac yn dal i reoli achosion unigol.

339. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Gweithgor Arbenigwyr ar Fabwysiadu a'r dybiaeth yw y bydd yn ystyried cylch gwaith a swyddogaethau'r Gwasanaeth Cenedlaethol.

### Cefnogaeth drwyddi draw i'r cysyniad o Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol

340. Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chael yn awgrymu cefnogaeth drwyddi draw i'r egwyddor o Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, gan asiantaethau a rhieni fel ei gilydd. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i dynnu sylw, fodd bynnag, at y ffaith bod ein canfyddiadau'n awgrymu y dylai'r mandad i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â chynigion am wasanaeth o'r fath yn eu ffurf bresennol gael ei drin â gofal. Mae'r dystiolaeth a glywsom yn awgrymu bod gwahaniaeth sylweddol rhwng yr hyn y mae'r rhai a ddarparodd dystiolaeth inni yn disgwyl y byddai Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn ei ddarparu, a'r cynigion fel y maent wedi'u nodi gan y Dirprwy Weinidog ar hyn o bryd.

341. Amlinellodd Jocelyn Davies AC y pryderon hyn wrth y Dirprwy Weinidog:

> "You mentioned the overwhelming support for the national adoption service, and we certainly found that, but I would put it to you that it depended what they thought it was going to be.

[222] Ar hyn o bryd mae 15 asiantaeth fabwysiadu wahanol yng Nghymru. Mae deuddeg awdurdod lleol wedi ffurfio tri chonsortiwm rhanbarthol i ddarparu gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdodau lleol: Gogledd Cymru; Gorllewin Cymru; a De-ddwyrain Cymru. Hefyd, mae'r deg awdurdod lleol sy'n weddill yn Ne Cymru yn cydweithio ar leoliadau. Mae dwy asiantaeth fabwysiadu wirfoddol wedi'u lleoli yng Nghymru hefyd: Cymdeithas Plant Dewi Sant a Gwasanaeth Mabwysiadu a Maethu Barnardo's Cymru.

> They were generally very supportive of what they would like it to be, but I do not think that any of them have described what you have laid out for us today."[223]

342. Yng nghyd-destun y gefnogaeth gyffredinol i'r cysyniad o Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, dywedodd CLILC wrthym fod meysydd clir a diffiniedig lle byddai'n fanteisiol diwygio. Mae Cymdeithas Plant Dewi Sant yn llwyr gefnogi'r cynigion ac yn dweud y dylai Gwasanaeth Cenedlaethol leihau oedi a sicrhau gwell canlyniadau i blant wedi'u mabwysiadu; darparu mwy o ddewis o ddarpar fabwysiadwyr i blant; a sefydlu targedau clir o ran cwblhau asesiadau, lleoli a chwtogi oedi. Mae Barnardo's Cymru yn rhoi croeso pwyllog i'r cynigion fel cyfle i safoni a gwella'r ddarpariaeth a'i chydlynu'n well. Mae Adoption UK Cymru o'r farn bod y cynigion yn mynd i'r afael â'r amrywiadau yn y ddarpariaeth gwasanaethau mabwysiadu y cyfeiriwyd atynt yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

343. O'r dystiolaeth a roddwyd gan rieni, roedd gan nifer o deuluoedd farn glir ynglŷn â chreu un gwasanaeth mabwysiadu, ac mae peth o'r dystiolaeth arall yn yr adroddiad hwn hefyd yn ein goleuo am hyn. Roedd y rhan fwyaf o deuluoedd a oedd â barn ar y mater yn meddwl y byddai un gwasanaeth mabwysiadu yn gam cadarnhaol ymlaen. Roedd hynny am y rhesymau a ganlyn: ymateb cliriach a mwy cyson i ddarpar fabwysiadwyr; paru cyflymach a mwy llwyddiannus o gael cronfa gychwynnol fwy o fabwysiadwyr a phlant; gwasanaethau hyfforddi a chymorth ôl-fabwysiadu mwy cyson, o well safon; a throthwyon a safonau cenedlaethol o ran darparu cymorth ôl-fabwysiadu. Roedd nifer fach iawn o deuluoedd yn gwrthwynebu'r cysyniad o wasanaeth cenedlaethol gan eu bod yn ofni y câi'r gwasanaeth lleol rhagorol a gawsant hwy a'u plant ei wanhau mewn gwasanaeth mwy, gyda llai o wybodaeth leol a pherthynas â staff lleol.

344. Mae'r Pwyllgor yn llwyr o blaid ac yn gymeradwyo'r cysyniad wrth wraidd cynigion Llywodraeth Cymru am Wasanaeth Cenedlaethol ond mae angen i Wasanaeth Cenedlaethol **fod â rôl gyflenwi fwy sylweddol o lawer na'r model sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd.** Mae angen newid sylweddol i fynd i'r afael â'r diffygion amrywiol yn y gwasanaethau mabwysiadu cyfredol. Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol fod â chylch gwaith i gyflawni'r rhan fwyaf o'r newidiadau hynny.

---

[223] Cofnod y Trafodion [para 66], 19 Gorffennaf 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**Cylch gwaith a swyddogaethau Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol**

345. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig darparodd y Dirprwy Weinidog y manylion canlynol ynghylch creu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi'i seilio ar y cynigion yn y ddogfen ymgynghorol:

> "We want to identify aspects of the adoption process that are best performed at a national level, whilst recognising that there are functions that should remain the responsibility of individual local authorities – achieving change without detriment.(…)"

346. Our current thinking is that the National Adoption Service would be responsible for:

- providing National leadership and overview of adoption services (linking to Standards, performance and improvement);
- a framework for adoption approvals (including panels);
- establishing a resource hub, to provide a gateway for potential adopters, providing - information on training programs, information on assessment process and advice line; and
- promoting adoption, if in best interest of the child, recruiting prospective adopters and the development of a specialist and highly skilled workforce.[224]

347. Mae'r dystiolaeth gan rieni yn awgrymu y dylai swyddogaethau gwasanaeth cymorth mabwysiadu cenedlaethol gynnwys, o leiaf: darparu ymateb cychwynnol un stop i ymholiadau ynglŷn â mabwysiadu, sicrhau ymateb a ffrâm amser gyson o ran dechrau asesu mabwysiadwyr ar draws Cymru, sicrhau ansawdd a chysondeb asesiadau a hyfforddiant cychwynnol, cynhyrchu arweiniad clir ('mapiau ffordd') i'r broses fabwysiadu, darparu gwasanaeth paru cenedlaethol, sicrhau bod y trothwyon o ran hawl i gymorth ôl-fabwysiadu yn gyson ar draws Cymru, mapio a chomisiynu gwasanaethau cymorth mabwysiadu arbenigol, arwain ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ar gyfer y cyhoedd a darparu cyngor a hyfforddiant i wasanaethau prif ffrwd fel darparwyr iechyd ac addysg. Roedd rhai teuluoedd hefyd o blaid gwasanaeth a fyddai'n darparu (yn hytrach na chydlynu) yr holl asesu, hyfforddi, paru a chymorth ôl-fabwysiadu.

[224] Dogfen ymgynghorol Llywodraeth Cymru ar *Fil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)* ar 12 Mawrth 2012.

348. Dadleuai un rhiant a gyfrannodd at dystioaleth Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gryf y byddai cynnwys mabwysiadwyr wrth ddylunio gwasanaethau, eu cynllunio, eu rhoi ar waith a'u hadolygu yn gwella'r gwasanaeth ac yn sicrhau ei fod yn cyfateb yn well i anghenion teuluoedd sy'n mabwysiadu. Dadleuai hefyd nad oes defnydd digonol yn cael ei wneud o'r swmp o wybodaeth a phrofiad sydd gan fabwysiadwyr. Mynegodd rhai o'r rhieni a roddodd dystiolaeth yn uniongyrchol i'r Pwyllgor hefyd y farn hon.

*Rhannu cyfrifoldebau ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol*

349. Dywedodd llawer o sefydliadau wrthym eu bod yn cytuno â swyddogaethau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol arfaethedig fel y'u nodwyd yn y ddogfen ymgynghorol[225]. Fodd bynnag, fel y dywedwyd ym mharagraff 336 o'r adroddiad hwn, nid yw'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi bod pawb yn rhannu'r un ddealltwriaeth o ran sut y bydd y gwasanaeth arfaethedig yn gweithio, a'r goblygiadau o ran sut y caiff gwasanaethau mabwysiadu eu cyflenwi.

350. Er ei bod yn cytuno â rhai o'r cyfrifoldeb arfaethedig, dywedodd BASW Cymru[226] wrthym y byddai'n bwysig ystyried y rhain eto pan fyddant yn ymdrin yn fwy penodol â thasgau.

351. Cynigiodd CLlLC/ADSS fodel tair haen, gan ychwanegu haen ranbarthol i'r model a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru. Dyma grynodeb byr o'u cynigion:

- swyddogaethau cenedlaethol, yn cynnwys: bod y pwynt cyswllt cyntaf â darpar fabwysiadwyr; strategaeth recriwtio genedlaethol, cofrestr fabwysiadu genedlaethol, swyddogaeth casglu data ac ymchwil; peirianwaith adolygu annibynnol; a datblygu'r gweithlu;
- swyddogaeth ranbarthol (byddai angen newid deddfwriaethol a rheoleiddiol ar gyfer hynny) fel bod modd sefydlu asiantaethau rhanbarthol – awdurdodau lleol unigol sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon ar hyn o bryd – yn cynnwys: cwnsela cam cyntaf i ddarpar fabwysiadwyr; recriwtio/asesu wedi'i dargedu i bob darpar fabwysiadwr; datblygu'r gweithlu; hyfforddi darpar

---

[225] Dogfen ymgynghorol Llywodraeth Cymru ar *Fil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)* ar 12 Mawrth 2012.
[226] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-18-12(p2a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol gan BASW Cymru, 21 Mehefin 2012

fabwysiadwyr a'r rhai sydd wedi'u cymeradwyo; rheoli panel mabwysiadu sy'n argymell cymeradwyo; cysylltu plant unigol â darpar deuluoedd mabwysiadu posibl; asesu cymorth ôl-fabwysiadu gan y gwasanaeth; rheoli trefniadau cyswllt ôl-fabwysiadu; cydweithio â chydweithwyr amlddisgyblaethol – iechyd, addysg; hwyluso grwpiau cymorth i deuluoedd sy'n mabwysiadu, teuluoedd biolegol a phlant sydd wedi'u mabwysiadu;

- swyddogaethau lleol yn cynnwys penderfyniadau ynglŷn â chynllunio gofal, paru plant unigol â darpar fabwysiadwr sydd wedi'i enwi; cyflenwi gwasanaethau cymorth ôl-fabwysiadu sydd wedi'u hasesu; gweithio gyda rhieni biolegol a brodyr a chwiorydd.

352. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

> "I do recognise, (however), that both the Welsh Local Government Association and the Association of Directors of Social Services have proposed alternative means of delivering greater efficiency for example through use of regional collaborations underpinning the national arrangement and we shall consider carefully the merits of their proposal." [227]

353. Darparodd Cymdeithas Plant Dewi Sant fodel arfaethedig manwl a strwythur staffio hefyd i'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol arfaethedig ymgymryd ag ystod ehangach o swyddogaethau yn cynnwys:

- bod yn un pwynt cyfeirio i'r holl blant sydd â chynllun mabwysiadu;
- sefydlu a chynnal cofrestr o'r holl blant sydd â chynllun mabwysiadu a chofrestr debyg o fabwysiadwyr wedi'u cymeradwyo sydd ar gael;
- cyfrifoldeb am recriwtio, hyfforddi a chymeradwyo darpar fabwysiadwyr newydd;
- cyfrifoldeb cychwynnol am ganfod ac argymell cysylltu arfaethedig rhwng plant a darpar fabwysiadwyr;

[227] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-24-12(p1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Gorffennaf 2012

- cyfrifoldeb am sicrhau bod plant yn cael eu paratoi ar gyfer mabwysiadu a bod llyfrau profiadau bywyd yn cael eu cadw;
- gweithredu fel yr asiantaeth sy'n cefnogi'r lleoliad nes i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud.

354. Hefyd, darparwyd strwythur staffio posibl manwl.

355. Amlinellodd BASW Cymru y dylai'r gwasanaeth newydd ddatblygu polisïau recriwtio cryf; a datblygu gwasanaethau ar gyfer y plant hynny sy'n fwy anodd eu lleoli. Tynnodd sylw hefyd at ystod o rolau posibl eraill yn cynnwys: comisiynu Gwasanaeth Cymorth Mabwysiadu; sefydlu Cofrestr Fabwysiadu i Gymru; sefydlu Llinell Gymorth Fabwysiadu Genedlaethol i blant a mabwysiadwyr; safoni polisïau a gweithdrefnau, systemau TG a safoni lwfansau mabwysiadu ariannol; casglu data; a chynnig gwasanaeth i rieni biolegol.

356. Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y byddai'r Gwasanaeth Cenedlaethol arfaethedig yn atebol i'r awdurdodau lleol[228]. Dywedodd wrthym hefyd fod Llywodraeth Cymru yn agored i drafodaeth am y strwythur staffio gorau ac nad oedd cynigion pendant hyd yma ynglŷn â threfniadau staffio'r Gwasanaeth arfaethedig. Mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor am ragor o fanylion am rannu cyfrifoldebau penodol rhwng asiantaethau mabwysiadu a'r Gwasanaeth Cenedlaethol, darparodd y Dirprwy Weinidog ddiagram ac eglurodd y byddai'r newidiadau arfaethedig yn creu gwasanaeth sy'n 'eiddo i'r awdurdodau lleol'. [229]

357. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym mai nod Llywodraeth Cymru yw trawsnewid y gwasanaethau mabwysiadu. [230] Mae'r Pwyllgor yn unfrydol ei farn na chaiff y nod hwn ei wireddu, oni cheir canoli mwy sylweddol ar swyddogaethau ar lefel genedlaethol.

358. Ein dealltwriaeth ni o'r cynigion newid cyfredol yw eu bod rhychwantu continwwm. Ar un pen mae cynnig Llywodraeth Cymru am wasanaeth â swyddogaethau cenedlaethol mwy cyfyngedig; yn y canol mae model mwy rhanbarthol CLlLC; ar ben arall y sbectrwm mae

---

[228] Cofnod y Trafodion [para 19], 19 Gorffennaf 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[229] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-25-12(p1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, 26 Medi 2012
[230] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-24-12(p1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Gorffennaf 2012

cynigion Cymdeithas Plant Dewi Sant sy'n dadlau o blaid darparu llawer mwy o swyddogaethau yn ganolog.

359. Ar ddiwedd ein hymchwiliad, mae angen inni fod yn siŵr y bydd y newidiadau sy'n cael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru yn gwireddu'r canlyniadau angenrheidiol i blant a fabwysiadir a'u teuluoedd.

360. Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd ei argymhelliad cyntaf yn yr adroddiad hwn, sef y **dylai rôl cyflenwi gwasanaeth uniongyrchol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol gael ei chryfhau'n sylweddol o'r hyn sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn nogfen ymgynghorol *Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru).* Dylai fod ganddo rôl gyflenwi ganolog a staff ar gyfer ystod o wasanaethau mabwysiadu. Ni ddylai fod yn 'eiddo i'r awdurdodau lleol' fel sydd wedi'i nodi yn y cynigion presennol.**

361. **Oni wneir newidiadau sylweddol i gynigion presennol Llywodraeth Cymru am Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, caiff cyfle o bwys ei golli i wneud gwelliannau y mae mawr eu hangen ym mywydau teuluoedd sy'n mabwysiadu a rhai o'r plant mwyaf bregus yng Nghymru.**

### Atebolrwydd o fewn y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a chyflenwi gweithredol

362. Er mai mater i Lywodraeth Cymru yw ystyried sut y bydd y model y cytunir arno'n derfynol i Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn gweithredu'n ymarferol, mae'r Pwyllgor am dynnu sylw at yr hyn a ddylai yn ei farn ef fod yn rhan annatod o'r Gwasanaeth newydd, fel a ganlyn: dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol gyflogi staff ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Dylai'r rôl arweiniol o fewn y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol fod yn uwch rôl annibynnol, yn adrodd i fwrdd amlasiantaethol, a dylai fod yn atebol yn y pen draw i'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru. Y bwrdd amlasiantaethol hwn ddylai oruchwylio cyferiaid strategol a swyddogaethau gweithredol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a dylai gael ei gadeirio gan rywun sy'n eistedd y tu allan i'r sector statudol. Dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol fod yn atebol i un o Weinidogion Cymru yn hytrach nag i'r awdurdodau lleol.

**Argymhelliad 16: Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol**
**Dylai Gweithgor Arbenigol Llywodraeth Cymru edrych yn fanwl ar y model ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar sail**

**argymhellion y Pwyllgor. Dylai'r Dirprwy Weinidog ddychwelyd a briffio'r Pwyllgor ynglŷn â manylion y model, unwaith y bydd y newidiadau i'w chynigion wedi cael eu datblygu ymhellach.**

**Gweithredu Manwl:**

- **dylai Llywodraeth Cymru edrych yn fanwl ar fodel rheoli ac atebolrwydd i Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, wedi'i seilio ar y fframwaith a argymhellwyd gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc (fel yr amlinellwyd ym mharagraff 357 o'r adroddiad hwn), a'i symud ymlaen.**
- **dylai barn rhieni sy'n mabwysiadu ddylanwadu ar ddatblygiad y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod systemau ystyrlon wedi cael eu sefydlu er mwyn i fabwysiadwyr gymryd rhan yn y gwaith parhaus o ddatblygu a chyflenwi Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.**
- **dylai Llywodraeth Cymru ystyried y ffordd orau o symud gwaith ynglŷn â mabwysiadu gan lysrieni ymlaen, yng nghyd-destun creu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.**

**Rôl y sector gwirfoddol**

363. Mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at y rôl bwysig y mae Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol a'r sector gwirfoddol ehangach yn ei chwarae o ran darparu gwasanaethau mabwysiadu a chymorth. Dywedodd Adoption UK Cymru wrthym ei bod yn bwysig peidio â cholli arbenigedd sylweddol y sector gwirfoddol yn y cynigion newydd:

> "Currently some of the best practice resides within the voluntary sector and it is important that this isn't lost in any move to a National Service. Rather the voluntary sector should be engaged as a full partner in any new system and good practice build on where ever it exists." [231]

364. Dywedodd CLlLC / ADSS / BAAF Cymru[232] wrthym:

---

[231] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(p1b), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol gan Adoption UK Cymru, 9 Mai 2012

[232] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-19-12(p2a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y

> "We also recognise the unique expertise the voluntary sector brings to adoption and adoption support in Wales and will work collaboratively with them to scope out the detail of any proposed implementation of adoption reform."

365. Galwodd Barnardo's Cymru am fwy o gydnabyddiaeth o rôl asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol o fewn y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol arfaethedig. Dywedodd wrthym:

> "We have expertise which brings clear added value to such areas as adoption placements for children with complex needs, for children from specific religious and ethnic backgrounds and post adoption support." [233]

366. Roedd peth tystiolaeth yn nodi'r cyfrifoldebau ychwanegol a ysgwyddir gan awdurdodau lleol o'u cymharu ag asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol ynghyd â'r argraff bod costau ychwanegol ynghlwm wrth leoliadau asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol[234] [235].

367. Awgrymodd Barnardo's Cymru a Chymdeithas Plant Dewi Sant fod cyfleoedd i archwilio gwell trefniadau cydweithio a phartneriaeth rhwng asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol ac awdurdodau lleol. Fel enghraifft cyfeiriodd Cymdeithas Plant Dewi Sant at y bartneriaeth hynod lwyddiannus[236] rhwng Coram a Bwrdeistref Harrow yn Llundain.

368. Mewn ymateb i gwestiynau gan Rebecca Evans AC, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod yna wasanaethau cefnogi a gaiff eu darparu orau gan y sector gwirfoddol. Dywedodd hefyd y byddai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol arfaethedig yn eiddo i'r awdurdodau lleol a bod hyn yn golygu na ellid rhoi'r gwaith allan i'r sector gwirfoddol. [237]

369. Mae'r Pwyllgor yn argyhoeddedig o'r manteision a ddarperir gan asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol a'r ystod eang o fudiadau

---

Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a BAAF Cymru, 21 Mehefin 2012

[233] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(p2b), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol gan Barnado's Cymru, 23 Mai 2012

[234] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-19-12(p1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, 21 Mehefin 2012

[235] Cofnod y Trafodion [para 264], 21 Mehefin 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

[236] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-15-12(p1), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gymdeithas Plant Dewi Sant, 23 Mai 2012

[237] Cofnod y Trafodion [para 90], 19 Gorffennaf 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

gwirfoddol eraill o ran darparu gwasanaethau mabwysiadu. Mae'n ganolog i ddatblygiad y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol fod y mudiadau hyn yn chwarae rôl ganolog wrth ei ddatblygu a'i roi ar waith.

**Goblygiadau daearyddol**

370. Tynnodd peth o'r dystiolaeth sylw at faterion ymarferol a goblygiadau gwasanaeth mabwysiadu sy'n gweithredu dros ardal ddaearyddol ehangach. Soniwyd wrthym am fanteision gwybodaeth a rhwydweithiau lleol ond hefyd am anfanteision diffyg crynodiad o wybodaeth arbenigol a chyfleoedd paru cyfyngedig yn yr ardaloedd lleol.

371. Dywedodd SEWAS wrthym:

> "Local recruitment is also important in terms of an awareness of the local situation, where advertising is effective and knowledge of the community and how it responds to such campaigns. It is important that any national, regional and local recruitment is co-ordinated and giving the same messages." [238]

372. Amlygodd y sesiynau tystiolaeth gyda rhieni yn Wrecsam ac Arberth yn arbennig, ond hefyd rai sylwadau ysgrifenedig gan rieni, agweddau daearyddol cadarnhaol a negyddol mabwysiadu. Dywedwyd bod rhai timau mabwysiadu gwledig, bach, yn adnabod eu cymunedau, eu plant a'r teuluoedd sy'n mabwysiadu yn dda, gan arwain at amgylchedd cefnogol a pharu da (gwnaed y sylw hwn hefyd am o leiaf un awdurdod mwy, yn y cymoedd). Roedd gan rai bryderon ynglŷn â chynnal cyfrinachedd eu plant mewn cymunedau bach, yn enwedig lle'r oedd y teuluoedd biolegol o'r un rhanbarth. Roedd sawl teulu'n cael anhawster i gael ymateb gan awdurdod lleol cychwynnol eu plentyn pan oedd hwn bellter i ffwrdd a'u bod am gael gwasanaethau cymorth. Mae trosiwnt staff uchel yn dwysau'r anhawster hwn.

> "Case study: A family in South Wales adopted a child from North Wales. During the introductory period the adoptive family had to stay in a hotel, which was made more difficult by the foster family's resistance to the plan. Contact visits by the birth

[238] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru, Ymateb i'r Ymgynghoriad AD19

family stopped due to the birth family’s difficulty in travelling the distance to the adoptive home.”

373. Bydd y materion hyn yn ystyriaethau pwysig wrth lunio manylion penodol sut mae bwrw ymlaen i weithio ar lefel fwy rhanbarthol a chenedlaethol.

## 12. Data mabwysiadu cyfyngedig

374. Cawsom dystiolaeth gan amryw o sefydliadau yn awgrymu bod anawsterau'n deillio o'r gwaith cyfyngedig yn casglu a chyhoeddi data mabwysiadu a bod hynny yn ei dro yn cyfyngu ar fonitro tryloyw a gwelliannau i'r gwasanaeth. Dywedodd BASW Cymru wrthym:

> "One of the issues for the 22 local authorities, the 4 consortia and the Welsh Government has been the collation of vital information and statistics on Adoption. Without accurate information, it is difficult to address need [...]. The National Adoption Service could be in a prime position to address this shortfall, and become a repository for information and data collection." [239]

375. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrthym am ddiffyg eglurder, gan ddatgan:

> "Professionals working in the field were not clear as to the measures which had been put in place to monitor adoptions and track progress except via the triennial inspection regime. The end of year statistical return figures capture some data but they do not give a clear profile of need or the reasons for delay in children being adopted." [240]

376. Dywedodd Gwasanaeth Mabwysiadu Gorllewin Cymru a Chyngor Sir Ceredigion (ymateb ar y cyd) wrthym hefyd am ddiffygion yn monitro agweddau penodol o'r broses fabwysiadu:

> "There is little or no tracking of review decisions, timescale through to Panel & court decision, then stages including those introductions which break down & child needs to come back to selection process. More robust information on these timescales and reasons for delays would be helpful to ensure improvement in the system." [241]

---

[239] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-18-12(p2a), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan BASW Cymru, 21 Mehefin 2012
[240] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Ymateb i'r Ymgynghoriad AD10
[241] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-19-12(p2), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mehefin 2012

377. Dywedodd Barnardo's Cymru wrthym mor bwysig yw canolbwyntio ar y canlyniadau i blant a gobeithiai y gallai hyn gael ei gyflawni o ganlyniad i'r cynigion am 'fframwaith canlyniadau cenedlaethol' o fewn cynigion Llywodraeth Cymru am Wasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Dywedodd:

> "In our view, there is a danger that monitoring is based around numbers and statistics and that these do not take into account the 'real life' outcomes for adoption. Adoption is a lifelong process and does not end once a child is adopted. More qualitative measures should therefore be developed to accurately reflect the adoptive experience for both adoptive parents and adopted children." [242]

378. Cyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yr achos o blaid rhoi rôl gryfach i gonsortia rhanbarthol yng nghyswllt data a nodi tueddiadau. Dywedodd wrthym fod gwybodaeth gywir, gyflym, am dueddiadau yn galluogi asiantaethau i newid ac ymaddasu'n strategol i anghenion gwasanaeth sy'n newid.

379. Awgrymodd sawl tyst y gallai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol arfaethedig fod â rôl yn casglu a monitro data. Awgrymodd CLILC/ADSS y gallai'r Gwasanaeth Cenedlaethol arfaethedig dracio'r canlyniadau i blant unigol; tracio'r canlyniadau i ddarpar fabwysiadwyr o'u hymholiad hyd at leoliad; a datblygu data fel sail i gyflenwi'r gwasanaeth. Dywedodd BAAF Cymru wrthym y gallai Gwasanaeth Cenedlaethol goladu data, dadansoddi tueddiadau a phlotio amrywiadau mewn diddordeb o wahanol ranbarthau. Dywedodd BASW Cymru wrthym y gallai Gwasanaeth Cenedlaethol fod mewn sefyllfa arbennig i fynd i'r afael â chyfyngiadau'r data cyfredol a dod yn ystorfa ar gyfer gwybodaeth a chasglu data.

**Gweithredu Manwl: Casglu data a monitro**

- **dylai fod gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol rôl benodol yn casglu, monitro a chyhoeddi ystod lawn o ddata mabwysiadu (yn cynnwys data ansoddol lle mae'n berthnasol) er mwyn dylanwadu ar gyflenwi gwasanaethau a nodi tueddiadau gan ganolbwyntio ar wella'r canlyniadau i blant.**

---

[242] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Papur CYP(4)-13-12(p2b), *Ymchwiliad i Fabwysiadu*, Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol gan Barnado's Cymru, 23 Mai 2012

# Atodiad A: Crynodeb a dadansoddiad o dystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan deuluoedd sy'n mabwysiadu wedi ei baratoi gan Dr Sally Holland

## 1) Proffil y mabwysiadwyr sy'n darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor

Mae'r ymchwiliad wedi derbyn 23 o gyflwyniadau ysgrifenedig gan deuluoedd sy'n mabwysiadu. Roedd tri o'r rhain yn ddienw, wedi cael eu hanfon ymlaen gan asiantaethau mabwysiadu. Hefyd, mae setiau o ymatebion wedi'u casglu ynghyd (ond sy'n cynnwys dyfyniadau uniongyrchol hir) gan asiantaethau mabwysiadu: Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent, Consortiwm Gogledd Cymru. Casglodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ymatebion gan nifer o asiantaethau mabwysiadu, ac roedd rhywfaint o'r dystiolaeth honno'n cynnwys dyfyniadau uniongyrchol gan fabwysiadwyr yn arbennig ar gyfer yr ymchwiliad. Cynhaliodd un grŵp cefnogi mabwysiadu gyfarfod arbennig i drafod yr ymchwiliad, a chyflwynodd sylwadau ysgrifenedig gan y grŵp.

Rhoddodd aelodau o 37 o deuluoedd sy'n mabwysiadu (gan gynnwys saith o bobl ifanc mewn sesiwn grŵp) dystiolaeth lafar mewn cyfarfodydd preifat, anffurfiol ag is-grwpiau'r pwyllgor. Mae rhai o'r rhain wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig hefyd, ond nid pob un. Rydym yn amcangyfrif bod gennym dystiolaeth uniongyrchol neu a gafodd eu chasglu ymlaen llaw gan o leiaf 60 o deuluoedd unigol sy'n mabwysiadu.

Cynhaliwyd chwech o sesiynau tystiolaeth preifat gyda theuluoedd rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf yng Nghaerdydd, Narberth a Wrecsam. Ar yr adegau hyn, mae is-grwpiau'r pwyllgor wedi cyfarfod â rhieni sy'n mabwysiadu, a'u plant weithiau hefyd. Cynhaliwyd un sesiwn yng Nghaerdydd gyda grŵp o saith o bobl ifanc wedi'u mabwysiadu. Mae aelodau'r Pwyllgor wedi nodi bod y sesiynau tystiolaeth hyn wedi bod yn llawn gwybodaeth ac yn ddefnyddiol iawn. Mae amgylchiadau teulu'r teuluoedd sydd wedi cymryd rhan yn amrywio'n helaeth. Clywodd yr ymchwiliad gan fabwysiadwyr sengl, mabwysiadwyr plant hŷn, mabwysiadwyr o hil wahanol i'r plant, mabwysiadwyr Cymraeg eu hiaith a chyplau o'u un rhyw. Mae'r profiadau amrywiol hyn yn ychwanegu at y dystiolaeth a ddarparwyd

gan y teuluoedd hynny sy'n cynrychioli'r rhan fwyaf o fabwysiadwyr yng Nghymru a'r rhan fwyaf o bobl a gymerodd ran yn ein hymchwiliad: cyplau heterorywiol, gwyn Cymraeg neu Brydeinig, sy'n mabwysiadu plant cyn-ysgol o gefndiroedd ethnig gwyn.

Mae'r mabwysiadwyr wedi cael amrywiaeth eang o brofiadau ac wedi mabwysiadu drwy asiantaethau mabwysiadu awdurdodau lleol yng Nghymru ac asiantaethau mabwysiadu Dewi Sant a Barnardo's. Cyfeiriwyd at y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yng Nghymru yn y dystiolaeth gan y teuluoedd, gydag amryw o deuluoedd wedi cael profiadau gyda mwy nag un awdurdod lleol. Mae pob un o'r plant wedi cael eu mabwysiadu o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Mabwysiadwyd nifer o blant a oedd ag anableddau wedi'u nodi. Mae amryw o'r rhai eraill wedi profi anawsterau yn ymwneud ag anhwylderau ymlyniad ac anawsterau ymddygiad. Yn aml iawn, daeth yr anawsterau hyn i'r amlwg sawl blwyddyn ar ôl mabwysiadu.

Mae'r ymchwiliad wedi clywed tystiolaeth gan ddau deulu lle bu'n rhaid i'r awdurdod lleol letya eu plant a oedd yn eu harddegau oherwydd problemau ymddygiad, a hynny sawl blwyddyn ar ôl eu mabwysiadu. Mae teulu arall wedi mabwysiadu plentyn a oedd wedi cael profiad o fabwysiadu'n chwalu a derbyniodd y plentyn a'r rhieni hyfforddiant a chefnogaeth therapiwtig ardderchog gan asiantaeth annibynnol.

Roedd y plant rhwng 3 mis a 9 oed ar adeg y lleoli. Mae teuluoedd wedi mabwysiadu rhwng un a thri o blant. Roedd y rhan fwyaf o blant yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod os nad oeddent yn cael eu symud yn syth ar ôl iddynt gael eu geni oherwydd pryderon gyda brodyr a/neu chwiorydd hŷn. Ganed amryw o'r plant yn gaeth i gyffuriau. Mae'n ymddangos bod y rhieni biolegol wedi herio'r rhan fwyaf o'r cynlluniau mabwysiadu.

Mae'r mabwysiadwyr wedi bod ar wahanol gyfnodau yn y broses fabwysiadu wrth ddarparu'r dystiolaeth. Roedd nifer fechan o deuluoedd wedi cwblhau asesiadau ac yn aros i gael eu paru â phlentyn. Roedd rhai wedi mabwysiadu sawl blwyddyn yn gynharach.

Dylid nodi bod nifer fechan o deuluoedd biolegol neu berthnasau plant a oedd wedi cael eu mabwysiadu wedi cysylltu â'r ymchwiliad. Mae eu profiadau yn rhan bwysig o'r profiad o fabwysiadu. Penderfynodd y pwyllgor y byddai cynnwys tystiolaeth teuluoedd biolegol yn mynd y tu

hwnt i amser a chylch gwaith yr ymchwiliad, ond roedd profiad y rhieni biolegol a'r brodyr a/neu chwiorydd yn rhan o'r dystiolaeth gan rai teuluoedd, yn arbennig y bobl ifanc, ac yn rhywfaint o'r dystiolaeth gan asiantaethau.

Yn gryno, gellir dod i'r casgliad bod y teuluoedd sy'n mabwysiadu sydd wedi cymryd rhan yn yr ymchwiliad yn cynrychioli'r rhan fwyaf o nodweddion demograffig mabwysiadwyr yng Nghymru. Yr unig grwpiau nad yw'r ymchwiliad wedi clywed ganddynt yw'r rhai hynny a ddechreuodd ar y broses o fabwysiadu, ond a benderfynodd beidio â mynd ymlaen â hynny, a'r rhai hynny a gafodd eu gwrthod fel mabwysiadwyr.

**2). Themâu sy'n codi o dystiolaeth ysgrifenedig a llafar yr unigolion yr effeithiwyd arnynt gan fabwysiadu**

Mae'r data ysgrifenedig a llafar wedi cael eu dadansoddi yn ôl themâu a chyflwynir y themâu mwyaf cyffredin isod. Rhoddwyd sylw i amrywiol brofiadau'r teuluoedd a gofalwyd nodi pan oedd y profiadau hynny'n rhai eithriadol neu'n ymddangos yn brofiadau arferol. Mae dyfyniadau dethol wedi'u cynnwys i ddangos y prif bwyntiau a rhoi syniad ynghylch natur gyfoethog a manwl y dystiolaeth a ddarparwyd gan deuluoedd. Newidiwyd rhai o'r manylion yn yr astudiaethau achos cryno er mwyn peidio â datgelu pwy yw'r unigolion.

**A) Barn y bobl ifanc**

Cyfarfu is-grŵp o aelodau â saith o bobl ifanc rhwng 14 a 17 oed sy'n mynd i grŵp mabwysiadu a hwylusir gan After Adoption, gan dreulio awr a hanner yn trafod â'r bobl ifanc.  Galluogwyd y bobl ifanc i fynegi eu safbwyntiau drwy drafodaeth grŵp, ymarfer ysgrifenedig a gweithgareddau. Cyflwynodd dau berson ifanc arall eu safbwyntiau yn ysgrifenedig.

Y ddwy brif thema ymhlith y bobl ifanc oedd ysgolion a theuluoedd biolegol.

Roedd amgylchedd yr ysgol, gan gynnwys cyfoedion, wedi rhoi cymorth ac wedi creu anawsterau i'r bobl ifanc hyn. Roedd nifer yn teimlo y dylid addysgu pob myfyriwr am fabwysiadu ac y dylai pawb fod yn ymwybodol y gall plant sy'n cael eu mabwysiadu gael eu bwlio. Dylai athrawon fod yn ymwybodol y gallai rhai pynciau beri gofid, er

enghraifft astudio 'Blood Brothers' mewn gwersi drama. Roedd y grŵp yn cytuno y gallai ysgolion wneud mwy i gydnabod yr holl fathau o amrywiol deuluoedd ac i addysgu amdanynt. Pwysleisiodd yr holl bobl ifanc a ddaeth i'r grŵp cefnogi hwn, pa mor bwysig yr oedd iddynt allu cymdeithasu a thrafod profiadau tebyg gyda chyfoedion sydd wedi eu mabwysiadu.

Roedd teulu biolegol yn fater pwysicach i'r bobl ifanc hyn yn yr ymchwiliad na'r rhieni sy'n mabwysiadu. Roedd amryw yn credu y dylid rhoi mwy o bwyslais ar frodyr a/neu chwiorydd yn aros gyda'i gilydd neu'n cadw mewn cysylltiad, a bod rhieni biolegol yn cael eu portreadu yn negyddol yn ormodol. Mynegodd un person ifanc y farn y dylai gael gweld ei gofnodion pan oedd yn 16 yn hytrach na 18 oed.

Mewn ymarfer lle'r oedd y bobl ifanc yn mynegi eu barn ar hyd continwwm, roedd yr angen am fwy o sensitifrwydd yn yr ysgolion yn amlwg iawn unwaith eto. Teimlwyd bod y sylw a roddir i fabwysiadu yn y cyfryngau yn wael hefyd. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn credu y dylai Llywodraeth Cymru annog mwy o fabwysiadu o ofal. Mewn ymarfer ysgrifenedig cryno (a gwblhawyd gan y ddau berson ifanc nad oeddent yn bresennol ar y diwrnod hefyd), mynegwyd y safbwyntiau isod:

**Petawn i'n gyfrifol am fabwysiadu yng Nghymru:**

**Cadw'r rhain yr un fath:** Grŵp After Adoption (x7); cadw brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd (x2);

**Newid hyn:** bod yn fwy agored a chael mwy o addysg ynghylch pam fod plant yn cael eu lleoli. <u>Nid</u> esgeulustod bob amser, ac ati, h.y. iechyd meddwl ac ati; pob plentyn sy'n cael ei fabwysiadu i gael cyswllt gyda rhieni biolegol.

**Mwy o hyn:** Cyfarfodydd (gyda thoesenni a ffrwythau) (x2); addysgu am fabwysiadu yn yr ysgolion (x4); plant sy'n cael eu mabwysiadu i gael mwy o gyswllt gyda rhieni biolegol (x2); cyfle i bobl sydd wedi cael eu mabwysiadu i gyfarfod yn amlach.

**Llai o hyn:** dim (x3), agwedd llai negyddol tuag at berthnasau biolegol.

**B) Materion yn ymwneud ag amserlenni**

Roedd rhai teuluoedd yn bendant o'r farn bod y broses yn symud ymlaen yn ddigon cyflym, ac roedd nifer o rai eraill yn credu bod y

broses yn araf eithriadol.  Thema amlwg oedd yr amser yr oedd yn ei gymryd i leoli'r plant gyda'r mabwysiadwyr, yn enwedig pan oedd yn debygol iawn, cyn i'r plentyn gael ei eni, y byddai'n cael ei leoli oherwydd hanes y teulu.

- nododd amryw o'r mabwysiadwyr fod yr amserlen yn teimlo'n iawn iddynt, a phetai'r asesiad neu'r paru wedi digwydd yn gynt, na fyddent wedi bod yn ddigon trylwyr.  Teimlai llawer y byddai cwtogi'r broses asesu yn andwyol i blant.

  "Yn bersonol, fe wnes i ddychryn braidd wrth glywed y dylid cyflymu'r broses fabwysiadu."

  "allwch chi ddim rhuthro'r broses."

- roedd llawer o'r mabwysiadwyr yn teimlo'n ddigalon yn dilyn ymateb eu hawdurdod lleol i'w hymholiad cychwynnol. Dywedwyd wrth amryw y byddai'n rhaid iddynt aros sawl mis cyn cael apwyntiad cychwynnol neu nad oeddent y math o fabwysiadwyr a oedd yn cael eu hystyried ar y pryd (oherwydd oedran neu am eu bod wedi mabwysiadu o'r blaen, ac eithrio mabwysiadu grwpiau o frodyr a/neu chwiorydd). Aeth amryw o'r mabwysiadwyr at asiantaethau mabwysiadu cyfagos neu annibynnol gan dderbyn gwell croeso ac ymweliadau cychwynnol neu wahoddiadau i nosweithiau gwybodaeth bron ar unwaith.

- dywedodd sawl un y gellid cyflymu'r asesiadau, a bod oedi o ran cychwyn asesiadau. Roedd rhai asesiadau yn araf iawn. Yn aml roedd yn rhaid aros yn eithriadol o hir am gymeradwyaeth a phaneli paru. Bu rhai'n aros am flynyddoedd o'r ymholiadau cyntaf nes daeth y plentyn i fyw gyda nhw. Roedd y broses wedi'i chwblhau o fewn ychydig fisoedd i rywfaint o deuluoedd.

Achos enghreifftiol: Gwnaeth cwpl gais i fabwysiadu mewn awdurdod lleol gwledig a oedd yn rhan o gonsortiwm rhanbarthol. Roedd plant cyn-ysgol yn byw gyda nhw ddeuddeg mis ar ôl eu hymholiad cyntaf. Priodolasant hyn i broses asesu drylwyr ond cyflym, a'r cyfathrebu da o fewn yr asiantaeth fabwysiadu a oedd yn golygu bod y gweithwyr cymdeithasol a oedd yn asesu yn adnabod y plant a oedd yn aros am leoliadau mabwysiadu.

- pan oedd asiantaethau mabwysiadu yn cyflogi gweithwyr cymdeithasol llawrydd, a oedd yn aml wedi ymddeol, ac yn brofiadol iawn, roedd yr asesiadau'n mynd yn eu blaenau'n gyflym ac yn esmwyth.

  "Roedd ein gweithiwr cymdeithasol llawrydd yn angel. Roedd hi yna i ni".

- mae'n bosibl na fydd rhai problemau sy'n ymwneud ag ymlyniad neu anableddau'n dod i'r amlwg am sawl blwyddyn ar ôl mabwysiadu. Mae'n anodd cael cefnogaeth ar yr adeg hynny.
- mae'r cyfrifoldeb am gefnogaeth ar ôl mabwysiadu yn symud o awdurdod gwreiddiol y plentyn i'r awdurdod lleol presennol ar ôl tair blynedd. Cafodd amryw o deuluoedd anawsterau o ran cael cefnogaeth yn y cyfnod hwn.
- roedd amryw o rieni'n credu y gallasai penderfyniadau ynghylch mabwysiadu fod wedi'u gwneud yn gynharach a bod y rhieni biolegol yn cael gormod o gyfleoedd a hynny ar draul angen y plentyn am leoliad parhaol. Teimlai amryw o deuluoedd y dylent fod wedi cael y cyfle i ofalu am frodyr a/neu chwiorydd iau a gafodd eu symud ar ôl cael eu geni, yn hytrach na bod y plant hynny'n treulio misoedd gyda gofalwyr maeth cyn y lleoliad mabwysiadu.

  "Am chwech mis roeddwn i'n gwybod bod 'fy' mhlentyn, gan mai dyna sut oeddwn i'n ei gweld hi, yn derbyn gofal gan rywun arall, ac yn gwybod mai'r cynllun oedd iddi ddod aton ni."

**C) Anghysondeb y ddarpariaeth**

- mae nifer o fabwysiadwyr wedi mabwysiadu fwy nag unwaith drwy wahanol asiantaethau, ac wedi darparu tystiolaeth fod gwahaniaeth yn lefel y gefnogaeth, cyflymder ac effeithlonrwydd y prosesau a'r gefnogaeth ar ôl mabwysiadu rhwng y gwahanol asiantaethau.
- er y trafodwyd y ddwy asiantaeth sector gwirfoddol yn gadarnhaol iawn a hynny o ran holl agweddau eu gwasanaeth, mae'n bwysig nodi bod nifer o awdurdodau lleol wedi eu nodi fel asiantaethau a oedd yn darparu gwasanaethau rhagorol, ymatebol a sensitif, a hynny ar yr un lefel â'r sector gwirfoddol.

"Fe wnaeth y ffordd y cafodd ein hymholiad cychwynnol ei drin gryn argraff ac roedd yn galonogol iawn... fe wnaeth y pecyn gwybodaeth clir iawn argraff dda ... roedd (y gweithiwr cymdeithasol) yn tawelu ein meddwl ac roedd yn gadarnhaol iawn ynghylch mabwysiadu, fe wnaeth ateb pob un o'n cwestiynau ni ac fe gawson ni groeso ganddi."

Ar y llaw arall, bu mabwysiadwyr yn siarad am wasanaethau nad oedd yn cyrraedd y disgwyliadau, gydag oedi hir, yn enwedig wrth ymateb i ymholiadau cychwynnol.

"Ddwy flynedd ar ôl ein hasesiad, fe gawson ni alwad i ddweud eu bod wedi dod o hyd iddo yng ngwaelod cwpwrdd".

"Aeth ein ffurflenni cais ar goll".

"Roedden ni'n teimlo bod rhywun yn dweud wrthyn ni am fynd i ddiwedd y ciw".

"Fe gysylltwyd â'n canolwyr cyn i ni gyfarfod gweithiwr cymdeithasol".

- nododd dau deulu sydd wedi mabwysiadu drwy asiantaethau gwirfoddol y gall yr asiantaethau hyn gael mwy o anawsterau o ran sicrhau adnoddau ar gyfer cefnogi, er gwaethaf y ffaith eu bod yn lleoli plant gydag anghenion uwch na'r cyffredin yn aml iawn.

**D) Profiadau o ran asesu a pharatoi ar gyfer mabwysiadu**

Roedd profiadau o ran asesu yn gymysg iawn. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau yn ymwneud â'r berthynas unigol â'r gweithiwr cymdeithasol, cyflymder y broses a'r mathau o feysydd y rhoddir sylw iddynt.

- yn aml iawn, roedd mabwysiadwyr yn dweud bod yr asesiad yn rhywbeth personol iawn ac yn heriol, ond yn angenrheidiol oherwydd anghenion y plant a oedd yn aros i gael eu mabwysiadu.

  "Roedd y broses asesu yn un anodd a hir ar y pryd, ond nawr ar ôl y ffeithiau, rydyn ni'n deall yr angen."

- mae nifer yn tystio bod sesiynau hyfforddi a gwybodaeth grŵp wedi bod yn gadarnhaol, yn arbennig pan oedd y rheini'n cael eu

harwain gan fabwysiadwyr. Yn wir, roedd hyfforddiant, cefnogaeth a chyngor gan fabwysiadwyr eraill yn un o themâu amlycaf y dystiolaeth.

- cafwyd rhai enghreifftiau o sesiynau hyfforddiant paratoi gorfodol a oedd yn ddiflas iawn, *'gormod o lawer o gyflwyniadau PowerPoint'.*

- roedd llawer o unigolion wedi datblygu perthynas dda gyda'r gweithwyr cymdeithasol ac yn teimlo ei fod yn ddefnyddiol iawn pan oedd dilyniant o ran staff.

  "Mae ein gweithiwr cymdeithasol wedi ein cefnogi ni drwy bob cam ac wedi esbonio beth fydd pob cam yn ei olygu i'r broses gyfan mewn ffordd glir a gonest."

- roedd nifer fechan yn credu bod rhai o'r cwestiynau yn amherthnasol neu'n ansensitif ac yn llawer rhy fusneslyd. Teimlai un teulu ei fod wedi cael ei 'groesholi' am ei Gristnogaeth, mewn ffordd na fyddai pobl sy'n dilyn ffydd arall neu anffyddwyr wedi cael eu holi, er gwaethaf y ffaith ei fod yn fodlon gadael i unrhyw blentyn a fyddai'n cael ei fabwysiadu ddilyn ei ffydd ei hun neu ddim un. Teimlai aelodau o deulu arall fod yr ymarferion a'r traethodau yr oedd gofyn iddynt eu hysgrifennu yn gwneud iddynt deimlo fel 'plant ysgol'.

  "Gall y biwrocratiaeth ar gyfer yr holl wahanol fforymau olygu bod sylw'r gweithwyr cymdeithasol yn cael ei dynnu oddi wrth hanfod eu gwaith, sef lles gorau'r plentyn."

- dywedodd nifer o'r mabwysiadwyr bod ymdeimlad o ddiffyg grym yn y broses. Maent yn teimlo'r angen i fod yn oddefgar iawn ac yn ufudd dros ben er mwyn cael eu hargymell ar gyfer mabwysiadu ac i gael eu paru â phlant. Yn aml iawn mae'n anodd dod o hyd i wybodaeth glir ynghylch sut i fynd ati i fabwysiadu a'r hyn y mae'r broses yn ei olygu.

- cyfeiriodd un mabwysiadwr at yr anghysondeb bod disgwyl i gyplau heb blant gael profiad uniongyrchol gyda phlant. Dywedodd teulu arall fod treulio amser yn y feithrinfa leol gyda phlant o'r un oedran â'r plentyn yr oeddent yn cael eu paru ag ef wedi bod yn amhrisiadwy.

- roedd mabwysiadwr sengl yn teimlo bod y system yn cael ei hanelu tuag at gyplau o ran yr asesiadau, y cymorth ariannol, yr

hyfforddiant a'r grwpiau cefnogi mabwysiadu. Cyfeiriodd dau fabwysiadwr sengl at y pwysau ariannol sylweddol yr oeddent wedi ei wynebu, ac roeddent yn teimlo y dylid bod gwell darpariaeth lwfansau mabwysiadu tymor hir ar gyfer y rheini sydd angen lleihau eu horiau gwaith o ganlyniad i fabwysiadu. Roedd mabwysiadwr sengl arall yn teimlo iddi gael ei thrin yn dda fel mabwysiadwr sengl.

- roedd nifer o'r mabwysiadwyr wedi dod yn ymwybodol bod prinder staff yn arafu'r broses. Roedd ymweliadau asesu wythnosol yn cael eu gweld fel rhywbeth dymunol yn hytrach nag ymweliadau misol.

**E) Profiadau o ran paru**

- roedd profiadau o ran paru yn amrywiol iawn. Roedd y rhan fwyaf yn cael eu paru wythnosau neu fisoedd ar ôl cael eu cymeradwyo fel mabwysiadwyr. Roedd nifer fechan yn teimlo o dan bwysau i ystyried mabwysiadu plant na fyddent wedi eu hystyried yn flaenorol, ond roedd y rhan fwyaf yn credu bod y broses yn dderbyniol neu'n dda. Gwnaeth amryw sylw ar y ffaith bod cael gweithiwr cymdeithasol y mae ganddynt berthynas o ymddiriedaeth a pherthynas wych ag ef/hi wedi gwneud y profiad yn un cadarnhaol iawn.
- roedd amryw yn credu bod y paru'n rhy lleol (cadw mabwysiadwyr y mae wedi costio'n ddrud i'w hasesu ar gyfer plant lleol) ac y gellid paru'n well petai hynny'n digwydd dros Gymru gyfan neu hyd yn oed ar draws y DU gyfan. Roedd paru'n lleol yn peri problemau o ran cyflymder, ond hefyd o ran diogelu'r plant rhag eu rhieni biolegol neu leoedd a allai ddwyn atgofion drwg i'w cof.
- roedd profiadau o ddiwrnodau paru consortiwm yn gymysg. Roedd y rhan fwyaf yn credu bod y profiad o giwio i edrych ar broffiliau plant a chofrestru diddordeb yn ddi-chwaeth braidd, serch hynny, roedd o leiaf tri o'r teuluoedd a ddarparodd dystiolaeth wedi cael eu paru'n llwyddiannus â phlant drwy'r broses hon.

  "Weithiau mae cael eich paru â phlentyn yn teimlo fel cyfres o gyd-ddigwyddiadau lwcus, neu ganlyniad perthynas dda rhwng gweithwyr cymdeithasol."

- weithiau bu'n rhaid i fabwysiadwyr am yr ail neu'r trydydd tro gael eu hailasesu'n helaeth, pan fyddai adolygiadau cryno, mwy penodol wedi bod yn ddigon ac wedi arwain at leoli plant yn gyflymach.  Roedd hyn yn rhwystredig iawn pan oedd y mabwysiadwyr yn mabwysiadu brodyr a/neu chwiorydd eu plant a phan mai mabwysiadu oedd y cynllun ar eu cyfer cyn iddynt gael eu geni. Byddai amryw o fabwysiadwyr wedi ystyried trefniadau cynllunio cydamserol ar gyfer brodyr a/neu chwiorydd iau newydd-anedig.

  "Mae deunaw mis yn amser hir i fod mewn gofal maeth."

- Roedd nifer fechan o deuluoedd, gan gynnwys y rheini a oedd wedi profi anawsterau difrifol, yn teimlo nad oeddent wedi derbyn digon o wybodaeth am brofiadau cynnar eu plant ac anawsterau iechyd, dysgu neu ymddygiad posibl yn ystod y cam paru. Roedd rhai adroddiadau yn hen ac roedd anghenion y plant wedi newid cyn y cam paru. Teimlai tri teulu bod brodyr a/neu chwiorydd wedi cael eu lleoli yn amhriodol gyda'i gilydd.

  "O'n profiad ni, roedd yn ymddangos nad oedd plant a rhieni yng nghanol y broses o gwbl. Roedd gormod o bwyslais ar y system, y gwaith papur, ticio'r blychau a dim digon o bwyslais ar anghenion gwirioneddol y plentyn a'r rhieni."

**F)  Cefnogaeth a therapi ar ôl paru ac ar ôl mabwysiadu**

Roedd cefnogaeth mabwysiadu yn thema amlwg iawn drwy'r holl dystiolaeth gan fabwysiadwyr.

- mae nifer fechan wedi derbyn cefnogaeth a darpariaeth dda ar ôl mabwysiadu, gan gynnwys pecynnau helaeth o gefnogaeth mewn rhai achosion.
- stori fwy cyffredin yw'r angen i frwydro am wasanaethau ar ôl mabwysiadu, yn enwedig gwasanaethau therapiwtig drud. Nododd amryw o'r mabwysiadwyr bod costau therapi ar ôl mabwysiadu yn llawer is na gofal maeth neu breswyl tymor hir. Roedd nifer fechan iawn o deuluoedd wedi bod yn brwydro am amser maith gydag awdurdodau lleol i sicrhau pecynnau gofal neu gefnogaeth therapiwtig ar gyfer plant ag anableddau difrifol. Yn anffodus, roedd y rhain wedi arwain at achosion cyfreithiol ambell waith. Awgrymodd un teulu y dylai gael gwasanaethau eirioli annibynnol pan fyddai anghydfod â'r awdurdod lleol.

> “mae'r drws yn agored i'r awdurdod lleol (ond) does dim arian y tu ôl iddo.”

> “Rydyn ni wedi parhau i ofyn am therapi i (merch), ond rydyn ni'n rhoi'r ffidil yn y to nawr - mae'n frwydr galed na wnawn ni ei hennill.”

> “Rydyn ni wedi blino'n lan ac wedi cyrraedd y pen draw, a dydyn ni ddim wedi cael unrhyw seibiant.”

- mae nifer yn teimlo nad yw anhwylderau/anawsterau ymlyniad yn cael eu cydnabod yn aml, ac nad oes darpariaeth ar eu cyfer.
- mae angen cefnogaeth iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg ar amryw o blant. Gellid integreiddio asesiadau a gwasanaethau yn well a dylai fod gweithwyr cymdeithasol yn gallu defnyddio cyllidebau cefnogi penodol ar ôl mabwysiadu yn well.

> “Byddai'n llawer llai o straen a byddai'n rhoi diwedd ar y cylch di-ben-draw o asesiadau petai'n bosib cael un asesiad gofal cymdeithasol a fyddai hefyd yn cynnwys iechyd ac addysg.”

- nododd nifer fawr o rieni fod gan blant wedi'u mabwysiadu anghenion tebyg i blant sy'n derbyn gofal ac y dylent allu cael yr un gwasanaethau gydol eu plentyndod.
- nodwyd bod y therapi gan ddarparwyr annibynnol a trydydd sector yn amhrisiadwy, ond yn aml yn ddrud ac anodd cael gafael arnynt.

> “Rydyn ni'n teimlo'n frwd iawn y gallai'r model hwn o fewnbwn dwys gan dîm o weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi'r mabwysiadwyr a'r sawl sy'n cael ei fabwysiadu cyn y lleoli ac yn ystod y misoedd cynnar wedi hynny fod o werth llawer ehangach... a bod pawb sy'n rhan o'r broses fabwysiadu yn haeddu'r un faint o ofal, cefnogaeth fedrus a sylw yr ydyn ni wedi bod yn ddigon lwcus i'w cael.”

- mae nifer yn cael cefnogaeth gan fudiadau megis Adoption UK ac After Adoption. Nifer fechan sy'n gallu mynd i grwpiau cefnogi rheolaidd asiantaethau mabwysiadu awdurdodau lleol ar ôl mabwysiadu, gyda rhai eithriadau nodedig.

**Achos enghreifftiol:** Dywedodd un rhiant sy'n mabwysiadu fod grwp mabwysiadwyr yr awdurdod lleol yn 'bwysig iawn'. Nid oes grwp cyfatebol mewn nifer o'r awdurdodau cyfagos.

- ystyrir bod sesiynau hyfforddi ar ôl mabwysiadu ar faterion megis ymlyniad, bod yn rhieni i bobl ifanc yn eu harddegau a helpu plant i ddeall hanes eu bywyd, yn amhrisiadwy, ond nad ydynt yn cael eu cynnig yn ddigon aml, neu eu bod yn rhy ddrud. Cynigir hyfforddiant yn rhy gynnar yn y broses weithiau, cyn i'r problemau ddod i'r amlwg o fewn y teulu sy'n mabwysiadu.
- dywedodd rhai nad oedd eu plant wedi derbyn digon o gefnogaeth ac nad oeddent wedi cael eu paratoi yn ddigonol cyn gadael eu gofalwyr maeth a symud i fyw gyda theulu newydd. Nododd rhywfaint fod gofalwyr maeth profiadol wedi rhoi cefnogaeth amhrisiadwy i'r plentyn a'r mabwysiadwyr. Roedd hyn yn aml yn rhywbeth parhaus. Ar y llaw arall, roedd rhai yn dweud bod gofalwyr maeth wedi gwneud y symud yn anodd. Teimlai rhai bod eu plant wedi derbyn gofal gwael mewn cartrefi maeth gorlawn neu ddibrofiad. Yn ôl a ddeëllir roedd un baban wedi cael ei esgeuluso mewn cartref maeth.

  "Fe wnaeth alaru am ei ofalwyr maeth am amser maith, yn sicr."

  "Fe wnaeth rhiant maeth ein plant ein helpu ni i ddod yn rhieni cymwys. Roedden ni'n nerfus iawn."

- roedd un teulu a oedd yn mabwysiadu wedi profi nifer o anawsterau o ran dod o hyd i wybodaeth am hanes bywyd eu plentyn (plentyn hŷn a oedd wedi'i fabwysiadu). Dywedodd nifer nad oeddent wedi derbyn unrhyw lyfrau am hanes bywyd neu nad oedd y llyfrau hanes bywyd yn addas (e.e. cynnwys cyfeiriad y teulu biolegol). Dywedodd un teulu mai'r gwaith hanes bywyd oedd y 'flaenoriaeth isaf' i awdurdodau lleol.
- roedd yr amserlen a'r trefniadau ar gyfer cyfarfod y plant a dod i'w hadnabod cyn iddynt symud at y teulu newydd yn brofiad cadarnhaol iawn i rai mabwysiadwyr, ond i eraill nid oedd yr amser a'r arddull yn ddigon hyblyg. Mae ymarferwyr a gofalwyr maeth profiadol yn amhrisiadwy yn ystod y cyfnod hwn.
- mae dau deulu wedi cael profiad o ymchwiliadau amddiffyn plant o ganlyniad i ymddygiad heriol eu plant, gan gynnwys honiadau

ffug. Roedd y ddau deulu'n teimlo nad oeddent wedi cael cefnogaeth a'u bod wedi dioddef trawma o ganlyniad i'r profiad hwn, er eu bod wedi cael eu rhyddhau o fai.

- mae bron pob teulu yn cyfeirio at gefnogaeth cymheiriaid fel rhywbeth cadarnhaol y dylid ei annog ac y gellid ei drefnu'n fwy ffurfiol.

  "Dylai mentor sy'n rhiant fod ar gael ar gyfer pob teulu i helpu i ymchwilio'n ddiogel i'r cyfnod ansicr hwn o newid (h.y. dim problem) o fod yn gwpl i fod yn rhieni sy'n mabwysiadu, ac o fod yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol i fod yn blentyn sy'n cael ei fabwysiadu gan deulu newydd."

**G) Addysg**

- yr ysgol oedd y thema amlycaf yn nhystiolaeth y bobl ifanc, fel yr adroddir uchod.
- nododd nifer fechan o deuluoedd pa mor sensitif ac ymatebol y bu ysgolion eu plant i anghenion eu plant. Roedd enghreifftiau yn cynnwys athro yn rhoi gwybod i rieni y bydd y dosbarth yn trafod 'pwy yw pwy' yn eu teuluoedd yr wythnos ganlynol gan awgrymu eu bod yn paratoi eu plentyn ar gyfer hyn.
- byddai nifer o deuluoedd wedi hoffi cael help a chefnogaeth i ddewis a gwneud ceisiadau ar gyfer ysgolion. Yn aml iawn, mae angen lleoedd ar fyr rybudd os ydynt yn blant oed ysgol pan fyddant yn ymuno â'r teulu.
- roedd nifer o deuluoedd yn teimlo y dylai plant sy'n cael eu mabwysiadu gael yr un flaenoriaeth o ran cael eu derbyn â phlant sy'n derbyn gofal (gan eu bod yn blant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac am fod ganddynt anghenion tebyg).

| |
|---|
| **Achos enghreifftiol:** Roedd un teulu mewn ardal wledig yn dymuno i'w plentyn fynd i'r un ysgol (a oedd â gormod o ddisgyblion) â'i frawd/chwaer hon, ond roedd yn byw y tu allan i'r dalgylch. Mae'n bosibl nad yw'r ysgol leol yn addas oherwydd cysylltiadau â'r teulu biolegol. Roedd y brawd/chwaer hon yn 'derbyn gofal' pan ddechreuodd yn yr ysgol, felly roedd yn flaenoriaeth. Mae'r plentyn iau wedi ei fabwysiadu, felly nid yw'n cael ei flaenoriaethu yn awtomatig ar gyfer ei dderbyn. |

- dywedodd sawl teulu fod gan benaethiaid ac athrawon dosbarth unigol agweddau ansensitif tuag at fabwysiadu. Roedd hyn yn

cynnwys peidio â rhoi rhybudd pan fyddai gofyn i blant ddarparu lluniau ohonynt yn fabanod (efallai na fyddai ganddynt luniau). Dywedodd amryw nad oedd effaith hirdymor colli rhywun pan oeddent yn ifanc, camdriniaeth, neu fagwraeth wael yn cael ei gydnabod ddigon. Dywedodd un neu ddau fod mabwysiadu a phroblemau cysylltiedig, er enghraifft anhwylderau ymlyniad yn cael eu priodoli yn ormodol i ymddygiad normal a'r hyn a ddisgwylir. Roedd rhai yn teimlo bod eu plant wedi cael eu labelu yn anodd.

> “Fe wnes i ofyn a oedd pob merch oedd yn anghofio ei dillad addysg gorfforol yn fwriadol yn cael ei labelu ag anhwylder ymlyniad.”

- gall rhai pynciau a astudir yn yr ysgolion beri poen i blant sydd wedi'u mabwysiadu (gan gynnwys rhai darnau ffuglen a dosbarthiadau geneteg ac etifeddiaeth) a gallai athrawon fod yn fwy sensitif i hyn gan fynd ati'n rhagweithiol i gynnig cefnogaeth gyfrinachol.
- roedd sawl teulu yn galw am ragor o hyfforddiant ar gyfer athrawon a staff eraill yr ysgol. Yn ôl rhai, roedd cost hyfforddiant o'r fath yn rhwystro rhai ysgolion.
- teimlai nifer o deuluoedd nad oedd eu plant yn cael digon o gymorth ychwanegol neu'n derbyn y math anghywir o gymorth ychwanegol. Gall fod gan blant sydd wedi dioddef trawma yn gynnar yn eu bywydau anghenion nad ydynt yn cyd-fynd yn rhwydd â chategorïau presennol y ddarpariaeth.
- cafwyd profiadau cadarnhaol a negyddol mewn ysgolion y wladwriaeth, ysgolion preifat, ysgolion arbennig, ysgolion cynradd ac uwchradd ac ysgolion mawr a bach. Mewn geiriau eraill, nid oedd unrhyw batrwm penodol i brofiadau teuluoedd mewn ysgolion.

**H)Materion rhanbarthol a gwledig**

Roedd y sesiynau yn Wrecsam a Narberth yn benodol, yn ogystal â rhai o'r cyflwyniadau ysgrifenedig, wedi tynnu sylw at agweddau daearyddol cadarnhaol a negyddol mabwysiadu.

- adroddir bod rhai timau mabwysiadu bychan, gwledig yn adnabod eu cymunedau, eu plant a'u teuluoedd sy'n

mabwysiadu yn dda, a bod hynny'n arwain at amgylchedd cefnogol a pharu da (gwnaed y sylw hwn am o leiaf un o'r awdurdodau mwy yn y cymoedd hefyd).

- roedd rhai yn bryderus ynghylch cynnal cyfrinachedd plant mewn cymunedau bychan, yn arbennig pan oedd y teuluoedd biolegol yn dod o'r un rhanbarth.
- roedd amryw o deuluoedd yn cael anhawster cael ymateb gan awdurdod lleol gwreiddiol y plentyn pan oedd gryn bellter i ffwrdd, a phan oeddent yn dymuno cael gwasanaethau cefnogi. Mae trosiant staff uchel yn cymhlethu hyn.

| |
|---|
| Astudiaeth achos: Materion daearyddol. Mabwysiadodd teulu o Dde Cymru blentyn o Ogledd Cymru. Yn ystod y cyfnod rhagarweiniol, roedd yn rhaid i'r teulu a oedd yn mabwysiadu aros mewn gwesty, ac roedd gwrthwynebiad y teulu maeth i'r cynllun yn gwneud hyn yn hyd yn oed anoddach. Daeth ymweliadau cyswllt y teulu biolegol i ben oherwydd bod y teulu biolegol yn cael anhawster teithio'r holl ffordd i'r cartref mabwysiadu. |

## l) Materion pellach

- nododd nifer o fabwysiadwyr sut yr oeddent yn teimlo bod y plant wedi gwella eu bywydau, a dywedodd rhai yr hoffent weld rhagor o straeon cadarnhaol yn y cyfryngau er mwyn annog rhagor o bobl i fabwysiadu.
- nododd un teulu ei fod wedi bod angen cefnogaeth gyda'r broses gyfreithiol o fabwysiadu ei blant, ond ei fod wedi cael ei adael i 'ddelio â'r peth'. Mae materion eraill nas datganolwyd yn cynnwys y lefel isel o dal mabwysiadu o gymharu â thal mamolaeth, er gwaethaf y ffaith y gall rhai teuluoedd ddechrau gofalu am amryw o blant ag anghenion ychwanegol ar unwaith, a hynny'n golygu cyfnodau maith i ffwrdd o'r gwaith a'r angen i weithio'n rhan amser. Dywedwyd bod rhai cyflogwyr yn ddigydymdeimlad, ac eraill wedi bod yn hyblyg iawn.
- mae rhai enghreifftiau o gyswllt â'r teuluoedd biolegol ar ôl mabwysiadu. Mae rhai yn dod o strwythurau teuluol cymhleth gyda'r plant mewn un teulu mabwysiadu â 26 hanner brawd neu chwaer y gwyddys amdanynt. Dywedodd amryw o fabwysiadwyr

yr hoffent hyrwyddo mwy o gyswllt â brodyr a/neu chwiorydd mewn teuluoedd mabwysiadu eraill.

**J) Crynodeb o'r rhwystrau a nodwyd gan unigolion**

- oedi o ran ymatebion awdurdodau lleol i ddarpar fabwysiadwyr
- pobl sydd wedi mabwysiadu o fwy nag un asiantaeth wedi derbyn gwasanaethau anghyson
- mynediad gwael ac anghyson at wasanaethau arbenigol a therapiwtig ar ôl mabwysiadu
- nid yw'r rheini nad ydynt yn cyrraedd trothwyon penodol yn cael mynediad at wasanaethau CAMHS. Byddai hyfforddiant, therapi a chyngor i deuluoedd gan y wladwriaeth cyn i'r problemau waethygu yn cael eu croesawu.
- prinder gwybodaeth staff ynghylch hawliau ac anghenion plant sydd wedi'u mabwysiadu (gwasanaethau cymdeithasol, addysg a staff y llys)
- yr angen i frwydro am gefnogaeth ac i gydnabod yr anawsterau y mae plant a/neu rieni yn eu hwynebu. Dylai fod gan blant sy'n cael eu mabwysiadu yr un hawliau â phlant sy'n derbyn gofal (os oes angen).
- diffyg gofal seibiant a gwasanaethau cefnogi eraill sy'n cael eu cynnig yn i ofalwyr maeth fel rheol.
- mae rhai mabwysiadwyr yn rhoi pwysau arnynt eu hunain i smalio bod popeth yn iawn a dangos eu bod yn ymdopi, yn arbennig ar y dechrau, oherwydd eu bod yn teimlo bod angen profi eu bod yn gallu bod yn rhieni ac oherwydd bod pawb yn awyddus i glywed bod popeth yn mynd yn dda. Gall cefnogaeth cymheiriaid a chefnogaeth lefel isel barhaus gweithwyr cymdeithasol mabwysiadu fod yn effeithiol yn y sefyllfaoedd hyn.

**K) Crynodeb o'r hyn y nododd unigolion sydd wedi bod o gymorth**

- ymateb cyflym a brwdfrydig gan asiantaethau mabwysiadu
- dilyniant o ran staff mabwysiadu
- mabwysiadwyr profiadol yn rhan o'r prosesau hyfforddi a mentora

- cefnogaeth cymheiriaid mewn grwpiau ac ar sail un-i-un
- cefnogaeth gan asiantaethau megis Adoption UK ac After Adoption.
- gofalwyr maeth cefnogol a gwybodus sy'n helpu plant i symud yn llwyddiannus ac yn dysgu mabwysiadwyr sut i ofalu am blentyn penodol.
- gwasanaethau therapiwtig arbenigol. Gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant sydd wedi wynebu aflonyddwch yn flaenorol.
- hyfforddiant o safon uchel ar ôl mabwysiadu.
- dywedodd llawer o'r mabwysiadwyr fod mabwysiadu wedi dod â llawer o bleser iddynt.  Roeddent yn gobeithio y gallai'r straeon cadarnhaol annog rhagor o bobl i gynnig eu hunain fel mabwysiadwyr.

> "Ef yw'r bachgen bach gorau yn y byd, wrth gwrs!"
>
> "Mae wedi bod yn wych!"
>
> "Mae gan fy ngŵr a minnau fachgen bach hyfryd, sydd â rhywfaint o ymddygiad heriol, ond rydyn ni wedi dod drwyddi, ac rydyn ni'n ei garu'n fawr iawn, ac yn teimlo'n lwcus dros ben."

**L) Y gwasanaeth mabwysiadu arfaethedig**

Roedd gan nifer o deuluoedd farn glir ynghylch creu un gwasanaeth mabwysiadu, ac mae rhywfaint o'r dystiolaeth arall yn yr adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am y mater hefyd.

- roedd y rhan fwyaf o'r teuluoedd a oedd â barn ar y mater yn credu y byddai cael un gwasanaeth mabwysiadu yn gam cadarnhaol ymlaen. Roedd hyn oherwydd: a) ymateb fwy cyson a chlir i ddarpar fabwysiadwyr, b) paru cyflymach a mwy llwyddiannus gyda chronfa gychwynnol fwy o fabwysiadwyr a phlant, c) gwell cysondeb a gwell hyfforddiant a gwasanaethau cefnogi ar ôl mabwysiadu, d) trothwyon a safonau a  ddefnyddir yn genedlaethol ar gyfer cefnogaeth ar ôl mabwysiadu.
- roedd nifer fechan o'r teuluoedd yn erbyn y cysyniad o gael gwasanaeth cenedlaethol oherwydd eu bod yn ofni y byddai'r gwasanaeth lleol rhagorol yr oedd eu plant wedi ei dderbyn yn

gwanhau mewn gwasanaeth mwy, gyda llai o wybodaeth leol a pherthnasau â staff lleol.

**Crynodeb**

Roedd bron pob teulu'n dymuno pwysleisio bod y pleser o fod yn rhieni i'w plant yn gorbwyso unrhyw anawsterau yr oeddent wedi eu hwynebu ac roeddent yn dymuno i Lywodraeth Cymru ddefnyddio rhagor o straeon cadarnhaol i hyrwyddo mabwysiadu yng Nghymru.

Un o'r themâu amlycaf oedd anghysondeb yr ymatebion rhwng awdurdodau lleol, gyda'r ymatebion cychwynnol, yr asesiad, yr hyfforddiant, y paru a'r gefnogaeth ar ôl mabwysiadu yn amrywio o ragorol i wael iawn.

Mae'r perthnasau unigol â gweithwyr cymdeithasol (y mabwysiadwyr a'r plentyn) yn ganolog i'r profiad, sy'n awgrymu'r angen am hyfforddiant arbenigol o safon uchel a pholisïau i annog gweithwyr profiadol i aros yn y swyddi hyn.

Mae ymatebion yr ysgolion i blant wedi'u mabwysiadu yn amrywio o ardderchog i ansensitif, sy'n awgrymu bod angen darparu cyngor a hyfforddiant cenedlaethol i ysgolion.

Mae'n ymddangos ei bod yn anodd cael gafael ar wasanaethau cefnogi ar ôl mabwysiadu, ac nid ydynt yn cael eu defnyddio'n gyson, ac nid yw'r trothwy hawliau'n glir. Mae'n ymddangos bod bylchau yn y ddarpariaeth o gefnogaeth mabwysiadu arbenigol yng Nghymru, o ddarpariaeth sy'n costio'n gymharol isel fel grwpiau cefnogi (ar gyfer mabwysiadwyr a phobl ifanc) a hyfforddiant i rieni ac ymyriadau therapiwtig i deuluoedd ac unigolion sy'n fwy costus. Mae'r rhan fwyaf o rieni mabwysiadu yn yr ymchwiliad hwn yn cefnogi'r farn y dylai fod gan blant sy'n cael eu mabwysiadu hawliau tebyg i blant sy'n derbyn gofal.

Mae llawer o deuluoedd sy’n mabwysiadu'n teimlo'n ofidus ynghylch pa mor hir yr oedd eu plant mewn gofal maeth cyn dod i fyw gyda nhw. Mae'n ymddangos bod hyn yn fater penodol pan mai mabwysiadu oedd y canlyniad tebygol cyn i'r plentyn gael ei eni, a phan oedd rhieni a oedd wedi mabwysiadu brawd/chwaer hŷn yn fodlon cael eu hystyried fel darpar fabwysiadwyr baban newydd-anedig.

Mae gofalwyr maeth yn chwarae rhan hanfodol bwysig yn helpu plant i symud yn llwyddiannus at deuluoedd mabwysiadu, ond efallai y byddent yn cael y broses hon yn anodd iawn, ac y byddai angen cefnogaeth arnynt.

Roedd pobl ifanc wedi'u mabwysiadu yn rhoi pwyslais ar eu hunaniaeth bersonol, gan gynnwys y dymuniad i wybod pwy yw eu brodyr/chwiorydd, cael darlun mwy cadarnhaol o deuluoedd biolegol, ysgolion a chyfoedion yn bod yn fwy sensitif, a rôl bwysig grwpiau cefnogi mabwysiadu.

Mae'n ymddangos bod asiantaethau cefnogi megis Adoption UK ac After Adoption yn ffynonellau gwybodaeth, hyfforddiant, eirioli a chefnogi hanfodol.

**Cydnabyddiaeth**

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r rheini sydd wedi cynorthwyo i hwyluso'r dystiolaeth gan deuluoedd sy'n mabwysiadu: y teuluoedd sydd wedi cymryd rhan, rhai ohonynt wedi teithio o bell ac wedi cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith,  gweithwyr a grŵp pobl ifanc After Adoption UK, Cymdeithas Dewi Sant, Barnardo's, sawl rheolwr tîm a chonsortiwm mabwysiadu o awdurdodau lleol a'r clercod pwyllgor a'r ymchwilydd.

**Dr Sally Holland, Darllenydd mewn Gwaith Cymdeithasol, Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd.**

**Ymgynghorydd annibynnol i'r ymchwiliad.**

# Atodiad B: Cylch Gorchwyl

Ar gyfer yr Ymchwiliad hwn, nododd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc angen i:

- adolygu'r ffordd y caiff gwasanaethau mabwysiadu eu darparu yng Nghymru, ac ystyried pa mor effeithiol y maent yn adlewyrchu hawliau'r plentyn; ac
- edrych yn fanwl ar brofiadau'r rhai yr effeithir yn uniongyrchol arnynt gan y broses fabwysiadu, yn cynnwys darpar rieni, rhieni sy'n mabwysiadu a phlant wedi'u mabwysiadu, a pha gymorth a roddir iddynt drwy'r broses ar ei hyd.

Amcanion y Pwyllgor oedd:

- nodi ble mae angen gweithredu i gael gwared â rhwystrau rhag mabwysiadu, gan gynnwys y ffordd orau o sicrhau bod cyn lleied o oedi â phosibl yn y broses fabwysiadu;
- nodi arferion da a gwneud argymhellion ynglŷn â'r hyn y gellid ei wneud i wella'r cymorth sy'n cael ei roi i deuluoedd sy'n mabwysiadu a phlant ar ôl mabwysiadu;
- nodi sut mae Llywodraeth Cymru'n monitro achosion mabwysiadu ac yn tracio cynnydd y plentyn a'r rhieni, a sefydlogrwydd lleoliadau yn benodol;
- ystyried sut y gallai creu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, fel sydd wedi'i gynnig gan Lywodraeth Cymru, wella effeithiolrwydd y gwasanaethau mabwysiadu.

## Atodiad C: Rhestr o'r tystion a roddodd dystiolaeth lafar

*9 Mai 2012*

BAAF Cymru ac Adoption UK

*23 Mai 2012:*

Dewi Sant a Barnardo's Cymru

Dr Mike Davies [Seicotherapydd Ymgynghorol Annibynnol]

Conffederasiwn y GIG [darpariaeth CAMHS]

*13 Mehefin 2012*

Dr Julie Selwyn

Yr Athro Alan Rushton

*21 Mehefin 2012*

Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

Erica Beddoe, Uwch Seicolegydd Addysg

Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain [BASW] Cymru

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addyg Cymru [CCAC]

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cyngor Caerdydd

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru [CLlLC] a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol [ADSS]

*19 Gorffennaf 2012*

Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r Pwyllgor yn fawr iawn ei ddyled hefyd i'r rhieni sydd wedi mabwysiadu a'r bobl ifanc, nad ydynt wedi'u henwi yn yr adroddiad hwn, ond a roddodd o'u hamser i'n helpu ni gyda'r ymchwiliad pwysig hwn. Rhoddodd eu parodrwydd i rannu eu profiadau'n agored gipolwg unigryw i'r Pwyllgor ar fabwysiadu yng Nghymru